# RHAN 1 - CRYNODEB AC ESBONIAD

## Cyfansoddiad y Cyngor

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar gyfansoddiad sy'n cyflwyno sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithiol, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol gan y gyfraith, tra bo eraill yn fater i'r Cyngor eu dewis.

Rhennir y Cyfansoddiad i 15 o erthyglau sy'n cyflwyno'r rheolau sylfaenol sy'n llywio busnes y Cyngor. Darperir gweithdrefnau a chodau ymarfer mwy manwl mewn rheolau a phrotocolau ar wahân ar ddiwedd y ddogfen.

## Beth sydd yn y Cyfansoddiad?

Mae Erthygl 1 y Cyfansoddiad yn ymrwymo'r Cyngor i sicrhau ei fod yn gwasanaethu trigolion y Sir mewn ffordd fodern sydd yn atebol, yn agored ac yn sicrhau cyfle cyfartal er mwyn gwella ansawdd eu bywydau

Mae Erthyglau 2 - 15 yn egluro hawliau dinasyddion a sut mae rhannau allweddol y Cyngor yn gweithredu. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Aelodau'r Cyngor (Erthygl 2)
- Dinasyddion a'r Cyngor (Erthygl 3)
- Y Cyngor Llawn (Erthygl 4)
- Cadeirio'r Cyngor (Erthygl 5)
- Y Pwyllgorau Craffu (Erthygl 6)
- Y Weithrediaeth (Erthygl 7)
- Pwyllgorau rheoleiddio ac eraill (Erthygl 8)
- Y Pwyllgor Safonau (Erthygl 9)
- Trefniadau ar y cyd (Erthygl 10)
- Swyddogion (Erthygl 11)
- Gwneud penderfyniadau (Erthygl 12)
- Cyllid, cytundebau a materion cyfreithiol (Erthygl 13)
- Adolygu a diwygio'r Cyfansoddiad (Erthygl 14)
- Atal, dehongli a chyhoeddi'r Cyfansoddiad (Erthygl 15).

## Sut mae'r Cyngor yn gweithredu

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o gynghorwyr a etholir bob pedair blynedd. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae prif ddyletswydd cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai hynny na wnaeth bleidleisio drostynt.

Mae'n rhaid i gynghorwyr gytuno i ddilyn côd ymddygiad i sicrhau safonau uchel yn y modd y cyflawnant eu dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn eu hyfforddi a'u cynghori ynglŷn â'r côd ymddygiad.

Mae’r cynghorwyr i gyd yn cyfarfod fel Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer ar agor i’r cyhoedd. Yma mae cynghorwyr yn penderfynu ar bolisïau cyffredinol y Cyngor ac yn gosod y gyllideb bob blwyddyn.

**Sut y gwneir penderfyniadau**

Y Weithrediaeth yw'r rhan o'r Cyngor sydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a etholir gan y Cyngor Llawn a hyd at naw cynghorydd arall y bydd ef/hi yn eu penodi i'r Weithrediaeth. Nid oes rhaid i'r Weithrediaeth gael ei ddewis ar sail cydbwysedd gwleidyddol a gall gynnwys aelodau o un neu fwy o grwpiau gwleidyddol. Mae cyfarfodydd o'r Weithrediaeth, y Pwyllgorau Craffu y Cyngor a phwyllgorau eraill yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan drafodir materion cyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffiniwyd gan y gyfraith. Mae'n rhaid i'r Weithrediaeth wneud penderfyniadau sydd yn unol â pholisïau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Os dymuna wneud penderfyniadau sydd oddi allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid cyfeirio hwn at y Cyngor Llawn i'r benderfynu.

**Trosolwg a Chraffu**

Ceir tri o bwyllgorau trosolwg a chraffu sy'n cefnogi gwaith y Weithrediaeth a'r Cyngor yn gyffredinol. Maent yn caniatáu i ddinasyddion fod â mwy o lais mewn materion yn ymwneud â'r Cyngor drwy gynnal ymchwiliadau cyhoeddus i faterion o bryder lleol. Mae'r rhain yn arwain at adroddiadau ac argymhellion sy'n cynghori'r Weithrediaeth a'r Cyngor yn gyffredinol ynghylch ei bolisïau y gyllideb a chyflwyno gwasanaethau. Mae pwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd yn monitro penderfyniadau'r Weithrediaeth. Gallant alw penderfyniad i mewn a wnaed gan y Weithrediaeth ond nad yw eto wedi ei weithredu. Mae hyn yn eu galluogi i ystyried a yw'r penderfyniad yn briodol. Gallant argymell bod y Weithrediaeth yn ailystyried y penderfyniad. Gellir ymgynghori â hwy hefyd gan y Weithrediaeth neu'r Cyngor ynglŷn â phenderfyniadau sydd ar fin cael eu gwneud ac ynglŷn â datblygu polisi.

**Staff y Cyngor**

Mae gan y Cyngor bobl yn gweithio iddo (a elwir yn ‘swyddogion’) i roi cyngor, gweithredu penderfyniadau a rheoli’r modd y cyflwynir ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae gan rai swyddogion ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio ei adnoddau yn ddoeth. Mae côd ymarfer yn rheoli ymddygiad swyddogion a phrotocol yn rheoli'r berthynas rhwng swyddogion ac aelodau’r Cyngor.

**Hawliau Dinasyddion**

Mae gan ddinasyddion nifer o hawliau wrth ymdrin â’r Cyngor. Cyflwynir y rhain yn fanylach yn Erthygl 3. Mae rhai o’r rhain yn hawliau cyfreithiol, tra bo eraill yn dibynnu ar brosesau’r Cyngor ei hun. Gall y Ganolfan Cynghori leol roi cyngor ynglŷn â hawliau cyfreithiol unigolion.

Lle bo aelodau'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau penodol y Cyngor, er enghraifft, fel rhiant i ddisgybl mewn ysgol neu fel un o denantiaid y Cyngor, mae ganddynt hawliau ychwanegol. Ni chaiff y rhain eu trin yn y Cyfansoddiad hwn.

Mae gan ddinasyddion hawl i:

- bleidleisio mewn etholiadau lleol os ydynt wedi eu cofrestru;
- gysylltu â'u cynghorydd lleol ynghylch unrhyw faterion sydd yn eu pryderu;
- fynychu cyfarfodydd o'r Weithrediaeth, y Cyngor a'i bwyllgorau ac eithrio lle bo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod;
- ddeisebu i ofyn am refferendwm ar ffurf gweithrediaeth gyda maer;
- cyfranogi yn sesiwn holi ac ateb y Cyngor a chyfrannu at ymchwiliadau gan y pwyllgorau craffu;
- ddarganfod, oddi wrth y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol, pa fusnes sydd i gael ei ystyried gan y Weithrediaeth, y pwyllgorau trosolwg a chraffu neu'r Cyngor yn gyffredinol;
- weld adroddiadau a phapurau cefndir a ystyriwyd gan y Weithrediaeth, y Cyngor ac unrhyw rai o'i bwyllgorau a'r cofnod o unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor, ei bwyllgorau a'r Weithrediaeth, ac eithrio lle maent yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol;
- gwyno wrth y Cyngor ynglŷn â safon y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor, neu rywbeth a allai'r Cyngor neu aelod o'i weithlu fod wedi ei wneud neu heb ei wneud. Mae'r drefn wedi ei phennu gan Drefn Gwynion y Cyngor.
- gwyno wrth yr Ombwdsmon os credant eu bod wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd nad yw'r Cyngor wedi dilyn ei weithdrefnau'n briodol. Ond fe'u hanogir i beidio â gwneud hyn hyd nes y bônt wedi defnyddio proses cwynion y Cyngor ei hun yn gyntaf;
- gwyno wrth yr Ombwdsmon os oes ganddynt dystiolaeth y credant sy'n dangos nad yw cynghorydd neu aelod cyfetholedig o'r cyngor wedi dilyn Côd Ymddygiad yr Aelodau; ac
- archwilio cyfrifon y Cyngor a throsglwyddo eu barn i'r archwilydd allanol.

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad gan ei ddinasyddion yn ei waith. Os hoffech wybodaeth bellach am eich hawliau fel dinesydd, cysylltwch â'r Swyddog Monitro.

## RHAN 2 – YR ERTHYGLAU.

# Cynnwys


1. **Y Cyfansoddiad**
2. **Aelodau'r Cyngor**
3. **Dinasyddion a'r Cyngor**
4. **Y Cyngor Llawn**
5. **Cadeirio'r Cyngor**
6. **Pwyllgorau Craffu**
7. **Y Weithrediaeth**
8. **Pwyllgorau Rheoleiddio ac Eraill**
9. **Y Pwyllgor Safonau**
10. **Trefniadau ar y Cyd**
11. **Swyddogion**
12. **Gwneud Penderfyniadau**
13. **Cyllid Contractau a Materion Cyfreithiol**
14. **Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad**
15. **Atal, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad**

# Erthygl 1 – Y Cyfansoddiad

### 1.01 Pwerau'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn ymarfer ei holl bwerau a'i ddyletswyddau yn unol â'r gyfraith a'r Cyfansoddiad hwn.

### 1.02 Y Cyfansoddiad

Y Cyfansoddiad hwn, a'i holl atodiadau, yw Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd.

### 1.03 Pwrpas y Cyfansoddiad

Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

1. galluogi'r Cyngor i ddarparu arweiniad clir i'r gymuned mewn partneriaeth gyda dinasyddion, busnesau a chyrff eraill;

2. cefnogi cyfranogiad gweithredol dinasyddion yn y broses o lunio penderfyniadau awdurdodau lleol;

3. cynorthwyo cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;

4. ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau gael eu cymryd yn effeithlon ac yn effeithiol;

5. creu dull pwerus ac effeithiol o sicrhau bod y cyhoedd yn gallu dal y rhai sy'n llunio penderfyniadau i gyfrif;

6. sicrhau na fydd unrhyw un yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad y buont â chysylltiad uniongyrchol ag ef;

7. sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau yn hawdd eu hadnabod gan bobl leol a'u bod yn egluro'r rhesymau am benderfyniadau; a

8. darparu dull o wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau i'r gymuned.

### 1.04 Dehongli ac Adolygu'r Cyfansoddiad

Lle bo'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Cyngor ddewis rhwng gwahanol ddulliau o weithredu, bydd y Cyngor bob amser yn dewis yr un a dybia sydd agosaf at y pwrpasau a nodwyd uchod.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r modd y gweithredir y Cyfansoddiad fel y'i cyflwynir yn Erthygl 14.

# Erthygl 2 – Aelodau'r Cyngor

### 2.01 Cyfansoddiad a chymhwyster

(a) **Cyfansoddiad.** Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 aelod/cynghorydd ar hyn o bryd, a etholir gan etholwyr pob etholaeth yn unol â chynllun a luniwyd gan y Comisiwn Ffiniau yng Nghymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(b) **Cymhwyster.** Dim ond pleidleiswyr cofrestredig y cyngor sir neu'r rhai hynny sy'n byw yn neu yn gweithio yn yr ardal honno fydd yn gymwys i ddal swydd cynghorydd.

### 2.02 Etholiad a thymhorau cynghorwyr

Cynhelir etholiad rheolaidd cynghorwyr ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai bob pedair blynedd yn dechrau yn 2008. Bydd tymor mewn swydd cynghorwyr yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl cael eu hethol a bydd yn diweddu ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad rheolaidd canlynol.

### 2.03 Rolau a swyddogaethau pob cynghorydd

(a) **Swyddogaethau allweddol** Bydd pob cynghorydd yn gwneud y canlynol:

(i) llunio polisi terfynol ar y cyd a chyflawni nifer o swyddogaethau rheoli strategol a chorfforaethol;

(ii) cynrychioli eu hetholaethau ac etholwyr unigol yn effeithiol a dod â'u syniadau eu hunain i broses y Cyngor o lunio penderfyniadau, h.y. dod yn ddadleuwr er budd ac ar ran eu cymunedau;

(iii) ymdrin â gwaith achos unigol a gweithredu fel dadleuwr dros etholwyr wrth ddatrys pryderon neu gwynion arbennig;

(iv) cydbwyso'r gwahanol fuddiannau a nodwyd o fewn yr etholaeth a chynrychioli'r etholaeth yn gyffredinol;

(v) cyfrannu at wella'n barhaus ar wasanaethau'r Cyngor drwy'r broses Gwerth Gorau;

(vi) ymwneud â'r broses o lunio penderfyniadau;

(vii) bod ar gael i gynrychioli'r Cyngor ar gyrff eraill;

(viii) cyfrannu at lywodraethu'r sir yn dda a hyrwyddo cyfranogiad cymunedol a chyfranogiad dinasyddion yn y gwaith o lunio penderfyniadau gan y Cyngor a'i bartneriaethau;

(ix) ymateb i ymholiadau a sylwadau etholwyr, yn deg ac yn ddiduedd;

(x) cyfranogi yn y gwaith o lywodraethu a rheoli'r Cyngor; a

(xi) cynnal y safonau uchaf o ymddygiad a moeseg.

(b) **Hawliau a dyletswyddau**

(i) Bydd gan gynghorwyr pa hawliau mynediad bynnag at ddogfennau, gwybodaeth, tir ac adeiladau'r Cyngor ag sy'n angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac yn unol â'r gyfraith.

(ii) Ni fydd cynghorwyr yn gwneud gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig yn gyhoeddus heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol i unrhyw un heblaw am gynghorydd neu swyddog sydd â hawl i'w wybod.

(iii) I'r dibenion hyn, diffinnir gwybodaeth "gyfrinachol" ac "eithriedig" yn y Rheolau Gweithdrefn – Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

## 2.04 Ymddygiad

Bydd cynghorwyr yn rhoi sylw bob amser i Gôd Ymddygiad yr Aelodau a'r Codau Ymarfer a Phrotocolau a gyflwynir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

## 2.05 Cyflogau

Bydd gan gynghorwyr hawl i dderbyn cyflog yn unol â'r hyn a benni'r gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau ac yn unol â'r rhestr a gyflwynir yn Rhan 6 y Cyfansoddiad hwn.

# Erthygl 3 – Dinasyddion a’r Cyngor

### 3.01 Hawliau dinasyddion

Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol. Eglurir eu hawliau i wybodaeth ac i gyfranogi yn fanylach yn y Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn:

(a) **Pleidleisio a deisebau.** Mae gan ddinasyddion ar gofrestr etholiadol yr ardal hawl i bleidleisio ac arwyddo deiseb i ofyn am refferendwm am ffurf o gyfansoddiad gyda maer etholedig.

(b) **Gwybodaeth.** Mae gan ddinasyddion hawl i:

(i) fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Weithrediaeth a’i bwyllgorau ac eithrio lle mae gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn debygol o gael ei datgelu, a bod y cyfarfod felly yn cael ei gynnal yn breifat;

(ii) ddarganfod o'r flaen-raglen waith pa benderfyniadau a gymerir gan y Weithrediaeth neu'r Cyngor a pha faterion fydd y Pwyllgorau Craffu yn eu hystyried, a phryd bydd y materion hyn yn cael eu trafod.

(iii) weld adroddiadau a phapurau cefndir, ac unrhyw gofnodion o benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor a'r Weithrediaeth; ac

(iv) archwilio cyfrifon y Cyngor a mynegi eu barn i'r archwilydd allanol.

(c) **Cyfranogiad.** Mae gan ddinasyddion hawl i gyfranogi yn sesiynau holi ac ateb y Cyngor a chyfrannu at ymchwiliadau gan Bwyllgorau Craffu.

(ch) **Cwynion.** Mae gan ddinasyddion yr hawl i gwyno:

(i) wrth y Cyngor ei hun o dan ei gynllun cwynion;

(ii) wrth yr Ombwdsmon am unrhyw anghyfiawnder y maent wedi ei ddioddef o ganlyniad i gamweinyddu, ond fe'u hanogir i ddefnyddio cynllun cwynion y Cyngor ei hun yn gyntaf, ond ni chaniateir defnyddio'r cyfundrefnau yn (i) a (ii) yr un pryd.

(iii) wrth yr Ombwdsmon lle credant fod aelod neu aelod cyfetholedig gyda phleidlais o’r Cyngor wedi torri Côd Ymddygiad yr Aelodau.

### 3.02 Cyfrifoldebau dinasyddion

Rhaid i ddinasyddion beidio â bod yn dreisgar, ddifrïol nac yn fygythiol tuag at gynghorwyr na swyddogion a rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw ddifrod bwriadol i bethau sy’n eiddo i’r Cyngor, i gynghorwyr neu swyddogion.

# Erthygl 4 – Y Cyngor Llawn.

### 4.01 Ystyron

(a) **Fframwaith polisi.** Yr hyn a olygir wrth fframwaith polisi yw’r cynlluniau a’r strategaethau a gynhwysir o bryd i’w gilydd yn yr atodiad i’r erthygl hwn.

(b) **Cyllideb.** Mae’r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sail treth y cyngor, gosod treth y cyngor a phenderfyniadau yn ymwneud â rheoli gofyniad benthyg y Cyngor, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod ffiniau ar drosglwyddo arian.

(c) **Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai.** Mae Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (boed hynny mewn ffurf drafft ai peidio) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gymeradwyo rhaglen o waredu 500 neu fwy o dai i berson o dan Ddeddf Diwygio Prydles, Tai a Datblygiad Trefol 1993 neu i waredu tir a ddefnyddir i bwrpasau preswyl lle bo angen cymeradwyaeth o dan adrannau 32 neu 43 Deddf Tai 1985.

### 4.02 Swyddogaethau’r Cyngor.

Dim ond y Cyngor fydd yn ymarfer y swyddogaethau canlynol:

(a) mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;

(b) cymeradwyo neu fabwysiadu a diwygio’r fframwaith polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Throsglwyddo Tir ar gyfer Tai;

(c) benthyg arian;

(ch) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn; gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth weithredol yr ymdrinnir ag ef gan y fframwaith polisi neu’r gyllideb lle mae’r sawl sy'n llunio penderfyniadau o blaid ei wneud mewn dull a fyddai’n groes i’r fframwaith polisi neu yn groes i/neu heb fod yn gwbl unol â’r gyllideb;

(d) penodi Arweinydd y Cyngor;

(dd) cytuno â/neu ddiwygio’r amodau gorchwyl ar gyfer pwyllgorau, gan benderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(e) gwneud cytundebau asiantaeth gyda chynghorau eraill;

(f) pennu rhestr o uwch gyflogau

(ff) gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhanbarthau etholiadol;

(g) newid enw’r ardal neu roi teitl henadur anrhydeddus;

(ng) penodi prif weithredwr y Cyngor;

(h) gwneud, diwygio, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Fesurau personol;

(i) gweithredu'r holl swyddogaethau dewis lleol a ddisgrifir yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn y penderfyna'r Cyngor y dylid eu cyflawni ganddo ef ei hun yn hytrach na chan y weithrediaeth; a

(l) gweithredu pob mater arall y mae’n rhaid eu cadw o fewn cyfrifoldeb y Cyngor yn ôl y gyfraith.

**4.03 Cyfarfodydd y Cyngor.**

Ceir tri math o gyfarfod y Cyngor:

(a) y cyfarfod blynyddol;
(b) cyfarfodydd cyffredin;
(c) cyfarfodydd arbennig;

ac fe’u cynhelir yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

**4.04 Cyfrifoldeb am swyddogaethau.**

Bydd y Cyngor yn cynnal y tablau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn sy’n cyflwyno’r cyfrifoldebau am swyddogaethau’r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb y Weithrediaeth.

# ATODIAD

**Cynlluniau a Strategaethau sy'n cyfansoddi fframwaith polisi'r Cyngor.**

- Cynllun Strategol 3 blynedd
- Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau;
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc;
- Strategaeth Gymunedol;
- Strategaeth Cwtogi ar Drosedd ac Anhrefn
-
- Strategaeth Datblygu Economaidd;
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol;
- Cynlluniau ac addasiadau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Cynllun Datblygu;
- Y Cynllun Iaith Gymraeg
- Y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid;
- Strategaeth Tai a Chynllun Gweithrediadol;
- Pwerau i gymeradwyo Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc;
- Cytundebau polisi.
- Strategaeth Iechyd a Llês;
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

# Erthygl 5 – Cadeirio'r Cyngor

### 5.01 Rôl a swyddogaeth y Cadeirydd

Etholir y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn flynyddol gan y Cyngor. Bydd gan y cadeirydd, ac yn ei (h)absenoldeb yr is-gadeirydd, y rôl a'r cyfrifoldebau canlynol:

1. cynnal a hyrwyddo pwrpasau'r Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad lle bo hynny'n angenrheidiol;

2. llywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor fel y gall ei fusnes gael ei gyflawni'n effeithiol gan roi ystyriaeth i hawliau cynghorwyr a buddiannau'r gymuned;

3. sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion o bryder i'r gymuned leol a lle gall aelodau nad ydynt ar y Weithrediaeth ddal y Weithrediaeth a chadeiryddion pwyllgorau i gyfrif;

4. hyrwyddo cyfranogiad cyhoeddus yng ngweithgareddau'r Cyngor;

5. bod yn gydwybod i'r Cyngor; a

6. mynychu pa ddigwyddiadau dinesig a seremonïol bynnag y penderfyna'r Cyngor ac ef/hi sy'n briodol.

# Erthygl 6 – Pwyllgorau Craffu.

### 6.01 Amodau Gorchwyl.

(a) Bydd y Cyngor yn penodi pwyllgorau craffu a gyflwynir yng ngholofn llaw chwith y tabl isod i gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd gan Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion a gyflwynir yng ngholofn llaw dde'r un tabl.

| **Themâu** | **Testunau gwaith posib** |
|---|---|
| Corfforaethol | Strategaeth Corfforaethol<br>Partneriaethau<br>Ymgysylltu<br>Trawsnewid Busnes<br>Effeithlonrwydd Gwasanaethau<br>Gwasanaethau Yfory<br>Cytundeb Canlyniadau<br>Gweithlu<br>Gofal Cwsmer<br><br>Hawl galw i mewn materion Pwyllgor Archwilio. |
| Cymunedau | Adfywio ac Economi<br>Gwynedd Werdd<br>Amgylchedd<br>Rhwydwaith Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol<br>Grymuso Cymunedau<br>Gwastraff<br>Tai<br>Iaith<br>Lleihau ôl-troed Carbon<br>Cynllun Datblygu Unedol |
| Gwasanaethau | Pobl Hŷn<br>Oedolion<br>Teuluoedd<br>Plant a Phobl Ifanc<br>Addysg<br>Llwybr i gyflogaeth<br>Iechyd. |

(b) Bydd pob pwyllgor yn cynnys 18 o aelodau wedi eu penodi ar sail cydbwysedd gwleiddyddol.

(c) Bydd Cadeiryddion y pwyllgorau yn cael eu penodi yn unol â darpariaethau Rhan 6 – Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**6.02 Swyddogaeth gyffredinol.**

O fewn eu hamodau gorchwyl, bydd y pwyllgorau craffu yn :

(i) adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor;

(ii) rhoi adroddiadau a/neu argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Weithrediaeth, a/neu unrhyw gydbwyllgor neu bwyllgor ardal mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw sywddogaethau;

(iii) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion;

(iv) ymarfer yr hawl i alw i mewn er mwyn ail-ystyried penderfyniadau a wnaed ond nad ydynt eto wedi eu gweithredu gan y weithrediaeth.

**6.03 Swyddogaeth penodol.**

(a) **Datgblygu ac adolygu polisi**. Gall pwyllgorau craffu wneud y canlynol :

(i) cynorthwyo'r Cyngor a'r Weithrediaeth i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi drwy ddadansoddi manwl o faterion polisi;

(ii) gwneud ymchwil, ymgynghori â'r gymuned ac ymgynghori arall i ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;

(iii) ystyried a gweithredu mecanweithiau i annog a gwella cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o ddatblygu dewisiadau polisi;

(iv) holi aelodau'r Weithrediaeth a/neu bwyllgorau a phrif swyddogion am eu barn ar faterion ac argymhellion sy'n effeithio ar y sir; a

(v) cysylltu â chyrff allanol eraill sy'n gweithredu yn y sir, boed y rhai hynny yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu cynyddu drwy weithio ar y cyd.

(b) **Craffu**. Gall pwyllgorau craffu yn eu maes perthnasol:

(i) adolygu a chraffu ar y penderfyniadau a wnaed ac ar berfformiad y Weithrediaeth a/neu bwyllgorau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros amser;

(ii) adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau a perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig;

(iii) holi aelodau'r Weithrediaeth a/neu bwyllgorau a phrif swyddogion am eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'un ai yn gyffredinol o'i gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;

(iv) gwneud argymhellion i'r Weithrediaeth a/neu bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor yn deillio o ganlyniad i'r broses craffu.

(v) adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau oddi wrthynt drwy ofyn iddynt annerch y pwyllgor craffu a phobl leol i sôn am eu gweithgareddau a'u perfformiad; a

(vi) holi a chasglu tystiolaeth oddi wrth unrhyw berson arall (gyda'u caniatâd).

(c) **Cyllid**. Gall pwyllgorau craffu ymarfer cyfrifoldeb cyffredinol am y cyllid a sicrheir iddynt.

(ch) **Adroddiad blynyddol.** Rhaid i bwyllgorau craffu adrodd yn flynyddol i'r cyngor ynglŷn â sut y maent yn gweithio a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol.

(d) **Swyddogion.** Gall pwyllgorau craffu ymarfer cyfrifoldeb cyffredinol am raglen waith y swyddogion a gyflogir i gynnal eu gwaith.

**6.04 Trafodion pwyllgorau craffu.**

Bydd pwyllgorau craffu yn cynnal eu trafodion yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

# Erthygl 7 – Y Weithrediaeth (Y Cabinet).

### 7.01 Swyddogaeth.

Bydd y weithrediaeth yn cyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r awdurdod lleol, p'run ai drwy gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn.

### 7.02 Ffurf a Chyfansoddiad.

Bydd y weithrediaeth yn cynnwys arweinydd y weithrediaeth ynghyd ag o leiaf 2, ond dim mwy na 9 o gynghorwyr a benodwyd i'r weithrediaeth gan arweinydd y weithrediaeth.

### 7.03 Arweinydd.

Bydd yr arweinydd yn gynghorydd a etholwyd i swydd arweinydd gan y Cyngor. Bydd yr arweinydd yn dal y swydd tan :-

(a) y bydd ef/hi yn ymddiswyddo o'r swydd, neu.

(b) y bydd ef/hi yn cael ei (h)atal rhag bod yn gynghorydd o dan Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ef/hi ailgydio yn y swydd ar ddiwedd cyfnod yr ataliad), neu

(c) na bydd ef/hi bellach yn gynghorydd, neu

(ch) bod ef/hi yn cael symud o'i swydd drwy benderfyniad gan y Cyngor.

### 7.04 Aelodau gweithredol eraill.

Bydd aelodau eraill y weithrediaeth yn parhau yn eu swydd hyd nes :

(a) y bônt yn ymddiswyddo, neu,

(b) y bônt yn cael eu hatal rhag bod yn gynghorwyr o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gallant gael eu derbyn yn ôl i'r swydd ar ddiwedd cyfnod yr ataliad), neu

(c) na byddont bellach yn gynghorwyr; neu

(ch) y bônt yn cael eu symud o'u swydd gan yr arweinydd y bydd yn rhaid iddo/iddi roi rhybudd ysgrifenedig o unrhyw ddiswyddiad i'r swyddog priodol. Bydd y diswyddiad yn dod i rym ddau ddiwrnod gwaith ar ôl i'r rhybudd gael ei dderbyn gan y swyddog priodol.

Ni fydd y Weithredriaeth yn cynnwys Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Cyngor nac ychwaith unrhyw aelod o bwyllgor craffu.

**7.05 Trafodion y Weithrediaeth.**

Cynhelir trafodion y weithrediaeth yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Weithrediaeth a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

**7.06 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau.**

Bydd yr arweinydd yn gyfrifol am gadw rhestr yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn yn cyflwyno pa aelodau unigol o'r weithrediaeth, pwyllgorau'r weithrediaeth, swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n gyfrifol am ymarfer swyddogaethau gweithredol arbennig.

# Erthygl 8 – Pwyllgorau Rheoleiddio ac Eraill

**8.1** Bydd y Cyngor yn penodi'r pwyllgorau canlynol i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn ('Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'):

**8.2 Y Pwyllgor Archwilio**

(a) Bydd y pwyllgor yn cynnwys 18 aelod ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd ag un 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

(b) Ni all mwy nag un aelod o'r pwyllgor fod yn aelod o'r weithrediaeth, ac ni all Arweinydd y Cyngor fod yn aelod o'r pwyllgor.

(c) Etholir y Cadeirydd gan y pwyllgor a gall ef/hi fod yn aelod o'r awdurdod neu yn aelod lleyg, ond rhaid iddo/i beidio â bod yn aelod o grŵp gweithrediaeth*. Os nad oes unrhyw grwpiau gwrthblaid*, caiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth ond rhaid iddo/i beidio â bod yn aelod o'r weithrediaeth.

(ch) Caiff holl aelodau'r pwyllgor bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'n dod i ran y pwyllgor i'w benderfynu.

(d) Rhaid i'r pwyllgor gyfarfod unwaith ym mhob blwyddyn galendr, ond hefyd os yw'r Cyngor yn penderfynu y dylai gyfarfod, neu os yw traean o leiaf o aelodau'r pwyllgor yn hawlio cyfarfod drwy gyfrwng un neu ragor o hysbysiadau ysgrifenedig a roddir i'r Cadeirydd.

** fel y diffynir yr ymadroddion yn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011*

**8.3 Y Pwyllgor Cynllunio**

Bydd y pwyllgor yn cynnwys 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

Ni all unrhyw aelod o'r pwyllgor fod yn aelod o'r weithrediaeth.

**8.4 Y Pwyllgor Trwyddedu Canolog**

(a) Sefydlu y pwyllgor o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 i ymdrin â materion o dan y deddfau hynny yn unig.

(b) Bydd y pwyllgor yn cynnwys 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

(c) Gall y pwyllgor sefydlu is-bwyllgor(au) o dri aelod o'r pwyllgor.

(ch) Bydd mwyafrif aelodau'r pwyllgor yn aelodau o'r cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Weithrediaeth.

(d) Ni fydd Cadeirydd nac Is-gadeirydd y pwyllgor yn aelod o'r Weithrediaeth.

(dd) Yr un unigolion fydd aelod y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyhoeddus.

**8.5 Y Pwyllgor Trwyddedu [Cyffredinol]**

(a) Bydd y pwyllgor yn cynnwys 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

(b) Gall y pwyllgor sefydlu is-bwyllgor(au) o dri aelod o'r pwyllgor.

(c) Bydd mwyafrif aelodau'r pwyllgor yn aelodau o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth.

(ch) Ni fydd Cadeirydd nac Is-gadeirydd y pwyllgor yn aelod o'r Weithrediaeth.

(d) Yr un unigolion fydd aelodau'r pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog.

**8.6 Pwyllgor Apêlau Cyflogaeth**

Bydd y pwyllgor yn cynnwys 7 aelod o’r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

Bydd mwyafrif aelodau’r pwyllgor yn aelodau o’r Cyngor nad ydynt yn aelodau o’r weithrediaeth.

**8.7 Y Pwyllgor Pensiynau**

Bydd y pwyllgor yn cynnwys 7 aelod o’r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol ynghyd ag un aelod cyfetholedig yr un (gyda phleidlais) o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Conwy. Bydd mwyafrif aelodau’r pwyllgor yn aelodau o’r Cyngor nad ydynt yn aelodau o’r weithrediaeth.

## 8.8 Y Pwyllgor Iaith

Bydd y pwyllgor yn cynnwys 15 aelod o’r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

## 8.9 Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Bydd y pwyllgor yn cynnwys 15 aelod o’r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.
Ni all mwy nag un aelod o’r pwyllgor fod yn aelod o’r weithrediaeth, ac ni all Arweinydd y Cyngor fod yn aelod o’r pwyllgor.

Y Cyngor fydd yn penodi Cadeirydd y pwyllgor ac ni all ef/hi fod yn aelod o ‘grŵp gweithrediaeth’ (fel y diffinnir yr ymadrodd yn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011).
Os nad oes unrhyw ‘grwpiau gwrthblaid’ (fel y diffinnir yr ymadrodd yn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) , caiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth ond rhaid iddo/i beidio â bod yn aelod o’r Weithrediaeth.

Rhaid i’r pwyllgor gyfarfod unwaith ym mhob blwyddyn galendr ond hefyd os yw’r Cyngor yn penderfynu y dylai gyfarfod, neu os yw traean o leiaf o aelodau’r pwyllgor yn hawlio cyfarfod drwy gyfrwng un neu ragor o hysbysiadau ysgrifenedig a roddir i’r Cadeirydd.

Ni chaiff y pwyllgor arfer unrhyw swyddogaethau ac eithrio'r swyddogaethau a roddir iddo gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

## 8.10 Pwyllgorau Ymgynghorol.

(a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi

(b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw.

(c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog.

(ch) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli.

# Erthygl 9 – Y Pwyllgor Safonau

## 9.01 Pwyllgor Safonau

Bydd y Cyngor yn sefydlu pwyllgor safonau. Disgrifir ei drefniadaethau yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

## 9.02 Cyfansoddiad

(a) **Aelodaeth.** Bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys naw o aelodau. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys:

(i) pum aelod 'annibynnol', nad ydynt naill ai yn gynghorydd nac yn swyddog nac yn ŵr neu wraig i gynghorydd na swyddog o'r Cyngor hwn nac unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y'i diffinnir gan y Ddeddf, a benodwyd yn unol â'r drefn a gynhwysir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Dylai'r aelodau hyn fod yn uchel eu parch yn y gymdeithas ac yn anwleidyddol;

(ii) tri cynghorydd ac eithrio aelodau o'r Cabinet;

(iii) un aelod o gyngor cymuned sydd yn gyfan gwbl neu yn bennaf yn ardal y Cyngor ('aelod pwyllgor cymunedol'). Dylai'r cyfryw aelod gynrychioli buddiannau cynghorau cymuned yn ardal y Cyngor a bydd yn uchel ei b/pharch yn y gymuned ac yn anwleidyddol.

(b) **Tymor mewn swydd**

(i) Bydd cyfnod mewn swydd aelod annibynnol yn ddim llai na phedair blynedd a dim hwy na chwe mlynedd. Bydd y cyfnod yn cael ei bennu fel nad yw tymor pob aelod annibynnol yn gorffen ar yr un pryd. Caniateir i aelod annibynnol gael ei ail benodi am un tymor olynol arall. Ni fydd y tymor olynol yn hwy na phedair blynedd.

(ii) Ni fydd tymor swydd aelodau'r awdurdod lleol sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn hwy na phedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad, p'n bynnag fo'r byrraf. Gellir eu hailbenodi am un tymor olynol pellach. Bydd aelod etholedig yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau os yw'n peidio â bod yn aelod o'r Cyngor.

(iii) Ni fydd tymor swydd aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n aelod pwyllgor cymunedol yn hwy na phedair blynedd neu y cyfnod hyd at yr etholiadau cyffredin ar gyfer y cyngor cymuned y mae'r aelod pwyllgor cymunedol yn aelod ohono, yn dilyn ei benodiad, pa gyfnod bynnag fo'r byrraf. Caniateir i aelod pwyllgor cymunedol gael ei ailbenodi am un tymor olynol arall. Bydd aelod pwyllgor cymunedol yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau os yw'n peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn Gwynedd.

(iv) Bydd cyfnod mewn swydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Safonau sy'n cychwyn neu gorffen trwy gyfeiriad at etholiadau llywodraeth leol cyffredin mewn unrhyw flwyddyn yn cychwyn neu'n gorffen ar y pedwerydd diwrnod yn dilyn yr etholiadau rheini.

(c) **Cworwm**

(i) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drin mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu o'r Is-bwyllgor Cymunedol.

(a) onid oes tri aelod o leiaf yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd; a
(b) onid yw o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

(ii) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drin mewn cyfarfod o is-bwyllgor a sefydlir o dan baragraff (f)(ii) isod (is-bwyllgor adran 54A) –

(a) onid oes dau aelod o leiaf yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd, ac
(b) onid yw o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

(Yng nghyd-destun y paragraff hwn mae ‘cadeirydd’ yn cynnwys yr Is-gadeirydd os yw’n cadeirio’r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd neu unrhyw aelod annibynnol sy’n cadeirio’r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd.

(ch) **Pleidleisio.**

(i) Dylai cwestiwn i’w bennu gan y Pwyllgor Safonau ei bennu trwy fwyafrif o bleidleisiau a fwrir gan yr aelodau sy’n bresennol. Yn achos yr un nifer o bleidleisiau, bydd gan y cadeirydd ail bleidlais fwrw.

(ii) Bydd gan aelodau annibynnol a'r aelod pwyllgor cymunedol hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

(d) **Aelod pwyllgor cymunedol.**

Ni fydd aelod pwyllgor cymunedol yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â’i gyngor cymuned ef/hi yn cael ei drafod;

(dd) **Cadeirio’r Pwyllgor.**

(i) Dim ond aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau a all fod yn gadeirydd ac is-gadeirydd.

(ii) Etholir y cadeirydd a'r is-gadeirydd gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol (a) dim llai na 4 blynedd neu ddim mwy na 6 blynedd, neu (b) hyd nes bo tymor mewn swydd yr aelod annibynnol yn dirwyn i ben. Gellir ethol fel cadeirydd neu is-gadeirydd aelod annibynnol sydd wedi'i ailbenodi'n aelod o'r fath ac oedd wedi'i ethol yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd y Pwyllgor yn ystod ei dymor swydd cyntaf.

(iii) Os bydd yn bresennol dylai'r cadeirydd gadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau. Os yw'r cadeirydd yn absennol, dylai'r is-gadeirydd gadeirio. Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn absennol, dylai aelod annibynnol arall, a benodir gan yr aelodau o'r Pwyllgor Safonau sy'n bresennol, gadeirio.

(iv) Gall y cadeirydd neu'r is-gadeirydd ar unrhyw adeg ymddiswyddo o'i swydd trwy rybudd ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r Cyngor.

(vi) Pan fydd lle gwag yn swydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn cael ei lenwi, rhaid i'r person a benodir felly ddal ei swydd am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol –

- tan y dyddiad y byddai cyfnod swydd y person y mae'r person hwnnw wedi'i ethol yn ei le wedi dod i ben, neu
- tan y bydd cyfnod swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben.

(e) **Cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau.**

(i) Dylai'r Pwyllgor Safonau gynnal o leiaf un cyfarfod ym mhob blwyddyn galendr.

(ii) Dylai'r Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd fynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ac ni ddylid trafod unrhyw fater yn absenoldeb y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd.

(f) **Is-bwyllgorau.**

(i) Gall y Pwyllgor Safonau sefydlu 'Is-bwyllgor Cymunedol' i ymarfer swyddogaethau'r Pwyllgor a gyflwynir yn Erthygl 9.03 (ff) isod (h.y. swyddogaethau sy'n ymwneud â chynghorau cymuned). Bydd yr Is-bwyllgor Cymunedol yn cynnwys o leiaf un aelod annibynnol ac un aelod pwyllgor cymunedol.

(ii) Gall y Pwyllgor Safonau sefydlu un neu fwy o is-bwyllgorau ('is-bwyllgorau adran 54A')i ymarfer unrhyw un o swyddogaethau'r Pwyllgor ac eithrio swyddogaethau'r Is-bwyllgor Cymunedol.

(ff) **Cyffredinol.**

(i) Oni myn yr amgylchiadau fel arall rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor Safonau gan reolau gweithdrefn y Cyngor.

(ii) Ni ddylai cwynydd na chynghorydd sy'n destun cwyn ganfasio mewn unrhyw ffordd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Safonau.

(iii) Bydd yn ddyletswydd ar unrhyw aelod o'r Pwyllgor Safonau gaiff ei g/chanfasio gan gwynydd neu gynghorydd sy'n destun cwyn i adrodd am y mater rhag blaen i'r Swyddog Monitro.

(iv) Os gwneir cwyn gan aelod o'r Pwyllgor Safonau, neu rywun sy'n gysylltiedig â'r cyfryw aelod, ni ddylai'r aelod hwnnw gymryd rhan fel aelod o'r Pwyllgor Safonau pan ystyrir y gŵyn.

(v) Bydd aelodau annibynnol yn cael y treuliau a'r lwfansau a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor.

**9.03 Rôl a swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

(a) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr;

(b) cynorthwyo'r cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr i gadw Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(c) cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(ch) monitro gweithredu Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(d) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni llywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Aelodau.

(dd) rhoi gollyngiadau i gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â buddiannau a gyflwynwyd yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau;

(e) ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y swyddog monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(f) awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau a threuliau i bersonau a'i cynorthwyodd gydag ymchwiliad;

(ff) ymarfer (a) i (f) uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned sy'n gyfan gwbl neu gan fwyaf yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

## Erthygl 10 – Trefniadau ar y Cyd

### 10.01 Trefniadau i hyrwyddo llês

Gall y Cyngor, er mwyn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal:

(a) lunio trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw un neu unrhyw gorff;

(b) gydweithredu gyda, neu hwyluso neu gydlynu gweithgareddau unrhyw berson neu unrhyw gorff; ac

(c) ymarfer ar ran y person neu'r corff hwnnw unrhyw rai o swyddogaethau'r person neu'r corff hwnnw.

### 10.02 Trefniadau ar y cyd

(a) Gall y Cyngor sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol a/neu eu gweithrediaethau i ymarfer swyddogaethau mewn unrhyw rai o'r awdurdodau cyfranogol, neu gynghori'r Cyngor. Gall trefniadau o'r fath olygu penodi pwyllgor ar y cyd gyda'r awdurdodau lleol eraill hyn.

(b) Gall y weithrediaeth sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol i ymarfer swyddogaethau sy'n swyddogaethau gweithredol. Gall trefniadau o'r fath ymwneud â phenodi pwyllgorau ar y cyd gyda'r awdurdodau eraill hyn.

(c) Ac eithrio fel y cyflwynwyd isod, ni all y Weithrediaeth ond penodi aelodau gweithredol i bwyllgor ar y cyd ac nid oes raid i'r aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol yr awdurdod lleol yn gyffredinol.

(ch) Gall y weithrediaeth benodi aelodau i bwyllgor ar y cyd o'r tu allan i'r weithrediaeth lle bo gan y pwyllgor ar y cyd swyddogaethau am ran o ardal yr awdurdod yn unig, a bod yr ardal honno yn llai na dwy ran o bump o'r awdurdod yn ôl arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o'r fath, gall y weithrediaeth benodi i'r pwyllgor ar y cyd, unrhyw gynghorydd sy'n aelod dros etholaeth a gynhwysir yn gyfan gwbl neu yn rhannol o fewn yr ardal. Nid yw'r gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

(d) Canfyddir manylion am unrhyw drefniadau ar y cyd gan gynnwys unrhyw ddirprwyaethau i bwyllgorau ar y cyd yng Nghynllun Dirprwyo'r Cyngor i Bwyllgorau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

### 10.03 Mynediad at wybodaeth

(a) Mae'r Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn yn berthnasol.

(b) Os yw holl aelodau pwyllgor ar y cyd yn aelodau o'r weithrediaeth ym mhob un o'r awdurdodau cyfranogol yna mae ei drefn mynediad at wybodaeth yr un fath â'r hyn a gymhwysir at y weithrediaeth.

(b) Os yw'r pwyllgor ar y cyd yn cynnwys aelodau nad ydynt ar weithrediaeth unrhyw awdurdod cyfranogol yna bydd y rheolau mynediad at wybodaeth yn Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn berthnasol.

**10.04 Dirprwyo i ac o awdurdodau lleol eraill**

(a) Gall y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau i awdurdod lleol arall neu, mewn rhai amgylchiadau, i weithrediaeth awdurdod lleol arall.

(b) Gall y weithrediaeth ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i awdurdod lleol arall neu i weithrediaeth awdurdod lleol arall mewn rhai amgylchiadau.

(c) Bydd y penderfyniad p'un ai i dderbyn dirprwyaeth o'r fath o awdurdod lleol arall yn cael ei gyfyngu i gyfarfod y Cyngor.

**10.05 Contractio swyddogaethau**

Gall y Cyngor gontractio allan i gorff arall swyddogaethau y gellir eu hymarfer gan swyddog ac sy'n ddarostyngedig i orchymyn o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, neu o dan drefniadau contractio lle bo'r contractwr yn gweithredu fel asiant y Cyngor o dan egwyddorion contractio arferol, cyn belled ag nad oes unrhyw ddirprwyo ar wneud penderfyniadau dewisol y Cyngor.

**10.06 Cyd-bwyllgorau.**

Sefydlir y canlynol i weithredu yn unol a'u cyfansoddiadau eu hunain.-

(a) Cyd-bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig.

(b) Cyd-bwyllgor Rheoli Traeth Lafan.

(c) TAITH.

(ch) TraCC.

# Erthygl 11 – Swyddogion

### 11.01 Strwythur rheoli

(a) **Cyffredinol.** Gall y Cyngor a'r Weithrediaeth gyflogi pa staff bynnag (y cyfeirir atynt fel swyddogion) yr ystyria'n angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau.

(b) **Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol.** Bydd y Cyngor yn cyflogi pobl ar gyfer y swyddi canlynol :

Prif Weithredwr a thair swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol (ac fe ddynodir un ohonynt yn Gyfarwyddwr Arweiniol Plant dan Ddeddf Plant 2004).

(c) **Pennaeth y gwasanaeth taledig, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Ariannol a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd.** Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel y dangoswyd:

| Swydd | Dynodiad |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Pennaeth y Gwasanaeth Taledig |
| Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Swyddog Monitro |
| Pennaeth Cyllid | Prif Swyddog Cyllid |
| I'w bennu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | Penneth Gwasanaethau Democrataidd |

Bydd swyddogaethau swyddi o'r fath fel y'u disgrifir yn Erthygl 11.02 – 11.04 isod.

(d) **Strwythur.** Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Taledig yn penderfynu ar ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddisgrifiad o strwythur adrannol cyffredinol y Cyngor sy'n dangos y strwythur rheoli a sut y defnyddir swyddogion. Cyflwynir hyn fel Rhan 7 y Cyfansoddiad hwn.

### 11.02 Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaeth Taledig

(a) **Cyflawni swyddogaethau gan y Cyngor.** Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Taledig yn adrodd i'r Cyngor ynglŷn â'r dull y mae cyflawni swyddogaethau'r Cyngor i gael ei gydlynu, nifer a graddfa'r swyddogion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni swyddogaethau a threfnu swyddogion.

(b) **Cyfyngiadau ar swyddogaethau.** Ni all Pennaeth y Gwasanaeth Taledig fod yn Swyddog Monitro neu y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd, ond gall ddal swydd y prif swyddog cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

**11.03 Swyddogaethau'r Swyddog Monitro**

(a) **Cynnal y Cyfansoddiad.** Bydd y Swyddog Monitro yn cadw fersiwn wedi ei diweddaru o'r Cyfansoddiad ac yn sicrhau ei bod ar gael yn eang i ymgynghori yn ei chylch gan aelodau, staff a'r cyhoedd.

(b) **Sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn gyfreithlon ac yn deg.** Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Taledig a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro yn adrodd i'r Cyngor llawn os yw ef neu hi yn ystyried y byddai unrhyw argymhelliad, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at sefyllfa anghyfreithlon, neu os oes unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Effaith adroddiad o'r fath fydd atal yr argymhelliad neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bo'r adroddiad wedi ei ystyried.

(c) **Cefnogi'r Pwyllgor Safonau.** Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad drwy ddarparu cefnogaeth i'r Pwyllgor Safonau.

(ch) **Derbyn adroddiadau.** Bydd y Swyddog Monitro yn derbyn ac yn gweithredu ar adroddiadau a roddwyd gan yr Ombwdsmon a phenderfyniadau tribiwnlysoedd achos.

(d) **Cynnal ymchwiliadau.** Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion a gyfeirir gan yr Ombwdsmon ac yn gwneud adroddiadau neu argymhellion mewn perthynas â hwy i'r Pwyllgor Safonau.

(dd) **Swyddog priodol ar gyfer mynediad at wybodaeth.** Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau ynghyd â'r rhesymau am y penderfyniadau hynny ac adroddiadau gan swyddogion perthnasol a phapurau cefndir ar gael yn gyhoeddus mor fuan â phosibl.

(e) **Cynghori ynglŷn ag a yw penderfyniadau o fewn y gyllideb a'r fframwaith polisi**. Bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu a yw penderfyniadau yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi.

(f) **Rhoi cyngor.** Bydd y Swyddog Monitro yn rhoi cyngor ynghylch cwmpas y pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, afreoleidd-dra ariannol, gonestrwydd a materion yn ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i'r cynghorwyr i gyd a bydd yn cefnogi ac yn cynghori cynghorwyr a swyddogion yn eu gwahanol swyddogaethau.

(ff) **Cyfyngiadau ar swyddi.** Ni all y Swyddog Monitro fod yn Brif Swyddog Cyllid yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd, nac yn Bennaeth y gwasanaeth taledig.

**11.04 Swyddogaethau'r Prif Swyddog Cyllid.**

(a) **Adrodd a chynghori ar gyfreithlondeb a doethineb ariannol y penderfyniadau a wneir sydd â rhwymedigaethau ariannol.** Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Taledig a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor ac archwilydd allanol y Cyngor os ystyria ef neu hi y bydd unrhyw argymhelliad, penderfyniad neu ddull o weithredu yn golygu gwariant anghyfreithlon, neu ei fod yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

(b) **Gweinyddu materion ariannol.** Bydd gan y Prif Swyddog Cyllid gyfrifoldeb am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol.

(c) **Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn arbennig drwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

(ch) **Rhoi cyngor.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor ynglŷn â chwmpas pwerau ac awdurdod i wneud penderfyniadau ariannol, camweinyddiaeth ariannol, afreoleidd-dra ariannol, gonestrwydd a materion yn ymwneud â'r gyllideb i'r cynghorwyr i gyd a bydd yn cefnogi ac yn cynghori cynghorwyr a swyddogion yn eu gwahanol swyddogaethau.

(d) **Rhoi gwybodaeth ariannol.** Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a'r gymuned.

(dd) **Cyfyngiadau ar swyddi.** Ni all y Prif Swyddog Cyllid fod yn Swyddog Monitro na Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**11.05 Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.**

(a) Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gweithredu'r swyddogaethau hynny sy'n ofynnol o dan Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sef:

*"1 (a) rhoi cymorth a chyngor i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd, yn ddarostyngedig i Is-adran (2);*

*(b) rhoi cymorth a chyngor i bwyllgorau'r awdurdod (ac eithrio'r pwyllgorau a grybwyllir ym mharagraff (e)) ac i aelodau o'r pwyllgorau hynny, yn ddarostyngedig i Is-adran (2);*

*(c) rhoi cymorth a chyngor i unrhyw gydbwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw, yn ddarostyngedig i Is-adran (2);*

*(ch) hybu rôl pwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod;*

*(d) rhoi cymorth a chyngor :*

*(i) i bwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw neu'r pwyllgorau hynny, a*

*(ii) i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw.*

*(dd) rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod i bob un o'r canlynol :*

*(i) aelodau o'r awdurdod;*

*(ii) aelodau gweithrediaeth o'r awdurdod;*

*(iii) swyddogion yr awdurdod.*

*(e) rhoi cymorth a chyngor i bob aelod o'r awdurdod wrth iddo gyflawni rôl aelod o'r awdurdod, yn ddarostyngedig i isadran (3);*

*(f) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol:*

*(i) nifer y staff y mae eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a'u graddau;*

*(ii) penodi staff i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;*

*(iii) trefnu a rheoli'n briodol staff sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;*

*(iv) unrhyw swyddogaethau eraill a ragnodir.*

*2. Nid yw cyfeiriadau at "gyngor" ym mharagraffau (a) i (c) yn cynnwys cyngor ynghylch a ddylai neu sut y dylai swyddogaethau'r awdurdod gael eu harfer, neu fod wedi eu harfer.*

*3. Nid yw'r mathau canlynol o gymorth a chyngor i'w hystyried yn gymorth a chyngor at ddibenion Is-adran (1)(g) :*

*(a) Cymorth a chyngor i aelod o'r awdurdod wrth i'r aelod hwnnw gyflawni ei swyddogaethau fel rhan o weithrediaeth yr awdurdod (ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer o dan isadran (1)(f));*

*(b) Cyngor ynghylch a ddylai neu sut y dylai swyddogaethau'r awdurdod gael eu harfer, neu fod wedi eu harfer, mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n cael ei ystyried, neu sydd i'w ystyried, mewn un o gyfarfodydd yr awdurdod, un o gyfarfodydd pwyllgor y cyfeiriwyd ato yn isadran (1)(b) neu un o gyfarfodydd cydbwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu.*

*4. Nid oes dim yn isadran (1)(h) sy'n effeithio ar ddyletswydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.*

*5. Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at bwyllgor (neu gydbwyllgor) yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw."*

6. **Cyfyngiadau Swyddi**. Ni all y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yn Swyddog Monitro, yn Brif Swyddog Cyllid nac yn Bennaeth Gwasanaeth taledig.

**11.06 Dyletswydd i ddarparu adnoddau digonol i'r Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.**

(a) Bydd y Cyngor yn rhoi pa bynnag swyddogion, lle ac adnoddau eraill i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid ag sydd yn eu barn hwy yn ddigonol i ganiatáu i'w dyletswyddau gael eu cyflawni.

(b) Rhaid i'r Cyngor ddarparu i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y staff, y llety a'r adnoddau eraill sydd, ym marn y Cyngor, yn ddigon i ganiatáu swyddogaethau'r Swyddog hwnnw gael eu cyflawni.

**11.07 Ymddygiad**

Bydd y swyddogion yn cydymffurfio â Chôd Ymddygiad y Swyddogion, a'r Protocol ynghylch cysylltiadau rhwng Swyddogion ac Aelodau fel y cyflwynir hwy yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

**11.08 Cyflogaeth**

Bydd recriwtio, dewis a diswyddo swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogaeth Swyddogion a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

# Erthygl 12 – Gwneud Penderfyniadau

## 12.01 Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn cadw'n gyfredol gofnod o ba ran o'r Cyngor neu'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb am wahanol fathau o benderfyniadau neu benderfyniadau yn ymwneud â meysydd neu swyddogaethau arbennig. Cyflwynir y cofnod hwn yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

## 12.02 Egwyddorion gwneud penderfyniadau

Gwneir holl benderfyniadau'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(a) cyfranoldeb (h.y. rhaid i'r weithred fod yn gymesur â'r canlyniad a ddymunir);
(b) ymgynghori priodol a derbyn cyngor proffesiynol oddi wrth swyddogion;
(c) parch i hawliau dynol (gweler isod am fanylion pellach);
(ch) rhagdybiaeth o blaid bod yn agored;
(d) eglurder amcanion a chanlyniadau dymunol;
(dd) rhoddi rhesymau dros y penderfyniad; ac
(e) hawliau dynol a chyfleoedd cyfartal.

## 12.03 Penderfyniadau a gedwir i'r Cyngor

Gwneir penderfyniadau yn ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.02 gan y Cyngor ac ni fyddant yn cael eu dirprwyo.

## 12.04 Gwneud penderfyniadau gan y Cyngor

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.08, bydd cyfarfod y Cyngor yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

## 12.05

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.08 bydd y Weithrediaeth yn dilyn Rheolau Gweithdrefnau'r Weithrediaeth a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

## 12.06 Gwneud penderfyniadau gan bwyllgorau craffu

Bydd pwyllgorau craffu yn dilyn y Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater
.

**12.07 Gwneud penderfyniadau gan y pwyllgorau eraill ac is-bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor**

Yn ddarostyngedig i Erthygl 12.08, bydd y pwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn y rhannau hynny o Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn fel ag y maent yn berthnasol iddynt hwy.

**12.08 Gwneud penderfyniadau gan gyrff y Cyngor sy'n gweithredu fel tribiwnlysoedd.**

Bydd y Cyngor, y cynghorydd neu swyddog sy'n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn dull lled-farnwrol neu sy'n penderfynu/ystyried (ac eithrio i bwrpas rhoi cyngor) hawliau dinesig a rhwymedigaethau neu gyfrifoldeb troseddol unrhyw berson yn dilyn gweithdrefn briodol sy'n cyd-fynd â gofynion cyfiawnder naturiol a'r hawl i brawf teg a gynhwysir yn Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

# Erthygl 13 – Cyllid Contractau a Materion Cyfreithiol.

### 13.01 Rheolaeth ariannol

Cyflawnir rheolaeth ar faterion ariannol y Cyngor yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

### 13.02 Contractau

Bydd pob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau a gyflwynwyd yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

### 13.03 Achosion cyfreithiol

Awdurdodir y Swyddog Monitro:-

I gyflwyno rhybuddion statudol er canfod buddiant cyfreithiol unrhyw berson mewn tir ac i awdurdodi prif swyddogion eraill i weithredu yn yr un modd yn eu priod feysydd gwaith.

I gychwyn, amddiffyn neu setlo achosion cyfreithiol (boed yn enw'r Cyngor neu yn enw swyddog penodol o'r Cyngor) dan y gyfraith gyffredin neu dan unrhyw ddeddfwriaeth, is-ddeddfwriaeth, orchymyn neu is-ddeddf a rydd swyddogaethau i'r Cyngor neu ynglŷn â swyddogaethau a ymgymerir ganddo ac i wneud apêl yn erbyn unrhyw ddyfarniad cyfreithiol. Er osgoi unrhyw amheuaeth mae'r awdurdod hwn yn cynnwys cymryd pob cam trefniadaethol gan gynnwys cyflwyno rhybuddion, statudol neu fel arall, gwrth-rybuddion a rhybuddion i ymadael.

I awdurdodi swyddogion y Cyngor i weithredu yn yr un modd ag yntau/hithau ac i erlyn neu amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol yn rhinwedd darpariaethau adran 223, Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall a fo mewn grym o bryd i'w gilydd. Rhaid i'r Swyddog Monitro gadw rhestr o bob awdurdod a roddir ganddo/i wrth weithredu y pwerau dan yr is-baragraff hwn.

### 13.04 Dilysu dogfennau

Yn ogystal ag unrhyw berson arall a awdurdodwyd trwy benderfyniad y Cyngor i'r diben hwn, y swyddog priodol i ddibenion adran 234 Deddf 1972 (dilysu dogfennau) fydd y Swyddog Monitro neu unrhyw swyddog a awdurdodir mewn ysgrifen ganddo/i.

### 13.05 Sêl Gyffredin y Cyngor

(1) Rhaid cadw Sêl Gyffredin y Cyngor mewn lle diogel dan ofal y swyddog priodol.

(2) Ni chaniateir gosod Sêl Gyffredin y Cyngor ar ddogfen ond gydag awdurdod:-

- (a) penderfyniad o eiddo'r Cyngor;
- (b) penderfyniad y pwyllgor neu is-bwyllgor a gafodd yr hawl gan y Cyngor i awdurdodi defnyddio'r Sêl;
- (c) penderfyniad o eiddo'r Weithrediaeth.

(ch) penderfyniad gan y Cyngor, neu gan y pwyllgor, is-bwyllgor, y Weithrediaeth aelod unigol neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol i wneud unrhyw beth lle bo angen dogfen dan y Sêl Gyffredin i gwblhau’r gwaith.

(3) Pan osodir y Sêl Gyffredin rhaid i'r swyddog priodol neu ddirprwy a awdurdodwyd mewn ysgrifen gan y swyddog priodol dystio i hyn. Rhaid cofnodi pob tro y selir dogfen a'u rhifo y naill ar ol y llall mewn llyfr a gedwir i'r diben hwn a rhaid i'r sawl fydd wedi tystio i'r selio ei lofnodi.

# Erthygl 14 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad.

## Erthygl 14 – Adolygu a Diwygio’r Cyfansoddiad

### 14.01 Dyletswydd i fonitro ac adolygu’r cyfansoddiad

Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu gweithredu’r Cyfansoddiad i sicrhau y gweithredir amcanion ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn llawn.

**Protocol gogyfer â monitro ac adolygu’r Cyfansoddiad gan y Swyddog Monitro**

Un o swyddogaethau allweddol y Swyddog Monitro yw bod yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau’r Cyfansoddiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor, a gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd y gellid ei ddiwygio er mwyn cyflawni’r pwrpasau a gyflwynwyd yn Erthygl 1 yn well. Wrth ymgymryd â’r dasg hon gall y Swyddog Monitro:

1. arsylwi cyfarfodydd gwahanol rannau’r strwythur aelodau a swyddogion;

2. ymgymryd â llwybr archwilio ar sampl o benderfyniadau;

3. gofnodi a dadansoddi materion a godwyd gydag ef/hi gan aelodau, swyddogion, y cyhoedd a chyfranddeiliaid perthnasol eraill; a

4. gymharu arferion yn y Cyngor hwn gyda’r rhai hynny mewn awdurdodau cymharol eraill, neu enghreifftiau cenedlaethol o arfer da.

### 14.02 Newidiadau i’r Cyfansoddiad

(a) **Cymeradwyaeth.** Ni chymeradwyir newidiadau o sylwedd i’r cyfansoddiad gan y Cyngor hyd nes bo’r argymhelliad wedi ei ystyried gan y Swyddog Monitro.

**(b) Mabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth neu amrywio'r ffurf bresenol am weithrediaeth.** Rhaid i'r cyngor ddilyn y camau hynny a gyflwynir yn Rhan 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

# Erthygl 15 – Atal, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad.

### 15.01 Atal y Cyfansoddiad

(a) **Cyfyngiad ar ataliad.** Ni ellir atal Erthyglau'r cyfansoddiad hwn. Gall Rheolau Gweithdrefn a nodir isod gael eu hatal gan y Cyngor i'r graddau a ganiateir o fewn y Rheolau hynny a'r gyfraith.

(b) **Gweithdrefn i atal. .** Ni chynigir cynnig i atal unrhyw reolau heb rybudd oni bai fod o leiaf hanner cyfanswm y cynghorwyr yn bresennol. Bydd maint a hyd yr ataliad yn gymesur i'r canlyniad sydd i'w sicrhau, gan roi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad a gyflwynwyd yn Erthygl 1.

(c) **Rheolau y gellir eu hatal.** Gellir atal y rheolau gweithdrefn canlynol yn unol ag Erthygl 15.01: Pob Rheol ac eithrio: 11, 22(7) a 23(2).

### 15.02 Dehongliad.

Ni fydd rheoliad y sawl a fo'n llywyddu yng nghyfarfodydd y Cyngor, y Weithrediaeth, ac unrhyw bwyllgorau ac is-bwyllgorau ynghylch dehongliad neu gymhwysiad y Cyfansoddiad hwn neu ynglŷn ag unrhyw rai o drafodion y Cyngor, y Weithrediaeth, pwyllgorau, neu is-bwyllgorau, yn cael ei herio mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor, y Weithrediaeth, pwyllgorau neu is-bwyllgorau. Bydd dehongliad o'r fath yn rhoi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad hwn a gynhwysir yn Erthygl 1.

### 15.03 Cyhoeddiad.

(a) Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod copi electroneg o'r Cyfansoddiad hwn ar gael i bob aelod o'r awdurdod ar ôl iddo ef/hi dderbyn datganiad ynghylch derbyn y swydd gan yr unigolyn hwnnw pan gaiff yr aelod ei ethol am y tro cyntaf i'r Cyngor.

(b) Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod copi ar gael ar wefan y Cyngor i'w archwilio ac y gellir prynu copi gan aelodau'r wasg leol a'r cyhoedd ar ôl talu ffi rhesymol.

## RHAN 3 - CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU

Un o brif ddibenion y Cyfansoddiad yw gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am swyddogaethau a pha berson neu gorff sydd yn medru gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny.

Mae'r rhan hon o'r Cyfansoddiad yn amlinellu cyfrifoldebau'r canlynol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â gwahanol swyddogaethau'r Cyngor:

- Y Cyngor Llawn
- Pwyllgorau'r Cyngor
- Y Weithrediaeth (Cabinet)
- Swyddogion y Cyngor

### Cyffredinol

1. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys swyddogaethau a nodir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 fel rhai na allant fod yn gyfrifoldeb y Weithrediaeth. Mae gweithgareddau penodol yn ymwneud ag unrhyw ganiatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad a roddwyd o dan y swyddogaethau hynny wedi eu dirprwyo i'r sawl a roddodd y caniatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad hynny. Ceir manylion pellach mewn tabl arbennig yn y cynllun hwn .

2. Gall pwyllgor sy'n cyflawni swyddogaethau'r Cyngor neu'r Weithrediaeth wneud unrhyw beth a fo wedi'i fwriadu i hwyluso a hyrwyddo cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu a fo'n arwain at hynny, neu'n rhan o'r broses.

3. Caniateir i bob pwyllgor benodi is-bwyllgorau i ba ddibenion bynnag a fo'n briodol yn eu barn hwy yn unol â gofynion unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, ond ni chaniateir penodi unrhyw is-bwyllgor sefydlog heb gymeradwyaeth y Cyngor, a roddir ar ôl ystyried adroddiad gan y pwyllgor sefydlog.

4. Yn ogystal, gall y Cyngor, y Weithrediaeth y Cyngor neu bwyllgor craffu sefydlu gweithgor o aelodau, neu o aelodau a swyddogion ar y cyd, i ystyried unrhyw faes o fewn swyddogaethau'r Cyngor er cyflawni unrhyw ymchwil i'r maes hwnnw a chyflwyno adroddiad ac argymhellion i'r corff a'i sefydlodd erbyn dyddiad penodol. Penodir gweithgorau o'r fath am gyfnod penodol, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw byddant yn peidio â bodoli

5. Yn y cynllun hwn mae unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn swyddogaethau a phwerau pwyllgorau ac is-bwyllgorau yn cynnwys deddfau, deddfwriaeth eilaidd, rheoliadau, rheolau, gorchmynion, cyfarwyddiadau ac is-ddeddfau a phob ailddeddfiad, diwygiad neu estyniad ohonynt a fo mewn grym o bryd i'w gilydd.

6. Oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, mae'r unigol yn cynnwys y lluosog a'r lluosog yn cynnwys yr unigol.

| Y Swyddogaeth | Corff/Person Cyfrifol |
|---|---|
| 1. Rhoi amod neu gyfyngiad ar ganiatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad a ganiatawyd wrth weithredu swyddogaeth yn Atodlen 1, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007. | Y sawl a roddodd y caniatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad. |
| 2. Penderfynu unrhyw delerau eraill y mae'r caniatad, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad yn ddarostyngedig iddynt. | Y sawl a roddodd y caniatad, hawl, awduradod, trwydded neu gofrestriad. |
| 3. Penderfynu a ddylid, a sut i orfodi methiant i gydymffurfio hefo'r | |
| (a) caniatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad; neu | Y sawl a roddodd y caniatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad |
| (b) unrhyw amod neu gyfyngiad arnynt. | Y sawl a roddodd y caniatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad. |
| 4. Newid, diwygio neu wyro unrhyw ganiatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad neu unrhyw amod neu gyfyngiad arnynt. | Y sawl a roddodd y caniatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad |
| 5. Diddymu caniatâd, hawl awdurdod, trwydded neu gofrestriad o'r fath. | Y sawl a roddodd y caniatâd, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad |
| 6. Penderfynu a ddylid codi am unrhyw ganiatad, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad o'r fath a phennu maint y ffi. | Y sawl a roddodd y caniatad, hawl, awdurdod, trwydded neu gofrestriad. |

# CYNGOR LLAWN

Bydd y Cyngor Llawn yn cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi eu cadw drwy gyfraith i'r Cyngor Llawn ac sydd wedi eu nodi yn Erthygl 4 o'r Cyfansoddiad, ynghyd â'r rhai hynny sydd wedi eu rhestru yn y cynllun hwn, yn amodol ar unrhyw ddirprwyo i bwyllgor neu swyddog.

Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod) sydd i'w harfer gan y Cyngor llawn. (Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyfateb i'r hyn sydd yn y rheoliadau).

**SWYDDOGAETHAU NA ALL FOD YN GYFRIFOLDEB I’R WEITHREDIAETH**

**B. Swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (i'r graddau nad oes unrhyw baragraff arall yn yr atodlen hon yn ymdrin â hwy)**

| **Y Swyddogaeth** | **Y Ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyo/**<br>**Amodau a chyfyngiadau** |
|---|---|---|
| 43. Swyddogaethau mewn perthynas â sefydlu Pwyllgor Trwyddedu | Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17) | |

**CH. Swyddogaethau sy’n ymwneud ag etholiadau**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyo/**<br>**Amodau a chyfyngiadau** |
|---|---|---|
| 1. Y ddyletswydd i benodi swyddog cofrestru etholiadol. | Adran 8(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | |
| 2. Y pŵer i ddyrannu swyddogion mewn perthynas ag angenrheidiau’r swyddog cofrestru. | Adran 52(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | |
| 3. Y pŵer i ddileu cynghorau cymuned. | Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |
| 4. Y pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer grwpio cymunedau | Adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | |

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo/ Amodau a chyfyngiadau |
|---|---|---|
| 5. Y pŵer i wneud gorchmynion i ddileu grwpiau a gwahanu cynghorau cymuned oddi wrth grwpiau. | Adran 29A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |
| 6. Y ddyletswydd i benodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. | Adran 35 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | |
| 7. Y ddyletswydd i roi cymorth yn etholiadau'r Senedd Ewropeaidd. | Paragraff 4(3) a (4) o Atodlen 1 i Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 1978 | |
| 8. Y ddyletswydd i rannu'r etholaeth yn rhanbarthau pleidleisio. | Adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | |
| 9. Y pŵer i rannu adrannau etholiadol yn rhanbarthau pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. | Adran 31 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | |
| 10. Pwerau mewn perthynas â chynnal etholiadau. | Adran 39(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | |
| 11. Y pŵer i dalu costau a dynnir yn briodol gan swyddogion cofrestru etholiadol. | Adran 54 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. | |
| 12. Y pŵer i lenwi lleoedd gwag os na cheir digon o enwebiadau | Adran 21 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985. | |
| 13. Y ddyletswydd i ddatgan bod yna le gwag mewn swydd mewn rhai achosion. | Adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol |
| 14. Y ddyletswydd i roi hysbysiad cyhoeddus o le gwag achlysurol. | Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol |
| 15. Y pŵer i wneud penodiadau dros dro i gynghorau cymuned. | Adran 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo/<br>Amodau a chyfyngiadau |
|---|---|---|
| 16. Y pŵer i benderfynu ffioedd ac amodau ar gyfer rhoi copïau o ddogfennau etholiadol neu ddarnau allan ohonynt. | Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) 1986 (O.S. 1986/2214) a Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) 1986 (O.S. 1986/2215). | Penaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. |
| 17. Y pŵer i gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gorchymyn o dan adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. | Adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 | |
| 18. Swyddogaethau etholiadol amrywiol o dan Rhan II, OS 2003/284 | Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 1999, OS 1999/450. | Dirprwyir swyddogaethau'r swyddog canlyniadau i'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. |

**D. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag enw a statws ardaloedd ac unigolion**

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo/ Amodau a chyfyngiadau |
|---|---|---|
| 1. Y pŵer i newid enw sir, neu enw bwrdeistref sirol. | Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |
| 2. Y pŵer i newid enw cymuned. | Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |
| 3. Y pŵer i roi teitl henadur mygedol neu i dderbyn rhywun yn ryddfreiniwr mygedol. | Adran 249 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |
| 4. Y pŵer i ddeisebu o blaid siarter i roi statws bwrdeistref sirol. | Adran 245A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |

**DD. Y pŵer i wneud, diwygio, diddymu neu ail-ddeddfu is-ddeddfau**

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo/ Amodau a chyfyngiadau |
|---|---|---|
| 1. Y pŵer i wneud, diwygio, diddymu neu ail-ddeddfu is-ddeddfau | Unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys Deddf leol), pryd bynnag y cafodd ei phasio, ac Adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978 | |

**E. Y pŵer i hybu neu i wrthwynebu mesurau lleol neu bersonol.**

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo/ Amodau a chyfyngiadau |
|---|---|---|
| Y pŵer i hybu neu i wrthwynebu mesurau lleol neu bersonol. | Adran 239 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |

**F. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau a.y.b..**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyo/**<br>**Amodau a chyfyngiadau** |
|---|---|---|
| 2.Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd. | Rheoliadau dan adran 18 (3A) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (c.42) | |

**FF. Swyddogaethau amrywiol**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyo/**<br>**Amodau a chyfyngiadau** |
|---|---|---|
| 5. Y pŵer i wneud rheolau sefydlog | Adran 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a pharagraff 42 i Atodlen 12 iddi. | |
| 6. Penodi a diswyddo staff. | Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adrannau 7 ac 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | Ar gyfer y Prif Weithredwr yn unig.<br>Sefydlu'r pwyllgor penodi ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Strategol<br>Gweler y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad am hawliau penodi a diswyddo gweddill y staff. |
| 7. Y pŵer i wneud rheolau sefydlog ynghylch contractau. | Adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |
| 9. Y pŵer i wneud gorchymyn yn dynodi lle yn fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu mewn perthynas ag yfed alcohol. | Adran 13(2) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Heddlu 2001 | |
| 11. Y pŵer i benodi swyddogion at ddibenion penodol (penodi "priod swyddogion"). | Adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | |
| 12. Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, ac i ddarparu staff, a.y.b. | Adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 )(p.42). | |

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo/ Amodau a chyfyngiadau |
|---|---|---|
| 13. Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro, ac i ddarparu staff, a.y.b. | Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 | |
| 14. Y ddyletswydd i benderfynu terfyn benthyca fforddiadwy. | Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.22). | |
| 15. Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â chanllawiau | Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 | |
| 16. Y ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol. | Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.11). | |

## SWYDDOGAETHAU 'DEWIS LLEOL'

**Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddogaethau sydd o dan y Rheoliadau yn rhai a all fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly) sydd i'w harfer gan y Cyngor llawn.**

| Swyddogaeth | Dirprwyo/ Amodau a chyfyngiadau |
|---|---|
| 7. Gwneud trefniadau o dan adran 20 (cwestiynau ynghylch materion yr heddlu mewn cyfarfodydd cyngor) o Ddeddf yr Heddlu 1996 i ganiatáu gofyn cwestiynau ynghylch cyflawni swyddogaethau awdurdod heddlu. | |

| | |
|---|---|
| 2. Dyfarnu ar apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan yr awdurdod neu ar ei ran. | Y pwyllgor priodol |

| | |
|---|---|
| 8. Gwneud penodiadau o dan baragraffau 2 i 4 (penodi aelodau gan gynghorau perthnasol) o Atodlen 2 (awdurdodau heddlu a sefydlir o dan adran 3) i Ddeddf yr Heddlu 1996. | Prif Weithredwr |

**SWYDDOGAETHAU A FYDDAI FEL ARFER YN GYFRIFOLDEB I'R WEITHREDIAETH.**

O dan y rheoliadau, bydd y swyddogaethau a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl isod yn gyfrifoldeb i'r Cyngor llawn yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr ail golofn.

| **Y Swyddogaeth** | **Yr Amgylchiadau** |
|---|---|
| **1.** Mabwysiadu neu gymeradwyo cynllun neu strategaeth (boed statudol neu anstatudol), heblaw cynllun neu strategaeth i reoli benthyciadau neu wariant cyfalaf yr awdurdod neu gynllun neu strategaeth y cyfeirir atynt yn Atodlen 3 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007. | Mae'r awdurdod yn dyfarnu y dylai'r penderfyniad a ddylai'r cynllun neu'r strategaeth gael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gel ei gymryd ganddynt hwy. |
| **2.** Dyfarnu ar unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth -<br>(a) sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth; a<br>(b) sy'n ymwneud â chyllideb yr awdurdod, neu eu benthyciadau neu eu gwariant cyfalaf. | Mae'r unigolyn neu'r corff y mae'r dyfarniad i gael ei wneud ganddo yn rhinwedd unrhyw un o adrannau 14 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu ddarpariaeth a wneir o dan adran 18 neu 20 o'r Ddeddf honno -<br>(a) o blaid dyfarnu ar y mater yn groes i'r canlynol neu heb fod yn gyfan gwbl unol â hwy -<br>(i) cyllideb yr awdurdod; neu<br>(ii) y cynllun neu'r strategaeth sydd am y tro wedi'u cymeradwyo neu wedi'u mabwysiadu gan yr awdurdod mewn perthynas â'u benthyciadau neu eu gwariant cyfalaf; a<br>(b) heb ei awdurdodi o dan drefniadau amgen yr awdurdod, ei reoliadau ariannol, ei reolau sefydlog neu ei reolau neu ei weithdrefnau eraill i wneud dyfarniad yn y termau hynny. |
| **3.** Dyfarnu ar unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth -<br>(a) sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth; a<br>(b) y mae cynllun neu strategaeth (boed statudol neu anstatudol ) wedi'u mabwysiadu neu wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod mewn perthynas â hi. | Mae'r unigolyn neu'r corff y mae'r dyfarniad i gael ei wneud ganddo yn rhinwedd unrhyw un o adrannau 14 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu ddarpariaeth a wneir o dan adran 18 neu 20 o'r Ddeddf honno o blaid dyfarnu ar y mater mewn termau sy'n groes i'r cynllun neu, yn ôl fel y digwydd, i'r strategaeth a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd gan yr awdurdod. |

# Y WEITHREDIAETH (CABINET)

**Ceir manylion am Gyfansoddiad y Weithrediaeth yn Erthygl 7, Rhan 2 y Cyfansoddiad. Mae Rheolau Gweithdrefn y Weithrediaeth i'w cael yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.**

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 rhaid i holl swyddogaethau'r cyngor fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth oni bai bod rheoliadau a wneir o dan y ddeddf yn datgan na chant fod neu bod darpariaeth statudol arall yn rhoi'r swyddogaeth i bwyllgor statudol (e.e. pwyllgor craffu, pwyllgor safonau). Yn ogystal, mae gan y Cyngor ddewis os yw rhai swyddogaethau am fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth ai peidio ('Swyddogaethau dewis lleol').

2. Yn y tablau blaenorol yn y rhan hon o'r Cyfansoddiad gellir gweld sut y mae'r swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dyrannu i'r Cyngor Llawn ac i bwyllgorau'r Cyngor.

3. Felly, heblaw am unrhyw fater sydd wedi ei nodi yn benodol fel mater i'r Cyngor Llawn neu i bwyllgor, mae pob swyddogaeth yr awdurdod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth.

4. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion unrhyw swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i aelodau unigol o'r Weithrediaeth ac unrhyw bwyllgorau o'r Weithrediaeth sydd wedi eu sefydlu. Ceir manylion am swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i brif swyddogion yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion – Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.

**Swyddogaethau 'Dewis Lleol'**

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 yn darparu bod rhai Swyddogaethau a all fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly)"

4. Mae'r Swyddogaethau Dewis Lleol sydd wedi eu rhoi i'r Weithrediaeth wedi eu nodi yn y tabl isod. Yn yr ail golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog.

| Swyddogaeth | Dirprwyo a/neu amodau neu gyfyngiadau |
|---|---|
| 1. Unrhyw swyddogaeth o dan Ddeddf leol heblaw swyddogaeth a bennir neu y cyfeirir ati yn Atodlen 1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007. | Y Prif Swyddog priodol |

| Swyddogaeth | Dirprwyo a/neu amodau neu gyfyngiadau |
|---|---|
| 3. Swyddogaethau yn ymwneud ag adolygu penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â hawliadau am fudd-dal tai neu fudd-dal treth cyngor ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau o'r fath dan Adran 68 ac atodlen 7 o'r Ddeddf Cynnal Plant, Pensiwn a Nawdd Cymdeithasol 2000. | Pennaeth Cyllid |
| 4. Gwneud trefniadau mewn perthynas ag apelau yn erbyn gwahardd disgyblion o ysgolion a gynhelir dan Adran 52 o Ddeddf Addysg 2002. | Pennaeth Addysg |
| 5. Gwneud trefniadau yn unol ag adran 94(1) a (4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (apelau derbyn) ac Atodlen 24 iddi. | Pennaeth Addysg |
| 6. Gwneud trefniadau yn unol ag adran 95(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (plant y mae adran 87 yn gymwys iddynt: apelau gan gyrff llywodraethu) ac Atodlen 25 iddi. | Pennaeth Addysg |
| 9. Cynnal adolygiadau gwerth gorau yn unol â darpariaethau unrhyw orchymyn sy'n dwyn effaith am y tro o dan adran 5 (adolygiadau gwerth gorau) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. | Bydd unrhyw benderfyniad gan y Weithrediaeth yn dibynnu ar ystyriaeth flaenorol gan y Pwyllgor Craffu perthnasol |
| 10. Unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â thir halogedig. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 11. Cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 12. Cyflwyno hysbysiad atal mewn perthynas â niwsans statudol. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 13. Pasio cynnig y dylai Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 fod yn gymwys yn ardal yr awdurdod. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 14. Archwilio ardal yr awdurdod i ddod o hyd i unrhyw niwsans statudol. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 15. Ymchwilio i unrhyw gŵyn ynghylch bodolaeth niwsans statudol. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 16. Sicrhau gwybodaeth o dan adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ynghylch buddiannau mewn tir. | Pennaeth Rheoleiddio |

| Swyddogaeth | Dirprwyo a/neu amodau neu gyfyngiadau |
|---|---|
| 17. Sicrhau manylion personau sydd â buddiant mewn tir o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. | Y Prif Swyddog priodol |
| 19. Penodi unrhyw unigolyn -<br>(a) i unrhyw swydd heblaw swydd y mae'n cael ei gyflogi ynddi gan yr awdurdod;<br>(b) i unrhyw gorff heblaw -<br>(i) yr awdurdod;<br>(ii) cydbwyllgor o ddau neu ragor o awdurdodau; neu<br>(c) i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i<br>gorff o'r fath, a diddymu unrhyw benodiad o'r fath | |
| 20. Y pŵer i wneud taliadau neu i roi budd-daliadau eraill mewn achosion camweinyddu a.y.b. | Swyddog Monitro |
| 21. Cyflawni unrhyw swyddogaeth gan awdurdod sy'n gweithredu fel awdurdod harbwr. | Pennaeth Economi a Chymuned |
| 22. Swyddogaethau ynglŷn â chyfrifo sylfaen y dreth gyngor yn unol ag unrhyw un o'r canlynol :<br><br>(a) penderfynu swm ar gyfer eitem T yn adran 33(1) a 44(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;<br>(b) penderfynu swm ar gyfer eitem TP yn adrannau 34(3), 45(3), 48(3) a 48(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;<br>(c) penderfynu swm y mae ei angen i benderfynu ar gyfer yr eitem a grybwyllwyd ym mharagraff a) neu b) uchod. | |

**Amgylchiadau pan na all y weithrediaeth benderfynu**

5. Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu fod amgylchiadau pan na all y Weithrediaeth wneud penderfyniad ar fater fyddai, fel arall, yn gyfrifoldeb iddo. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'r penderfyniad yn un i'r Cyngor Llawn. Mae'r amgylchiadau hynny i'w gweld yn y tabl isod:

**"Amgylchiadau nad yw swyddogaethau i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod o danynt"**

| Y Swyddogaeth | Yr Amgylchiadau |
|---|---|
| **1.** Mabwysiadu neu gymeradwyo cynllun neu strategaeth (boed statudol neu anstatudol), heblaw cynllun neu strategaeth i reoli benthyciadau neu wariant cyfalaf yr awdurdod neu gynllun neu strategaeth y cyfeirir atynt yn Atodlen 3 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007. | Mae'r awdurdod yn dyfarnu y dylai'r penderfyniad a ddylai'r cynllun neu'r strategaeth gael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gael ei gymryd ganddynt hwy. |
| **2.** Dyfarnu ar unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth -<br>(a) sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth; a<br>(b) sy'n ymwneud â chyllideb yr awdurdod, neu eu benthyciadau neu eu gwariant cyfalaf. | Mae'r unigolyn neu'r corff y mae'r dyfarniad i gael ei wneud ganddo yn rhinwedd unrhyw un o adrannau 14 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu ddarpariaeth a wneir o dan adran 18 neu 20 o'r Ddeddf honno -<br>(a) o blaid dyfarnu ar y mater yn groes i'r canlynol neu heb fod yn gyfan gwbl unol â hwy -<br>(i) cyllideb yr awdurdod; neu<br>(ii) y cynllun neu'r strategaeth sydd am y tro wedi'u cymeradwyo neu wedi'u mabwysiadu gan yr awdurdod mewn perthynas â'u benthyciadau neu eu gwariant cyfalaf; a<br>(b) heb ei awdurdodi o dan drefniadau amgen yr awdurdod, ei reoliadau ariannol, ei reolau sefydlog neu ei reolau neu ei weithdrefnau eraill i wneud dyfarniad yn y termau hynny. |
| **3.** Dyfarnu ar unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth -<br>(a) sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth; a<br>(b) y mae cynllun neu strategaeth (boed statudol neu anstatudol ) wedi'u mabwysiadu neu wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod mewn perthynas â hi. | Mae'r unigolyn neu'r corff y mae'r dyfarniad i gael ei wneud ganddo yn rhinwedd unrhyw un o adrannau 14 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu ddarpariaeth a wneir o dan adran 18 neu 20 o'r Ddeddf honno o blaid dyfarnu ar y mater mewn termau sy'n groes i'r cynllun neu, yn ôl fel y digwydd, i'r strategaeth a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd gan yr awdurdod. |

## Cyfrifoldeb am Swyddogaethau Gweithredol

### Yr Arweinydd

6. Mewn perthynas â'r swyddogaethau'r sy'n gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth ('swyddogaethau gweithredol'), mae'r Arweinydd wedi ei awdurdodi i :

- benderfynu ar ddirprwyo o fewn ac o'r Weithrediaeth;
- benderfynu os yw aelodau unigol o'r Weithrediaeth am gael cyfrifoldeb am swyddogaethau penodol ('portffolios');
- awdurdodi aelodau unigol o'r Weithrediaeth sydd â phortffolios i wneud penderfyniadau yn bersonol mewn cysylltiad â'r portffolios hynny;
- benderfynu os dylid sefydlu unrhyw bwyllgorau o'r Weithrediaeth ac i ddirprwyo swyddogaethau iddynt;
- benderfynu os dylid dirprwyo unrhyw swyddogaethau i [bwyllgor ardal], i gydbwyllgor gydag awdurdod arall, neu i awdurdod arall;
- benderfynu pa swyddogaethau Gweithredol fydd yn cael eu dirprwyo i swyddogion;
- benderfynu pa gyfyngiadau (os o gwbl) i'w gosod ar unrhyw ddirprwyo a wneir o dan y pwerau hyn;
- benderfynu os dylid tynnu yn ôl unrhyw ddirprwyaeth a wneir yn unol â'r pwerau hyn ac i arfer y swyddogaeth ei hun.
- weithredu unrhyw swyddogaeth nad yw wedi ei dyrannu i gorff neu berson arall drwy'r cynllun hwn (yn amodol ar y cyfyngiadau ym mharagraff 10).

## Pwyllgorau o'r Weithrediaeth

7. Nid yw'r Arweinydd wedi sefydlu unrhyw Bwyllgorau o'r Weithrediaeth.

## Aelodau Unigol o'r Weithrediaeth

8. Mae'r Arweinydd wedi penderfynu y dylai aelodau unigol o'r Weithrediaeth (gan gynnwys yr Arweinydd) gael cyfrifoldeb am swyddogaethau penodol ('portffolios') fel y nodir yn y tabl isod.

9. Mae'r Arweinydd wedi awdurdodi'r aelodau unigol o'r Weithrediaeth i wneud penderfyniadau yn bersonol mewn cysylltiad â'r portffolios a ddyrannir iddynt, yn ddarostyngedig i'r amodau a'r cyfyngiadau a nodir isod (para. 10).

**Portffolios**

| Portffolio a Deilydd Portffolio | Cyfrifoldebau'r Portffolio |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**Penderfyniadau gan Aelodau Unigol o'r Weithrediaeth**

10. Wrth gymryd penderfyniadau yn bersonol rhaid i Aelodau'r Weithrediaeth gydymffurfio gyda:

(1) Unrhyw gyfyngiadau statudol

( 2) Unrhyw gyfyngiadau penodol yn y Cyfansoddiad hwn, gan gynnwys

(i) hawliau sydd wedi eu dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 y Cyfansoddiad

(ii) Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (Rhan 4)

(iii) Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor Gwynedd (Rhan 4)

(iv) y Fframwaith Bolisi a Chyllideb a osodir gan y Cyngor

(v) Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth y Cyngor (Rhan 4)

(3) Y Cod Ymddygiad i Aelodau (Rhan 5)

(4) Yr angen i ymgynghori gyda'r aelod(au) lleol os yw'r mater dan sylw yn un lleol

(5) Yr angen i ystyried a ddylid cyfeirio'r mater i bwyllgor(au) craffu pan fydd y mater, ym marn yr Aelod Gweithredol, yn un sydd angen 'adolygiad cyn-benderfyniad' [pre-decision review]

(6) Cyngor a roddir gan y Prif Weithredwr, fel pennaeth y gwasanaeth taledig, y Prif Swyddog Cyllid, neu'r Swyddog Monitro,

(7)Yr angen i ymgynghori gyda Phrif Swyddog(ion) perthnasol er sicrhau gweithredu yn unol â chyngor proffesiynol.

(8) Yr angen i ymgynghori gydag Aelod(au) Gweithredol arall/eraill pan fydd y mater dan sylw yn ymwneud a mwy nag un portffolio

(9) Yr angen bob tro i ystyried os, yn yr holl amgylchiadau, y dylai'r penderfyniad fod yn un i'r Weithrediaeth yn ei gyfanrwydd ei gymryd.

(10) Yr angen, lle'n berthnasol, fod y mater wedi ei gynnwys yn rhaglen waith sydd wedi ei gymeradwyo gan y Weithrediaeth.

(11) Gofynion Rheolau Gweithdrefn Mynediad i Wybodaeth y Cyngor (Rhan 4) ynglŷn â chyhoeddi taflen penderfyniad ayb, cyn gweithredu unrhyw bŵer dirprwyedig.

(12) Nid oes unrhyw beth yn y Cynllun Dirprwyo hwn yn rhwystro'r Weithrediaeth rhag arfer swyddogaethau a fyddai fel arall o dan y Cynllun hwn yn cael ei arfer gan aelod unigol o'r Weithrediaeth.

# PWYLLGOR ARCHWILIO

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.**

- **Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

### Swyddogaethau na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth.

### FF. Swyddogaethau Amrywiol

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd). | Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. | |

### Swyddogaethau o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011:

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,

(ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(dd) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

## Swyddogaethau Eraill.

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntion adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth.

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.**

- **Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

**Swyddogaethau na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth**

**"A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllunio Gwlad A Thref A Rheoli Datblygu"**

| **Y Swyddogaeth** | **Y Ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyo -** ***(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)*** |
|---|---|---|
| 1. Y pŵer i benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. | Adrannau 70(1)(a) a (b) a 72 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 2. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a osodwyd o'r blaen. | Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 3. Y pŵer i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi'i gyflawni. | Adran 73A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 4. Y pŵer i wrthod penderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. | Adran 70A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 5. Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. | Adrannau 69, 76 a 92 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Erthyglau 8, 10 i 13, 15 i 22, 25 a 26 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) a chyfarwyddiadau a wneir o danynt. | Pennaeth Rheoleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| 6. Y pŵer i benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio a wneir gan awdurdod lleol, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â pherson arall. | Adran 316 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (O.S. 1992/1492) | Pennaeth Rheoleiddio |
| **7.** Y pŵer i wneud penderfyniadau, i roi cymeradwyaethau ac i gytuno ar faterion penodol eraill sy'n ymwneud ag arfer hawliau datblygu a ganiateir. | Rhannau 6, 7, 11, 17, 19, 20, 21 i 24, 30 a 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/418). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 8. Y pŵer i wneud cytundeb sy'n rheoleiddio datblygu tir neu ddefnyddio tir. | Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 9. Y pŵer i roi tystysgrif o ddefnydd neu ddatblygiad cyfreithlon presennol neu arfaethedig. | Adrannau 191(4) a 192(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 10. Y pŵer i gyflwyno hysbysiad cwblhau. | Adran 94(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 11. Y pŵer i roi cydsyniad i arddangos hysbysebion. | Adran 220 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 12. Y pŵer i awdurdodi mynd ar dir. | Adran 196A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 13. Y pŵer i'w gwneud yn ofynnol rhoi'r gorau i ddefnyddio tir. | Adran 102 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 14. Y pŵer i gyflwyno hysbysiad torri rheolau cynllunio, hysbysiad torri amod neu hysbysiad stop. | Adrannau 171C, 187A a 183(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 15. Y pŵer i roi hysbysiad gorfodi. | Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 16. Y pŵer i wneud cais am waharddeb i atal torri rheol cynllunio. | Adran 187B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 17. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad sylweddau peryglus, a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 9(1) a 10 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| 18. Y ddyletswydd i benderfynu ar amodau y mae hen ganiatadau mwyngloddio, caniatadau cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â safleoedd cwsg neu safleoedd gweithredol Rhan I neu II, neu ganiatadau mwynol sy'n ymwneud â safleoedd mwyngloddio, yn ôl fel y digwydd, i fod yn ddarostyngedig iddynt. | Paragraff 2(6)(a) o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, paragraff 9(6) o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraff 6(5) o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 19. Y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gynnal a chadw tir. | Adrannau 215(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 20. Y pŵer i benderfynu ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig, a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 16(1) a (2), 17, 27(2) a 33(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 21. Y pŵer i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad ardal gadwraeth. | Adran 16(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'i cymhwysir gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 22. Dyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth. | Adrannau 13(1) a 14(1) a (4) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990 a rheoliadau 3 i 6 ac 13 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1987 a pharagraff 127 o gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol; Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 23. Y pŵer i gyflwyno hysbysiad cadw adeilad, a phwerau cysylltiedig. | Adrannau 3(1) a 4(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| 24. Y pŵer i roi hysbysiad gorfodi mewn perthynas â dymchwel adeilad sydd heb ei restru mewn ardal gadwraeth. | Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 25. Pwerau i gaffael adeilad rhestredig y mae angen ei drwsio a chyflwyno hysbysiad trwsio. | Adrannau 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 26. Y pŵer i wneud cais am waharddeb mewn perthynas ag adeilad rhestredig. | Adran 44A o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 27. Y pŵer i wneud gwaith brys. | Adran 54 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 28. Y pŵer yn gysylltiedig â gweithio mwynau. | Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 29. Y pŵer yn gysylltiedig â llwybrau troed a llwybrau ceffylau. | Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 30. Y pŵer i roi tystysgrif o ddatblygiad neillog addas. | Adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 31. Y pŵer i gyflwyno gorchmynion prynu. | Adrannau 137 - 144 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 32. Pwerau yn gysylltiedig â hysbysiadau malltod. | Adrannau 149 - 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Pennaeth Rheoleiddio |

**FF. Swyddogaethau amrywiol**

| Y Swyddogaeth | Y Ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | Dirprwyo - (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion) |
|---|---|---|
| 3. Pwerau sy'n ymwneud â chadw coed. | Adrannau 197 i 214D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Coed 1999 (OS. 1999/1892). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 4. Pwerau sy'n ymwneud â diogelu gwrychoedd pwysig. | Rheoliadau Gwrychoedd1997 (O.S. 1997/1160). | Pennaeth Rheoleiddio |

**Swyddogaethau a all fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly)**

| Swyddogaeth | | | Dirprwyo<br>***(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)*** |
|---|---|---|---|
| 18. | Unrhyw un neu unrhyw rai o'r swyddogaethau canlynol o ran priffyrdd | | Pennaeth Rheoleiddio |
| (a) | Gwneud cytundebau ar gyfer gwneud gwaith priffyrdd | | |
| (b) | Y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan III o Ddeddf Priffyrdd 1980(2) (creu priffyrdd); | | |
| | (i) | Adran 25 - creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig drwy gytundeb; | |
| | ii) | Adran 26 - pwerau gorfodol ar gyfer creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig; | |
| (c) | Y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan VIII o Ddeddf Priffyrdd 1980 (cau priffyrdd a gwyro priffyrdd, ayb): | | |
| | (i) | adran 116 - pŵer llysoedd ynadon i awdurdodi cau priffordd neu wyro priffordd | |
| | (ii) | adran 117 – cais am orchymyn o dan adran 116 ar ran person arall. | |
| | (iii) | adran 118 – cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig. | |
| | (iv) | adran 118Za – cais am orchymyn diddymu llwybr cyhoeddus | |
| | (v) | adran 118B – cau priffyrdd penodol at ddibenion atal troseddau, a.y.b. | |
| | (vi) | adran 118C - cais gan berchennog ysgol am orchymyn diddymu arbennig; | |
| | (viii) | adran 119 – gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig; | |
| | (ix) | adran 119ZA – cais am orchymyn gwyro llwybr cyhoeddus | |
| | (x) | adran 119A – gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (xi) | adran 119B – gwyro priffyrdd penodol at ddibenion atal troseddau, a.y.b. | |
| | (xii) | adran 119C – cais gan berchennog ysgol am orchymyn gwyro arbennig. | |
| | (xiii) | adran 119B – gwyro priffyrdd penodol ar gyfer gwarchod safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. | |
| | (xiv) | adran 120 – arfer pwerau i wneud gorchmynion diddymu a gwyro llwybrau cyhoeddus. | |
| | (xv) | adran 121B - cofrestr ceisiadau. | |
| (ch) | Y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan IX o Ddeddf Priffyrdd 1980 (ymyrraeth gyfreithlon ac anghyfreithlon â phriffyrdd a strydoedd). | | |
| | (i) | adran 130 – amddiffyn hawliau cyhoeddus. | |
| | (ii) | adran 139 – rheoli sgipiau adeiladwyr; | |
| | (iii) | adran 140 – symud sgipiau adeiladwyr i ffwrdd; | |
| | (iv) | adran 140A – sgipiau adeiladwyr; ffioedd am feddiannu'r briffordd | |
| | (v) | adran 142 - trwydded i blannu coed, llwyni, ayb mewn priffordd; | |
| | (vi) | adran 147 – pŵer i awdurdodi codi camfeydd, a.y.b. ar lwybrau troed neu lwybrau ceffylau; | |
| | (vii) | adran 147ZA – cytundebau ynghylch gwelliannau er lles personau sydd â phroblemau symudedd; | |
| | (viii) | adran 149 – symud pethau a adawyd ar briffyrdd sy'n peri niwsans, a.y.b. | |
| | (ix) | adran 169 – rheoli sgaffaldiau ar briffyrdd; | |
| | (x) | adran 171 – rheoli gosod deunyddiau adeiladu ar strydoedd a gwneud gwaith cloddio mewn strydoedd; | |
| | (xi) | adran 171A - rheoliadau a wneir o dan yr adran honno - gwaith o dan adran 169 neu adran 171; tâl am feddiannu’r briffordd; | |
| | (xii) | adran 172 – palisau sydd i'w codi yn ystod adeiladu, a.y.b. | |
| | (xiii) | adran 173 – palisau i'w codi'n ddiogel | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (xiv) | adran 178 – cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau, a.y.b. dros briffyrdd; | |
| | (xv) | adran 179 – rheoli adeiladau selerydd, a.y.b. o dan strydoedd. | |
| | (xvi) | adran 180 – rheoli mynedfeydd i selerydd, a.y.b. o dan strydoedd a goleuadau palmentydd ac awyryddion. | |
| (d) | arfer swyddogaethau o dan adran 34 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 198l (gorchmynion calchbalmentydd); | | |
| (dd) | arfer swyddogaethau o dan adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (dyletswydd i adolygu mapiau a datganiadau diffiniol yn barhaus). | | |

| **Y Swyddogaethau** | **Y Ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | **Dirprwyo (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion).** |
|---|---|---|
| Gwneud gorchmynion rheoli traffig [lle bynnag bo gwrthwynebid i'r bwriad ar ôl hysbysebu]. | Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 | Pennaeth Rheoleiddio |

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**
- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.**
- **Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

**(a) Swyddogaethau a all fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly)**

**(b) Swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (i'r graddau nad oes unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon yn ymdrin â hwy).**

| **Swyddogaeth** | | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 23. Swyddogaethau trwyddedu yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac eithrio adran 6. | | Pennaeth Rheoleiddio |
| 24. Swyddogaethau o ran gamblo o dan ddarpariaethau canlynol Deddf Gamblo 2005(3) | | Pennaeth Rheoleiddio |
| a) | adran 29 - gwybodaeth gan awdurdod trwyddedu; | |
| b) | adran 30 - cyfnewid arall o wybodaeth; | |
| c) | adran 166 - penderfyniad i beidio â dyroddi trwyddedau casino; | |
| (ch) | adran 212 - rheoliadau a wneir o dan yr adran honno - ffioedd. | |
| (d) | adran 284 - tynnu ymaith esemptiad; | |
| (dd) | adran 304 - personau awdurdodedig; | |
| (e) | adran 346 - erlyniadau gan awdurdod trwyddedu; | |
| (f) | adran 349 - polisi trwyddedu tair blynedd: | |
| (ff) | adran 350 - cyfnewid gwybodaeth; | |
| (g) | Rhan 5 o Atodlen 11 - cofrestru gydag awdurdod lleol. | |

**<u>Penderfyniadau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005</u>**

**Mae swyddogaethau penodol sydd gan y Cyngor fel awdurdod trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 yn cael eu gweithredu gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog Llawn, gan Is-bwyllgor yn cynnwys 3 aelod o'r Pwyllgor hwnnw neu gan swyddogion trwyddedu. Isod ceir tablau (o Ddatganiadau Polisïau Trwyddedu'r Cyngor yn y meysydd hyn) sy'n dangos dyraniad y swyddogaethau.**

**Deddf Trwyddedu 2003**

| Y mater i'w drafod | Cyngor Llawn | Is-bwyllgor neu banel | Penaeth Rheoleiddio. |
|---|---|---|---|
| Cais am Drwydded Bersonol | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais am drwydded personol gyda chollfarnau heb ddarfod | | Ymhob achos | |
| Cais am Drwydded Eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais am Ddatganiad Darpariaethol | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais i amrywio Trwydded Eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais i amrywio trwyddedwr personol dynodedig | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | Ymhob achos arall |
| Cais i dynnu yn ôl fel trwyddedwr personol dynodedig | | | Ymhob achos |
| Cais am drwydded i drosglwyddo eiddo | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | Ymhob achos arall |
| Cais am Awdurdod Dros Dro | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | Ymhob achos arall |
| Cais i Adolygu Trwydded Eiddo/ tystysgrif eiddo clwb | | Ymhob achos | |

| Y mater i'w drafod | Cyngor Llawn | Is-bwyllgor neu banel | Pennaeth Rheoleiddio |
|---|---|---|---|
| Penderfynu os yw cwyn yn amherthnasol, disylwedd neu o natur flinderus | | | Ymhob achos |
| Penderfynu gwrthwynebu pan fydd ymgynghori gyda'r awdurdod lleol yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn arwain | | | Ymhob achos |
| Penderfynu ynglŷn â sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu ynglŷn â rhybudd digwyddiad dros dro | | | Ymhob achos |

**Deddf Gamblo 2005**

| Yr hyn sydd dan sylw | Cyngor Llawn | Is-bwyllgor | Pennaeth Rheoleiddio. |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod Ffioedd – pan yn addas | | Pwyllgor Llawn | |
| Cais am drwydded eiddo | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn | Pan na dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn |
| Cais am drwydded dros dro | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |

| **Yr hyn sydd dan sylw** | **Cyngor Llawn** | **Is-bwyllgor** | **Pennaeth Rheoleiddio** |
|---|---|---|---|
| Diddymu hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfyniad i gyflwyno gwrth hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw person yn Barti â Diddordeb | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n berthnasol | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus | | | X |

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**
- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.**
- **Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

## Swyddogaethau na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth.

## B. Swyddogaethau trwyddedu a chofrestru (i'r graddau nad oes unrhyw baragraff arall yn yr atodlen hon yn ymdrin â hwy)

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Y pŵer i roi trwyddedau sy'n awdurdodi defnyddio tir yn safle carafanau. | Adran 3(3) o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 (p. 62). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 2. Y pŵer i drwyddedu defnyddio anheddau symudadwy a safleoedd gwersylla. | Adran 269(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (p.49). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 3. Y pŵer i drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. | (a) o ran cerbydau hacni, Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847 (10 &11 Vict. p.89), fel y'i hestynnwyd gan adran 171 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 (38 & 39 Vict. p.55), ac adran 15 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p.67); ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p.57);<br><br>(b) o ran cerbydau hurio preifat, adrannau 48,57,58,60. a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 | Pennaeth Rheoleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| 4. Y pŵer i drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. | Adrannau 51, 53, 54, 59, 61 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 5. Y pŵer i drwyddedu gweithredwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. | Adrannau 55 i 58, 62 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 6. Y pŵer i gofrestru hyrwyddwyr pyllau | Atodlen 2 i Ddeddf Betio, Gamblo a Loterïau 1963 (p.2). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 7. Y pŵer i roi trwyddedau betio ar gyfer traciau. | Atodlen 3 i Ddeddf Betio, Gamblo a Loterïau 1963. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 8. Y pŵer i drwyddedu cynlluniau betio ar gyfer traciau ar y cyd â'i gilydd. | Atodlen 5ZA i Ddeddf Betio, Gamblo a Loterïau 1963. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 9. Y pŵer i roi trwyddedau mewn perthynas â safleoedd sydd â pheiriannau chwarae. | Atodlen 9 i Ddeddf Gamblo 1968 (p. 65). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 10. Y pŵer i gofrestru cymdeithasau sy'n dymuno hybu loterïau. | Atodlen 1 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976 (p. 32). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 11. Y pŵer i roi trwyddedau mewn perthynas â safleoedd lle darperir difyrion â gwobrau. | Atodlen 3 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 12. Y pŵer i roi trwyddedau adloniant. | Adran 12 o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1933 (p. 12). | Pennaeth Addysg [“PtrCanolog”?] |
| 13. Y pŵer i drwyddedu siopau rhyw a sinemâu rhyw. | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, adran 2 ac Atodlen 3. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 14. Y pŵer i drwyddedu perfformiadau hypnotiaeth. | Deddf Hypnotiaeth 1952 (p.46). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 15. Y pŵer i drwyddedu safleoedd ar gyfer aciwbigo, tatwio, tyllu clustiau ac electrolysis. | Adrannau 13 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 16. Y pŵer i drwyddedu cychod pleser a llongau pleser. | Adran 94 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 (p. 53). | Pennaeth Economi a Chymuned |
| 17. Y pŵer i drwyddedu masnachu mewn marchnadoedd ac ar y stryd. | Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ac Atodlen 4 iddi. | Pennaeth Rheoleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| 18. Y ddyletswydd i gadw rhestr o bersonau sydd â'r hawl i werthu gwenwynau nad ydynt yn feddyginiaeth. | Adrannau 3(1)(b)(ii), 5, 6 ac 11 o Ddeddf Gwenwynau 1972 (p. 66). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 19. Y pŵer i drwyddedu delwyr helgig a lladd a gwerthu helgig. | Adrannau 5, 6, 17, 18 a 21 i 23 o Ddeddf Hela 1831 (p. 32); adrannau 2 i 16 o Ddeddf Trwyddedu Helgig 1860 (p. 90), adran 4 o Ddeddf Tollau Cartref a Chyllid y Wlad 1883 (p. 10), adrannau 12(3) a 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1874 (p. 73), ac adran 213 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 20. Y pŵer i gofrestru a thrwyddedu safleoedd ar gyfer paratoi bwyd | Adran 19 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p. 16). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 21. Y pŵer i drwyddedu iardiau sgrap. | Adran 1 o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 1964 (p.69). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 22. Y pŵer i roi, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch (cyffredinol neu arbennig) ar gyfer meysydd chwaraeon. | Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 (p. 52). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 23. Y pŵer i roi, dileu, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch ar gyfer eisteddleoedd rheoledig mewn meysydd chwaraeon. | Rhan III o Ddeddf Diogelwch Rhag Tân a Diogelwch Lleoedd Chwaraeon 1987 (p.27). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 24. Y ddyletswydd i hybu diogelwch rhag tân | Adran 6 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 25. Y pŵer i drwyddedu safleoedd ar gyfer bridio cŵn | Adran 1 Deddf Bridio Cŵn 1973 (p.60) ac adran 1 Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn Llês) 1999 (p.11) | Pennaeth Rheoleiddio |
| 26. Y pŵer i drwyddedu siopau anifeiliaid anwes a sefydliadau eraill lle caiff anifeiliaid eu bridio neu eu cadw er mwyn cynnal busnes. | Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 (p. 35); adran 1 o Ddeddf Sefydliadau Byrddio Anifeiliaid 1963(p. 43); Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970 (1964 p. 70 a 1970 c. 70); adran 1 o Ddeddf Bridio Cŵn 1973 (p. 60), ac adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999. | Pennaeth Rheoleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| 27. Y pŵer i gofrestru hyfforddwyr ac arddangoswyr anifeiliaid. | Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 (p.38). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 28. Y pŵer i drwyddedu sŵau. | Adran 1 o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 (p.37). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 29. Y pŵer i drwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus. | Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (p.38). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 30. Y pŵer i orfodi rheoliadau yn ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid. | Rheoliad 49 o Orchymyn Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006. | Pennaeth Rheoleiddio |
| 31. Y pŵer i drwyddedu cyflogi plant. | Rhan II o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1933 (p.33), is-ddeddfau a wneir o dan y Rhan honno, a Rhan II o Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc 1963 (p.37). | Pennaeth Addysg |
| 32. Y pŵer i gymeradwyo safleoedd ar gyfer gweinyddu priodasau. | Rhan 46A o Ddeddf Priodasau 1949 (p. 76) a Rheoliadau Priodasau (Safleoedd a Gymeradwywyd) 1995 (O.S. 1995/510). | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. |
| 33. Y pŵer i gofrestru tir comin neu lawntiau trefi neu bentrefi, ac eithrio os yw'r pŵer yn arferadwy ar gyfer rhoi effaith i'r canlynol yn unig -<br>(a) cyfnewid tiroedd y mae gorchymyn o dan adran 19(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p.67) neu baragraff 6(4) o Atodlen 3 iddi yn effeithio arnynt; neu<br>(b) gorchymyn o adran 147 o Ddeddf Amgáu Tiroedd 1845 (p. 8 a 9 Vict. p.118). | Rheoliad 6 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Tiroedd Newydd) 1969 (O.S. 1969/1843). | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. |
| 34. Y pŵer i gofrestru amrywiadau ar hawliau comin. | Rheoliad 29 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471). | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. |
| 35. Y pŵer i drwyddedu personau i gasglu ar gyfer achosion elusennol ac achosion eraill. | Adran 5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrïoedd etc. (Darpariaethau Amrywiol) 1916 (p.31) ac adran 2 o Ddeddf Casglu o Dŷ i Dŷ 1939 (p. 44). | Pennaeth Rheoleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| 36. Y pŵer i roi cydsyniad ar gyfer gweithredu uchelseinydd. | Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 (p.40). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 37. Y pŵer i roi trwydded ar gyfer gweithfeydd stryd. | Adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991 (p.22). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 38. Y ddyletswydd i gofrestru symud moch | Erthyglau 21(3) a (4) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004 (2004/96) | Pennaeth Rheoleiddio |
| 39. Y pŵer i orfodi rheoliadau yn ymwneud â symud moch | Erthygl 27(1) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004 | Pennaeth Rheoleiddio |
| 40. Y pŵer i roi trwydded i symud gwartheg o farchnad. | Erthygl 5(2) o Reoliadau Adnabod Gwartheg (OS. 1998/871) | Pennaeth Rheoleiddio |
| 41. Y pŵer i ganiatáu defnyddio rhannau o adeiladau ar gyfer storio seliwloid. | Adran 1 o Ddeddf Ffilm Seliwloid a Sinematograff 1922 (p.35). | Pennaeth Rheoleiddio |
| 42. Y ddyletswydd i orfodi a gweithredu Rheoliadau (G.E.) rhif 852/2004 yn ymwneud â gweithredwyr busnes bwyd fel y manylir ymhellach yn rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006. | Rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006. | Pennaeth Rheoleiddio. |

## C. Swyddogaethau sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| Swyddogaethau o dan unrhyw un o’r “darpariaethau statudol perthnasol” o fewn ystyr Rhan I (iechyd, diogelwch a lles mewn cysylltiad â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a.y.b. 1974, i’r graddau y mae’r swyddogaethau hynny’n cael eu cyflawni heblaw yn rhinwedd swyddogaeth yr awdurdod fel cyflogwr. | Rhan I o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 (p. 37). | Pennaeth Rheoleiddio |

## FF. Swyddogaethau amrywiol

| Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 10. Y pwerau mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur. | Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001 (p.3). | Pennaeth Rheoleiddio |

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Rhan 3 o'r Cyfansoddiad).**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| Dynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd y Cyngor | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 | |
| Adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd. | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 | |
| Llunio adroddiad a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno. | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. | |

# PWYLLGOR PENSIYNAU

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**
- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.**
- **Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

## SWYDDOGAETHAU NA ALL FOD YN GYFRIFOLDEB I'R WEITHREDIAETH

## F. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau a.y.b.

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1**.** Swyddogaeth sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol, a.y.b. | Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (p.11) | |
| 2. Swyddogaethau o dan Gynlluniau Pensiwn presennol mewn perthynas â phersonau a gyflogir gan awdurdodau tân ac achub yn unol ag Adran 1 Deddf Gwasanaethau tân ac Achub 2004 | Adrannau 34 a 36 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | |

# PWYLLGOR APELAU CYFLOGAETH

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.**

- **Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

## Swyddogaethau na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth.

## FF. Swyddogaethau Amrywiol

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd). | Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. | |

## Swyddogaethau o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011:

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,

(ch) lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(dd) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

**Swyddogaethau Eraill.**

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntion adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth.

# CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION

*Gwelir Strwythur Rheoli'r Cyngor yn Erthygl 12 ac yn Rhan 7 y Cyfansoddiad. Yno ceir amlinelliad cyffredinol o swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb y prif swyddogion ynghyd â manylion Swyddogion Statudol yr awdurdod. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys darpariaethau manylach ynglŷn â:*

- *y modd y dylai prif swyddogion weithredu eu pwerau dirprwyedig (para.2.)*
- *pwerau cyffredinol sydd wedi eu dirprwyo i bob prif swyddog (para.3)*
- *pwerau penodol sydd wedi eu dirprwyo i brif swyddogion unigol (para.4).*

*Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo gan y Cyngor Llawn a chan y Weithrediaeth.*

**1. Diffiniadau**

1.1 Yn y cynllun hwn golyga "prif swyddog" y Prif Weithredwr, unrhyw Gyfarwyddwr Corfforaethol neu unrhyw Bennaeth Adran, fel y mynna'r cyd-destun.

1.2 Mae unrhyw gyfeiriad at ddeddf yn y cynllun hwn yn cynnwys cyfeiriad at ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni ac unrhyw orchymyn neu ddeddfwriaeth eilradd a wnaed tani.

**2. Amodau a chyfyngiadau ar weithredu pwerau dirprwyedig**

2.1 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu ar ran y Cyngor yn unol â'r cynllun hwn mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn y gwasanaeth(au) y bo ef/hi yn gyfrifol amdanynt OND YN DDAROSTYNGEDIG i'r canlynol:-

2.1.1 y polisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor neu'r Cabinet;

2.1.2 unrhyw fater sydd wedi ei gadw i'r Cyngor, Cabinet, Pwyllgor neu is-bwyllgor neu sydd wedi ei ddirprwyo i Arweinydd;

2.1.3 Cyfansoddiad y Cyngor (gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau).

2.2 Lle byddai gweithredu pwerau dirprwyedig yn debygol o effeithio ar ragor nag un gwasanaeth rhaid i brif swyddog ymgynghori ag unrhyw brif swyddog arall y gellid effeithio ar y gwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano.

2.3 Heb ragfarn i'w bwerau/phwerau dirprwyedig neu rai'r Pwyllgor perthnasol, ac mewn achosion priodol yn unig, dylai bob prif swyddog wrth weithredu ei bwerau/phwerau:-

2.3.1 gadw cysylltiad agos gyda'r Cabinet ac, yn benodol, â'r aelodau hynny o'r Cabinet sydd yn gweithredu fel arweinyddion portffolio mewn meysydd perthnasol i'r pwnc dan sylw a hefyd roi sylw digonol i unrhyw sylwadau o eiddo'r pwyllgorau craffu perthnasol i'r mater dan sylw;

2.3.2 sicrhau ei b/fod yn ymgynghori â/neu gwybyddu'r aelod(au) lleol;

2.3.3 sicrhau ei b/fod yn ymgynghori â/neu'n gwybyddu'r Prif Weithredwr, fel pennaeth y gwasanaeth taledig, Prif Swyddog Cyllid y Cyngor a Swyddog Monitro'r Cyngor.

2.4 Cyn gweithredu unrhyw bŵer dirprwyedig dylai bob prif swyddog ystyried a yw'r penderfyniad sydd i'w wneud yn gyfryw fel y dylid ei gyfeirio i'r Cabinet, bwyllgor neu is-bwyllgor priodol i'w benderfynu.

2.5 Wrth benderfynu a ddylid cyfeirio mater i'r Cabinet, pwyllgor neu is-bwyllgor bydd prif swyddog yn rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol :-

2.5.1 fel arfer bydd penderfyniadau ar faterion technegol neu broffesiynol dydd i ddydd yn digwydd heb gyfeirio at aelodau;

2.5.2 rhaid ystyried barn yr aelod lleol, arweinydd portffolio a'r Prif Weithredwr; os bydd penderfyniad yn debyg o gael effaith sylweddol ar ddelwedd y Cyngor neu'n debyg o dderbyn sylw anffafriol yn y wasg bydd rhagdybiaeth o blaid ei gyfeirio at aelodau.

2.6 Bydd unrhyw swyddogaethau newydd a ddaw'n gyfrifoldeb i'r Cyngor yn cael eu cynnwys oddi fewn y cynllun hwn heb yr angen i'w ddiwygio gan y Cyngor llawn ac os cyfyd unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha brif swyddog sy'n derbyn y swyddogaeth newydd bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu.

## 3. Pwerau Cyffredinol

**Diogelu buddiannau'r cyngor.**

3.1 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu yn ôl yr angen (wedi ymgynghori gyda'r arweinydd portffolio perthnasol mewn achosion priodol) i gymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu buddiannau neu hybu busnes y Cyngor, ond yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau uchod

3.2 Heb ragfarn i gyffredinoldeb yr uchod mae hyn yn cynnwys gwneud pa bynnag benderfyniadau sydd o fewn ei gallu a'i b/farn broffesiynol er mwyn gweithredu polisïau'r Cyngor ac er mwyn darparu a rheoli'r gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt ar sail dydd i ddydd.

***Awdurdodi swyddogion***

3.3 Caiff unrhyw bwerau a roddir i brif swyddog eu gweithredu gan swyddog(ion) a awdurdodir ganddo/i boed yn ei absenoldeb neu yn unol â chyfarwyddiadau neu drefniadau cyffredinol a wneir gan y prif swyddog. Yn absenoldeb y prif swyddog caiff unrhyw swyddog a benodir ganddo/i i ddirprwyo drosto/i hefyd awdurdodi gweithredu'r pwerau dirprwyedig hynny. Er osgoi unrhyw amheuaeth gall awdurdod o'r fath ei roi i bersonau nad ydynt yn swyddogion o'r Cyngor.

3.4 Caiff pob prif swyddog awdurdodi ei staff i ymarfer pa bynnag bwerau i fynd ar neu archwilio unrhyw dir, adeiladau neu eiddo ac i roddi unrhyw dystiolaeth neu awdurdod a fo'n briodol ar gyfer gweithredu eu dyletswyddau ar gyfer y cyfryw y bo gan y Cyngor bwerau statudol.

3.5 Awdurdodir pob prif swyddog i benderfynu ar bresenoldeb gan swyddogion mewn cyfarfodydd allanol, seminarau neu gynadleddau nad ydynt ar y rhestr gymeradwy.

3.6 Awdurdodir pob prif swyddog i benodi neu enwebu swyddogion ar gyrff allanol, ac eithrio lle mae'r hawl wedi ei ddirprwyo i bwyllgor ardal.

3.7 Awdurdodir pob prif swyddog i gymeradwyo rhestr o lofnodwyr awdurdodedig.

***Gweithredu Brys***

3.8 Mewn perthynas â materion sydd wedi eu cadw i'r Cyngor, neu i bwyllgor neu is-bwyllgor caniateir i'r prif swyddog perthnasol weithredu, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd priodol a hefyd, yn ôl yr angen, â'r aelodau lleol ac arweinyddion y grwpiau gwleidyddol, rhwng cyfarfodydd os oes brys i wneud hynny, ar yr amod bod y gweithredu hynny yn cydymffurfio â pholisïau cyffredinol y Cyngor ac y rhoddir adroddiad o fanylion yr hyn a wnaed i gyfarfod priodol nesaf y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor.

***Materion Staffio.***

3.9 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Adnoddau Dynol, mewn perthynas â materion staffio gan gynnwys recriwtio, penodi, adolygu'r strwythur, caniatáu hicynnau ychwanegol o fewn graddfa swydd, rhoi honorariwm dros dro, disgyblu a diswyddo staff yn amodol ar unrhyw faterion sydd wedi eu cadw i'r Cyngor, neu'r Pwyllgor Adnoddau Dynol ac yn ddarostyngedig (mewn achosion o newid strwythur sy'n golygu gwyro arian o benawdau cyllidol eraill) i gydymffurfiaeth hefo'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac i dderbyn cymeradwyaeth yr Arweinydd Porffolio perthnasol i'r achos busnes.

***Caffael / gwaredu eiddo a nwyddau a materion yn ymwneud â chontractau***

3.10 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu mewn perthynas â chaffael a chontractau o fewn y gyllideb sydd wedi ei chymeradwyo ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

3.11 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu mewn cysylltiad â materion dan reolau sefydlog parthed contractau sy'n ymwneud â'i (h)adran, ble mae angen am atal y rheolau i ymestyn cytundebau, derbyn tendrau heb fod yn rhai isaf, a.y.b., o fewn canllawiau ariannol yn y rheoliadau sefydlog ariannol.

3.13 Awdurdodir pob prif swyddog i brynu eiddo sydd ei angen ar gyfer gwelliannau o fewn cyllideb yr adran (e.e. priffyrdd, lleiniau bychain yn unig).

3.14 Awdurdodi pob prif swyddog i ar werthu neu waredu lleiniau o dir a/neu adeiladau sy'n berchen i'r gwasanaeth yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelod(au) lleol ac ar delerau i'w cytuno gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol ac yn amodol ar y canlynol.

(a) lle gwerthir rhyddfraint, fod gwerth y tir yn llai na £25,000;
(b) lle gosodir y tir drwy bridles neu denantiaeth, bod y rhent blynyddol yn llai na £10,000.
(c) ym mhob achos os bydd yr aelod(au) lleol yn gwrthwynebu, cyfeirir y mater at y Weithrediaeth am benderfyniad.
(ch) nad yw'r gwerthiant neu warediad yn groes i Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

***Rheoli asedau***

3.15 Awdurdodir pob prif swyddog i werthu nwyddau sy'n weddill i anghenion, e.e. hen gyfrifiaduron, dodrefn, a.y.b.

3.16 Awdurdodir pob prif swyddog i reoli yr asedau, cerbydau, ac offer sy'n perthyn i'r gwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano. Mae hyn yn cynnwys rhoi caniatâd i unrhyw ddigwyddiad ar dir y Cyngor a gosod ystafelloedd mewn adeiladau y maent yn gyfrifol amdanynt am gyfnodau o 24 awr neu lai.

3.17 Awdurdodir pob prif swyddog i ddymchwel adeilad o eiddo'r gwasanaeth, os oes adnoddau i'w ariannu.

***Oriau agor***

3.18 Awdurdodid pob prif swyddog i bennu ac amrywio (ar ôl ystyried ffactorau defnydd, barn gyhoeddus a chyllid) oriau agor yr holl safleoedd sy'n perthyn i'r gwasanaeth).

***Materion Ariannol, Grantiau a Ffioedd.***

3.19 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu ar faterion ariannol yn unol â'r Rheolau Ariannol.

3.20 Awdurdodir pob prif swyddog i gymeradwyo ceisiadau am grantiau a wneir i'w (h)adran hyd at £5,000.

3.21 Awdurdodir pob prif swyddog, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Portffolio perthnasol, i osod ffi ar gyfer trwyddedau, ceisiadau, a.y.b., nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet, na phwyllgor canolog arall, yn amodol ar i'r Pennaeth Cyllid gadarnhau ymlaen llaw ei fod yn argyhoeddedig nad yw'r cynigion yn debyg o greu diffyg yng nghyfrifon y Gwasanaeth. (Gweler hefyd y Rheol Gweithdrefn Ariannol 20.12).

***Gwyro polisi gweithredol***

3.22 Awdurdodir pob prif swyddog i wyro oddi wrth bolisi gweithredol gwasanaeth (e.e. oriau agor Canolfan Hamdden dros y Nadolig; adeiladu gridiau gwartheg; mynwentydd).

***Cynlluniau drafft***

3.23 Awdurdodir pob prif swyddog i dderbyn cynlluniau drafft ar ôl asesiad gan y Pwyllgor Craffu priodol cyn mynd allan am gyfnod o ymgynghoriad. (Bydd y cynllun yn dod yn ôl i'r Cabinet wedyn).

***Ceisiadau am gefnogaeth***

3.24 Awdurdodir pob prif swyddog i ymateb i geisiadau am gymorth gan aelodau seneddol, aelodau cynulliad neu ryw ymgyrch genedlaethol lle mae'n amlwg bod yr ymgyrch yn gyson â pholisïau'r Cyngor.

## 4. Dirprwyo penodol

4.1 Dirprwyir y pwerau a'r dyletswyddau penodol canlynol i'r prif swyddog a enwir.

## 1. Y Prif Weithredwr

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

1.1 Gweithredu fel pennaeth y gwasanaeth taledig dan Adran 4 – Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

1.2 Goruchwylio y datblygiad polisi a threfniadau gwerth gorau yn gyffredinol.

1.3 Gweithredu dyletswyddau Clerc y Rhaglawiaeth.

1.4 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Digwyddiadau Sifil 2004 a hawliau cyffredinol i weithredu mewn argyfwng sifil
.

## 2. Pennaeth Adnoddau Dynol

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

2.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Amodau a thelerau gwaith
- Cysylltiadau diwydiannol
- Hyfforddi a datblygu staff
- Y drefn recriwtio a phenodi
- Cyfrifoldebau'r cyflogwr mewn perthynas â iechyd a diogelwch.

2.2 Bod yn swyddog priodol ar gyfer llofnodi ceisiadau am wiriad gyda'r Biwro Cofnodion Troseddol.

2.3 Penderfynu ar ran y cyflogwr ar gam 1 o unrhyw apêl dan drefn datrys anghydfod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

2.4 Penderfynu ar geisiadau ailraddio (i'w weithredu trwy'r gyfundrefn arfarnu swyddi).

## 3 Pennaeth Addysg.

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

3.1. Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Cefnogaeth ysgolion
- Anghenion addysg arbennig
- Gwasanaeth lles addysg
- Cefnogaeth llywodraethwyr
- Gwella ysgolion a safonau addysg
- Mynediad i ysgolion
- Cyflogaeth plant
- Cludiant ysgol
- Materion staffio ysgolion.
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

3.2 Gweithredu fel y Prif Swyddog Addysg.

3.3 Penderfynu ar ba ddyddiadau y bydd tymhorau a gwyliau ysgol yn dechrau a gorffen.

3.4 Ymyrryd i atal disgyblaeth rhag mynd ar chwâl mewn ysgol neu mewn achosion lle bo pryder am safonau neu reolaeth.

3.5 Penderfynu ar geisiadau gan riant sydd yn nodi ym mha ysgol y byddai'n well gan y rhiant weld addysg yn cael ei ddarparu i'w blentyn.

3.6 Penderfynu ar y trefniadau mynediad mewn ysgolion sirol a gwirfoddol.

3.7 Gweithredu pwerau'r Cyngor mewn perthynas â chyflogi plant.

3.8 Cymryd unrhyw gamau y gellir eu cymryd dan ddeddfwriaeth i wahardd personau oddi ar eiddo addysgol a chymryd camau i'w symud oddi yno yn ôl yr angen.

3.9 Gweithredu pwerau'r Cyngor i sicrhau presenoldeb disgyblion mewn ysgolion (gan gynnwys cymryd achos cyfreithiol lle'n briodol).

3.10 Penderfynu ar geisiadau am gludiant am ddim neu am ostyngiad pris i'r ysgol ac ymdrin â chytundebau cludiant ysgol.

3.11 Ystyried achosion unigol o ddisgyblion a waherddir o ysgolion a phenderfynu ar ymateb yr Awdurdod Addysg.

3.12 Atal hawl corff llywodraethu rhag cael cyllideb dirprwyedig mewn amgylchiadau y mae'r Ddeddf yn caniatáu.

3.13. Gweithredu ar unrhyw faterion staffio ysgolion lle mae'r penderfyniad yn perthyn i'r Awdurdod Addysg Lleol (yn hytrach na'r Corff Llywodraethol).

3.14. Gweithredu'r gyfundrefn Anghenion Addysg Arbennig lle nad yw penderfyniadau wedi eu dirprwyo i'r Cydbwyllgor Anghenion Addysg Arbennig

3.15. Penodi llywodraethwyr i gyrff llywodraethau ysgolion.

3.16 Dyrannu grantiau myfyrwyr

## 4. Pennaeth Cyllid

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

4.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Archwilio Mewnol
- Cyfrifeg
- Rheolaeth risg ac yswiriant
- Y gronfa bensiwn a'r cynllun pensiwn
- Rheolaeth trysorlys (gan gynnwys buddsoddiadau)
- Treth y Cyngor a threthi annomestig
- Budd-daliadau tai a threthi
- Taliadau
- Incwm a chredydwyr
- Cyflogau

4.2 Bod y swyddog priodol at bwrpas Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol l972 ac Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol l988.

4.3 Bod y swyddog priodol at ddibenion Adran 115 ac 146 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4.4 Hawl i lofnodi tystysgrif nad yw les neu gytundeb yn cynrychioli trefniadau credyd dan Adran 48 Deddf Llywodraeth Leol a Tai 1989.

4.5 Hawl i lofnodi tystysgrif fod contractau yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Cytundebau) 1997.

4.6 Enwebu swyddogion atal twyll budd-dal

4.7 Awdurdodi dileu dyledion hyd at y symiau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

4.8 Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

## 5, Pennaeth Darparu a Hamdden

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

5.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Gofal Cartref
- Gwasanaethau preswyl a dydd
- Arlwyo
- Glanhau
- Gofalwyr
- Canolfannau hamdden
- Datblygu chwaraeon.

5.2 Gweithredu fel y “person cyfrifol” at ddibenion Deddf Safonau Gofal 2000

## 6. Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

6.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Cyfreithiol
- Cwynion
- Etholiadau
- Argraffu
- Cyfieithu
- Cefnogi'r Cabinet
- Cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau
- Chwiliadau, pridiannau tir a thir comin.
- Cefnogi'r Crwner

6.2 I gychwyn, amddiffyn neu setlo achosion cyfreithiol (boed yn enw'r Cyngor neu yn enw swyddog penodol o'r Cyngor) dan y gyfraith gyffredin neu dan unrhyw ddeddfwriaeth, is-ddeddfwriaeth, orchymyn neu is-ddeddf a rydd swyddogaethau i'r Cyngor neu ynglŷn â swyddogaethau a ymgymerir ganddo ac i wneud apêl yn erbyn unrhyw ddyfarniad cyfreithiol. Er osgoi unrhyw amheuaeth mae'r awdurdod hwn yn cynnwys cymryd pob cam trefniadaethol gan gynnwys cyflwyno rhybuddion, statudol neu fel arall, gwrth-rybuddion a rhybuddion i ymadael.

6.3 I awdurdodi swyddogion y Cyngor i weithredu dan baragraff 4.16.3. yn yr un modd â hithau/ag yntau ac i erlyn neu amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol yn rhinwedd darpariaethau Adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall a fo mewn grym o bryd i'w gilydd. Rhaid i'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol gadw rhestr o bob awdurdod a roddir ganddi/o wrth weithredu ei b/phwerau dan yr is-baragraff hwn.

6.4 Bod yn swyddog priodol at ddibenion cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.

6.5 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Priodas 1994 a Deddf Partneriaeth Sifil 2004.

6.6 Gweithredu fel Swyddog Monitro'r Cyngor dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

6.7 Gweithredu fel Swyddog Priodol y Cyngor ac eithrio lle mae darpariaethau'r gyfraith, y cynllun hwn neu rannau eraill o'r Cyfansoddiad yn rhoi'r swyddogaeth i swyddog arall.

6.8 Awdurdod i lofnodi tystysgrifau ar gyfer Cofrestrfa Dir Ei Mawrhydi a chofrestru unrhyw bridiant tir ar ran y Cyngor.

6.9 Awdurdod i wneud gorchmynion dan Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847.

6.10 Awdurdod i osod sêl gyffredin y Cyngor ar ddogfennau yn dilyn penderfyniad dilys gan y Cyngor neu'r Cabinet, Pwyllgor, Arweinydd Portffolio neu swyddog yn gweithredu pwerau dirprwyedig, ac i awdurdodi swyddogion eraill i weithredu yn yr un modd.

6.11 Gweithredu holl bwerau'r Cyngor fel awdurdod cofrestru tir comin.

6.12 Awdurdod i roi tystysgrif ynglŷn â dyletswyddau gwleidyddol swydd dan adran 3 Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989.

6.13 Gweithredu ar adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 21 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

6.14 Mewn ymgynghoriad â’r pennaeth priodol awdurdodi taliadau mewn achosion o gamweinyddu dan Adran 92 Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu mewn achosion o gwynion dan Adran 34, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (ar yr amod yr ymgynghorir hefyd hefo Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn achos unrhyw daliad dros £10,000).

6.15 Rhoi barn fel person cymwys dan Adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

6.16 Gweithredu swyddogaethau ymddiriedolaethau.

6.17 Cynnal adolygiadau o geisiadau rhyddid gwybodaeth.

6.18 Penderfynu ar apeliadau cam 2 trefn datrys anghydfod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

6.19 Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

## 7. Pennaeth Economi a Chymuned

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

7.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Ewrop
- Amcan 1
- Rhaglenni adfywio
- Cwlwm gwledig
- Gwasanaethau busnes
- Marchnata
- Twristiaeth
- Comisiwn Digwyddiadau
- Comisiwn Ffilm
- Hyfforddiant Gwynedd
- Cymunedau'n Gyntaf
- Llwyddo'n lleol
- Grantiau adfywio
- Amgueddfeydd
- Archifdai
- Orielau
- Sinemâu a theatrau
- Celfyddydau
- Morwrol
- Neuaddau pentref
- Parciau gwledig
- Gwasanaethau ieuenctid.

7.2 Cymeradwyo grantiau hyd at uchafswm o £50,000 mewn unrhyw achos unigol gan ymgeisydd cymwys sydd a'i gartref neu fusnes wedi ei leoli o fewn terfyn Gwynedd.

7.3 Gosod unedau a thiroedd diwydiannol a chymryd camau i'w diogelu rhag meddiant anghyfreithlon ac i'w hadfeddiannu.

7.4 Cyflwyno rhybudd ymadael i denant uned neu dir diwydiannol a cheisio meddiant trwy'r llysoedd.

7.5 Caniatau disgownt rhent ar unedau a thiroedd diwydiannol.

7.6 Mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Portffolio hawl i bennu neu amrywio taliadau am fynediad i amgueddfeydd ac orielau'r Cyngor lle bo hynny'n briodol.

7.7 Awdurdod i wneud ceisiadau am arian grant o wahanol ffynonellau a gweithredu'r rhaglenni sy'n deillio o hynny.

7.8 Mewn ymgynghoriad â’r Arweinydd Portffolio dyrannu grantiau cymunedol yn unol â rhaglenni a gymeradwywyd gan Fwrdd y Cyngor o wahanol gronfeydd cymunedol.

7.9 Mewn ymgynghoriad â’r Arweinydd Portffolio penderfynu ar geisiadau am gymorth ariannol o Gronfa’r Degwm.

## 8 Pennaeth Gofal Cwsmer

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

8.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Technoleg Gwybodaeth
- Trawsnewid busnes
- Cyswllt cwsmer
- Rheoli Gwybodaeth
- Cynllun Rheoli Asedau Eiddo
- Swyddfeydd a derbynfeydd
- Cyfathrebu ac ymgynghori cyhoeddus
- Llyfrgelloedd
- Canolfannau Dysgu Gydol Oes
- Cynllunio argyfwng
- Gwasanaeth gwybodaeth plant a phobl ifanc.

8.2 Hawl lle nad ellir dod i delerau a'r tirfeddiannwr i brynu buddiant mewn tir o fewn chwe mis o gychwyn trafodaethau i brynu'r cyfryw drwy orchymyn prynu gorfodol yn amodol ar ddarpariaethau'r gyfraith.

8.3 Caniatau trwyddedau, hawddfreintiau a ffyrddfreintiau i, neu gan y Cyngor.

8.4 Mewn achosion priodol, talu iawndal dan Ddeddf Iawndal 1973, Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Deddf Landlord a Thenant 1954, neu unrhyw achos o ddadfeiliad neu hawliadau tenantiaid.

8.5 Negodi a thalu unrhyw hawliadau am iawndal a gyflwynir yn erbyn y Cyngor am ddifrod neu golledion a achoswyd gan waith a gyflawnwyd dan bwerau statudol y Cyngor.

8.6 Rhoi cydsyniad i denantiaid y Cyngor is-osod ac isbrydlesi.

8.7 Cyhoeddi rhybudd statudol am fwriad i gynnal adolygiadau rhent ar denantiaethau.

8.8 Cychwyn achos meddiant drwy'r Llysoedd yn erbyn unrhyw denant, drwyddedwr neu dresmaswr.

8.9 Cymeradwyo'r telerau ar gyfer prynu, gaffael, gwerthu neu waredu holl fuddiannau'r Cyngor mewn tir lle bo penderfyniad wedi ei wneud i brynu, gaffael, gwerthu neu waredu gan Fwrdd, Pwyllgor, Arweinydd neu Brif Swyddog yn gweithredu pwerau dirprwyedig.

8.10 Cymeradwyo telerau ac amodau, yn caniatáu adnewyddu prydlesau.

8.11 Cymeradwyo ymestyn cyfnod prydlesau sydd mewn bodolaeth.

8.12 Rhoi cydsyniad i aseinio prydles.

8.13 Amrywio neu hepgor codi prisiau a ffioedd mewn achosion unigol lle mae amgylchiadau'r mynnu hynny.

8.14 Gweithredu is-ddeddfau llyfrgelloedd.

## 9 Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

9.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Casglu sbwriel
- Ail-gylchu/gwaredu gwastraff
- Cyfleusterau Cyhoeddus
- Cynnal a chadw priffyrdd
- Fflyd y Cyngor
- Glanhau strydoedd
- Amlosgfa/gwasanaeth claddu
- Meysydd chwarae
- Cynnal tiroedd
- Teledu cylch cyfyng

9.2 Pŵer i gyhoeddi rhybuddion yn cau ffyrdd dros dro.

9.3 Pŵer i ymdrin ag unrhyw rwystrau ar briffyrdd gan gynnwys rhoi rhybuddion.

9.4 Pŵer i wneud unrhyw beth a fo'n angenrheidiol i reoli fflyd y Cyngor.

9.5 Pŵer i wneud cais am drwydded gweithredwr mewn perthynas â swyddogaethau gwastraff y Cyngor.

9.6 Y pŵer i weithredu hawliau gorfodaeth mewn perthynas â throseddau amgylcheddol sy'n codi dan unrhyw un o'r Deddfau a restrir isod (gan gynnwys camau a fo'n angenrheidiol i atal troseddu, addysgu a rhoi rhybuddion cosb penodedig:

- Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996
- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990
- Rheoliadau Symud a Chael Gwared a Cherbydau 1986
- Deddf Cael Gwared o Ysbwriel (Mwynder) 1978
- Deddf Amgylchedd a Chymdogaethau Glân 2005
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989

9.7 Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

## 10 Pennaeth Rheoleiddio.

*Yn y "<u>Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau</u>" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

10.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a nodir yn y Cynllun hwn neu'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau:-

- Rheolaeth Datblygu (Cynllunio)
- Gorfodaeth Cynllunio
- Polisi Cynllunio
- Cadwraeth
- Bioamrywiaeth
- Hawliau tramwy, mynediad a rheolaeth cefn gwlad.
- Cludiant cyhoeddus
- Gwelliant strydoedd
- Materion grant trafnidiaeth
- Gorfodaeth ffyrdd
- Diogelwch ffyrdd
- Goriad Gwyrdd Eryri
- Meysydd parcio
- Marchnadoedd a ffeiriau
- Trwyddedu
- Safonau Masnach,
- Iechyd Amgylcheddol

### 11 Cynllunio / Rheolaeth Datblygu

11.1 Ystyried, cynghori, adrodd a gweithredu ar bolisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a Phwyllgorau ar faterion cynllunio.

11.2 Sefydlu ac arwain fforymau a grwpiau i ystyried, cynghori, adrodd a gweithredu ar bolisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a'r Pwyllgorau ar faterion cynllunio.

11.3 Darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pridiannau tir lleol.

11.4 Cymryd rhan mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth cenedlaethol, rhanbarthol, proffesiynol ac eraill.

11.5 Rhoi sylwadau ar ddogfennau ymgynghorol parthed polisi cynllunio lle mae hyn yn cyd-fynd â pholisi'r Cyngor.

11.6 Pob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â chynllunio gwlad a thref ac fel sydd yn y Deddfau canlynol fel eu diwygiwyd ac yn cynnwys pob deddfwriaeth eilradd

- Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

- Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990;
- Deddfau Safleoedd Carafan a Rheoli Datblygu 1960 a 1968.
- Deddf yr Amgylchedd 1995;
- Deddf Cynllunio a Iawndal 1991;
- Deddf Gwarchod Moch Daear 1992
- Deddf Iawndal Tir 1961;
- Cyfarwyddyd Cynefinoedd 92/43/EEC a'r Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinedd Naturiol) 1994
- Deddf Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol 2003
- Deddf Cynllunio 2008
- Deddf Lleoliaeth 2011
- Deddf Heddlu a Thystiolaeth 1984

**Dirprwyir yr hawl i benderfynu ar unrhyw fater sydd angen penderfyniad o dan y deddfau uchod i'r Pennaeth Rheoleiddio ac eithrio'r canlynol, fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio.**

- Ceisiadau pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.

- Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau a staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.

- Ceisiadau y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm wrthynt

- Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd â chynhwysedd o 132KV neu fwy.

- Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad y swyddogion.

- Ceisiadau y mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.

- Ceisiadau am ddatblygiadau preswyl ar gyfer 5 annedd neu fwy.

- Ceisiadau am ddatblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu sydd dros 500 metr sgwâr.
- Ceisiadau am fwy na 5 carafán.
- Ceisiadau cyllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.

**12 Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Materion Trafnidiaeth.**

12.1 Dirprwyir i'r Pennaeth Rheoleiddio pob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â hawliau tramwy cyhoeddus ac fel sydd yn y Deddfau canlynol fel eu diwygiwyd ac yn cynnwys pob deddfwriaeth eilradd

Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847
Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad 1949;
Deddf Cefn Gwlad 1968;
Deddf Priffyrdd 1980;
Deddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981;
Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984;
Deddf Lwybrau Beics 1984;
Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;
Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glan 2005 (gorchmynion adwyo);
Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 - rhan 6
Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982
Deddf Llywodraeth Leol 2000

**Dirprwyir yr hawl i benderfynu ar bob cais am orchymyn a phenderfynu cadarnhau gorchmynion, o dan y deddfau uchod i'r Pennaeth Rheoleiddio ac eithrio'r canlynol, fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio.**

- Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau a staff cyfredol y Gwasanaeth Rheoleiddio
- Ceisiadau sydd ymwneud â thir sy'n eiddo i'r Cyngor.
- Penderfyniadau i gyflwyno i'r Cynulliad am gadarnhad, orchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 lle cafwyd gwrthwynebiad(au) sydd heb eu tynnu yn ôl.
- Ceisiadau y mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.
- Ceisiadau am orchmynion o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 pan fydd y Cynghorydd gyda'r gwyriad arfaethedig yn ei ward yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Pennaeth Rheoleiddio o fewn yr amserlen a sefydlwyd i gyfeirio y cais at y Pwyllgor. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr ymgynghori ar y cais.

12.2 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 a Deddf Rheoli Traffig 2004.

12.3 Pŵer i wneud cytundebau mynediad dros dir dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall.

12.4 Pŵer i gyhoeddi rhybuddion yn cau ffyrdd dros dro.

12.5 Pwerau i ymdrin ag unrhyw rwystrau ar briffyrdd gan gynnwys rhoi rhybuddion.

**13 Gwarchod y Cyhoedd.**

13.1 Gweithredu pwerau'r Cyngor mewn perthynas â gwrychoedd uchel dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

13.2 Awdurdod i benodi archwilwyr dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn Gwaith, a.y.b. 1974.

13.3 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan y deddfau a restrir yn **Atodiad 1** (ynghyd ag unrhyw ddeddfau eraill yn ymwneud a Gwarchod y Cyhoedd a ddaw yn gyfrifoldeb i'r Cyngor ac a gaiff eu hychwanegu at y rhestr yn Atodiad 1).

14 **Trwyddedu.**

14.1 Gweithredu pwerau'r Cyngor o dan **Ddeddf Trwyddedu 2003** yn unol â'r cynllun dirprwyo ym Mholisi Trwyddedu y Cyngor, sydd wedi ei atgynhyrchu isod.

**Dirprwyo o dan Ddeddf Trwyddedu 2003**

| Yr hyn sydd dan sylw | Pwyllgor Llawn | Is-bwyllgor | Pennaeth Rheoleiddio |
|---|---|---|---|
| Cais am Drwydded Bersonol | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu. | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais am drwydded personol gyda chollfarnau heb ddarfod | | Ymhob achos | |
| Cais am Drwydded Eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais am Ddatganiad Darpariaethol | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais i amrywio Trwydded Eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais i amrywio trwyddedwr personol dynodedig | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | Ymhob achos arall |
| Cais i dynnu yn ôl fel trwyddedwr personol dynodedig | | | Ymhob achos |
| Cais am drwydded i drosglwyddo eiddo | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | Ymhob achos arall |
| Cais am Awdurdod Dros Dro | | Os bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | Ymhob achos arall |
| Cais i Adolygu Trwydded Eiddo/ tystysgrif eiddo clwb | | Ym mhob achos. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Penderfynu os yw cwyn yn amherthnasol, disylwedd neu o natur flinderus | | | Ym mhob achos |
| Penderfynu gwrthwynebu pan fydd ymgynghori gyda'r awdurdod lleol yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn arwain | | | Ym mhob achos |
| Penderfynu ynglŷn â sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu ynglŷn â rhybudd digwyddiad dros dro | | Ym mhob achos | |

14.2 Gweithredu pwerau'r Cyngor o dan Ddeddf Gamblo 2005 yn unol â'r cynllun dirprwyo ym Mholisi Trwyddedu y Cyngor, sydd wedi ei atgynhyrchu isod.

**Dirprwyo o dan Ddeddf Gamblo 2005**

| Y mater i'w drafod | Cyngor Llawn | Is bwyllgor neu banel | Pennaeth Rheoleiddio |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod Ffioedd – pan yn addas | | Pwyllgor Llawn | |
| Cais am drwydded eiddo | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn | Pan na dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn |
| Cais am drwydded dros dro | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |

| **Y mater i'w drafod** | **Cyngor Llawn** | **Is bwyllgor neu banel** | **Pennaeth Rheoleiddio** |
|---|---|---|---|
| Cais am hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Diddymi hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfyniad i gyflwyno gwrth hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw person yn Barti â Diddordeb | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n berthnasol | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus | | | X |

14.3 Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes **trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hur preifat** ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

(a) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.
(b) Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.
(c) Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.

15. Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

**ATODIAD 1**

| **DEDDFWRIAETH.** |
|---|
| Deddf Adeiladu 1984 |
| Deddf Aer Glân 1993 |
| Deddf Amaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1972 |
| Deddf Amaeth 1970 |
| Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 |
| Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 |
| Deddf Arbed Ynni 1981 |
| Deddf Arwerthiannau Ffug 1961 |
| Deddf Atal Difrod gan Bla 1949 |
| Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 |
| Deddf Bridio Cŵn 1973 |
| Deddf Bridio Cŵn 1991 |
| Deddf Broceri Yswiriant (Cofrestru) 1977 |
| Deddf Bwyd 1984 |
| Deddf Cael Gwared â Sbwriel (Mwynder) 1978 |
| Deddf Cam-ddisgrifio Eiddo 1991 |
| Deddf Cancr 1939 |
| Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ |
| Deddf Cemegau Fferm a Gardd 1967 |
| Deddf Cerbydau Modur (Offer Diogelu i Blant) 1991 |
| Deddf Cludiant 1985 |
| Deddf Cofrestru Tir Comin 1965 |
| Deddf Credyd y Prynwr 1974 |
| Deddf Cwmnïau 2006 |
| Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 |
| Deddf Cŵn Peryglus 1991 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 |
| Deddf Cyfnod-rannu 1992 |
| Deddf Cyfreithwyr 1974 |
| Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847 |
| Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005 |
| Deddf Cymunedau Ewrop 1972 |
| Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 |
| Deddf Difyrion Loterïau (Diwygiedig) 1976 |
| Deddf Dilysnodi 1973 |
| Deddf Diogelwch Bwyd 1990 |
| Deddf Diogelwch Meysydd Chwarae 1975 |
| Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Llefydd Chwaraeon 1987 |

| **DEDDFWRIAETH.** |
|---|
| Deddf Diogelwch yn y Cartref 1961 |
| Deddf Disgrifiadau Masnachol 1968 |
| Deddf Diwydiant Dŵr 1991 |
| Deddf Diwygio Addysg 1988 |
| Deddf Ffrwydron (Oed Pryniant) 1976 |
| Deddf Ffug Arwerthiannau 1961 |
| Deddf Ffugio a Drwgfathu 1981 |
| Deddf Gamblo 1968 |
| Deddf Gamblo 2005 |
| Deddf Cludiant 1985 |
| Deddf Gwarchod Bwyd a'r Amgylchedd 1985 |
| Deddf Gwarchod Plant (Tybaco) 1986 |
| Deddf Gwarchod y Prynwr 1987 |
| Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. |
| Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1970 |
| Deddf Gwenwyn 1972 |
| Deddf Gwerthwyr Metal Sgrap 1964 |
| Deddf Gwerthwyr Stadau 1979 |
| Deddf Gwlân Stwffio a Defnyddiau Eraill 1951 |
| Deddf Gwybodaeth Amgylchedd a Diogelwch 1988 |
| Deddf Hawlfraint, Cynllun a Patentau 1988 fel y newidiwyd gan Ddeddf Darlledu 1990 |
| Deddf Heddlu, Ffatrïoedd ac ati (Amryfal Ddarpariaethau) 1916 |
| Deddf Hyrwyddo a Hysbysebu Tybaco 2002 |
| Deddf Iechyd 2006 |
| Deddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith ac ati 1974 |
| Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 |
| Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Haint) 1984 |
| Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 |
| Deddf Iechyd Cyhoeddus 1961 (Adran 73) |
| Deddf Lladd-dai 1974 |
| Deddf Lles Anifeiliaid 2006 |
| Deddf Llongau Masnach 1979 |
| Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 |
| Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 |
| Deddf Llywodraeth Leol 1972 |
| Deddf Llywodraeth Leol 1992 |
| Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 |
| Deddf Loterïau a Difyrion 1976 |
| Deddf Mandiroedd a Rhanddaliadau 1908-1950 |
| Deddf Masnachu ar y Sul 1994 |
| Deddf Masnachu Teg 1973 |
| Deddf Meddyginiaeth 1968 |
| Deddf Menter 2002 |
| Deddf Nodau Masnach 1994 |

| **DEDDFWRIAETH.** |
|---|
| Deddf Nwyddau a Gwasanaethau nas Archebwyd 1971 a 1975 |
| Deddf Petrolewm (Cydgrynhoi) 1928 |
| Deddf Petrolewm (Trosglwyddo Trwyddedau) 1936 |
| Deddf Plant a Phobl Ifanc (Diogelwch Rhag Dobacco) 1991 |
| Deddf Rheoli Llygredd 1974 |
| Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989 |
| Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 |
| Deddf Sefydliadau Iechyd Anifeiliaid 1963 |
| Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 |
| Deddf Siopau 1950 |
| Deddf Stampiau Masnachol 1964 |
| Deddf Sŵn 1996 |
| Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 |
| Deddf Sŵn Beiciau Modur 1987 |
| Deddf (Gwarchod) y Symbol Olympaidd 1995 |
| Deddf Tai 1996 a 2004 |
| Deddf Tân Gwyllt 1951, 1964 a 2003 |
| Deddf Telathrebu 1984 |
| Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988 a 1991 |
| Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd (Darpariaethau ôl-ddilynol)1988 |
| Deddf Troseddwyr Trafnidiaeth Ffordd 1988 |
| Deddf Troseddwyr Trafnidiaeth y Ffyrdd (Cerbydau Tramor) 1972 |
| Deddf Trwyddedu 2003 |
| Deddf Trwyddedau Helwriaeth 1860 |
| Deddf Twyll 2006 |
| Deddf Whisgi Albanaidd 1988 |
| Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 |
| Deddf Ynni 1976 |
| Deddf Trwyddedu 2003 |
| Deddf Trwyddedau Helwriaeth 1860 |
| Deddf Twyll 2006 |
| Deddf Whisgi Albanaidd 1988 |
| Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 |
| Deddf Ynni 1976 |
| Deddf yr Amgylchedd 1995 |
| Deddfau Cynnyrch Amaethyddol (Graddoli a Marcio) 1928 a 1931 |
| Deddfau Cynrychiolaeth Fasnachol (Y Methedig) 1958 a 1972 |
| Deddfau Dwyn 1968 a 1978 |
| Deddfau Ffrwydron 1875 a 1923 |
| Deddfau Prisiau 1974 a 1975 |
| Deddfau Pwysau a Mesurau 1985 |
| Deddfau Recordiau Fideo 1984 a 1993 |
| Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992 |
| Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd 2000 |
| Rheoliadau Caniatau Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010 |
| Rheoliadau Deddfau Iechyd Cyhoeddus (Awyrennau) 1979 |

| **DEDDFWRIAETH.** |
|---|
| Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) 2009 |
| Rheoliadau Eiddo Difwg, a.y.b. (Cymru) 2007 |
| Rheoliadau Iechyd Bwyd (Glendid Cyffredinol Bwyd) 1995 |
| Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus (Atal y Ticiau) 1925 |
| Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus (Llongau) 1979 |
| Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus (Pysgod Cregyn) 1934 |
| Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Tystysgrifau ac Archwiliadau) (Lloegr a Chymru) 2007 (fel y’i diwygiwyd). |
| Rheoliadau Symud a Chael Gwared â Cherbydau 1986 |
| Rheoliadau Symud Gwastraff 1967 |
| Rheoliadau TSE (Cymru) 2002 |
| Rheoliadau Cyflenwad Dŵr Preifat (Cymru) 2010. |
| Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd (Cymru) 2004 |
| Rheoliadau Is-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003 |
| Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1998 |
| Rheoliadau Lladd Disgynyddion BSE 1998 |
| Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998 |
| Rheoliadau Bas-data Gwartheg 1998 |
| Rheoliadau Bwyd cyffredinol 2004 |
| Rheoliadau Hylendid Bwyd (Lloegr, G.I., Cymru, Alban, a.y.b.), 2005 |

## 15 Pennaeth Strategol a Gwella.

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

15.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol :-

- Rhaglen Wella
- Blaenoriaethau.
- Trosolwg polisi
- Cynllun cymunedol.
- Caffael
- Craffu
- Ymchwil
- Diogelwch Cymunedol
- Gwasanaeth democrataidd.

15.2 Yr hawl i roi caniatâd dan Adran 30 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (y defnydd o orchmynion gwasgaru).

15.3 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mewn perthynas â phenodi aelodau i wasanaethu ar bwyllgorau.

## 16 Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

16.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Henoed
- Iechyd Meddwl
- Anableddau corfforol
- Anableddau dysgu
- Plant
- Uned Hawliau Llês
- Tîm Troseddwyr Ifanc.

16.2 Gweithredu fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

16.3 Gweithredu pwerau dan yr holl Ddeddfau a restrir yn Atodlen 1 Deddf Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol) 1970.

16.4 Gweithredu pwerau adran 47 Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948.

16.5 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Digartrefedd
- Gorfodaeth tai preifat
- Grantiau tai ac adnewyddu

16.6 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â digartrefedd yn unol â Rhan 8 - Deddf Tai 1996.

16.7 Caniatau gwerthiannau cyn dai Cyngor i bobl sy'n cwrdd ar amodau statudol a derbyn neu wrthod cynnig i brynu yn ôl cyn dŷ Cyngor dan Adran 157 Deddf Tai 1985.

16.8 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â thai anaddas dan Ddeddf Tai 1985 a Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

16.9 Gweithredu pwerau'r Cyngor i gyflwyno rhybuddio a chymryd camau gorfodaeth mewn perthynas â thai aml-anedd.

16.10 Gweithredu pwerau gorfodaeth yn y sector tai preifat.

16.11 Cymeradwyo neu wrthod a gweinyddu ceisiadau am grantiau dan y Ddeddf Grantiau Tai Adeiladu ac Adnewyddu 1996.

16.12 Gweithredu cynllun disgownt trosglwyddadwy.

16.13 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â draeniad, cyflenwad dŵr a materion iechyd amgylcheddol eraill dan Ddeddf Rheoliadau Adeiladu 1984 a niwsans dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

16.14 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor dan Ddeddf Tai 2004.

16.15 Cyflwyno rhybuddion eiddo dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.

## 17 Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

17.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Asesiadau amgylcheddol
- Paratoi, rheoli a goruchwylio contractau gwaith ffyrdd
- Rheolaeth adeiladu
- Asesiadau traffig
- Arolygon, archwiliadau a phrofion technegol
- Amddiffyn yr arfordir
- Dylunio a chynnal a chadw adeiladau.

17.2 Gweithredu holl swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â rheolaeth adeiladu boed dan Ddeddf Adeiladu 1984 neu arall.

## 18 Rheolwr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru.

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw’r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

18.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd, o fewn y cynllun, a dan gyfarwyddyd y Cabinet Asiantaeth i gyflawni swyddogaethau Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru.

18.2 Penodi swyddogion traffig dan adran 2 Deddf Rheoli Traffig 2004.

**RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR**

**CYNNWYS**

**Diffiniadau**

1. **Cyfarfod Blynyddol y Cyngor**
2. **Cyfarfodydd Cyffredin y Cyngor**
3. **Cyfarfodydd Arbennig y Cyngor**
4. **Cyfarfodydd Arbennig Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau.**
5. **Penodi Aelodau Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau**
6. **Amser a Lle Cyfarfodydd**
7. **Rhybudd a Gwŷs i Gyfarfodydd**
8. **Trefn Busnes – Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau**
9. **Cadeirio Cyfarfod o'r Cyngor**
10. **Cadeirio Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau**
11. **Cworwm**
12. **Busnes Blaenoriaeth yr Wrthblaid**
13. **Cyflwyno Deisebau**
14. **Cwestiynau Gan y Cyhoedd (Cyfarfodydd y Cyngor)**
15. **Cwestiynau gan Aelodau**
16. **Trafodaeth ar Bwnc Penodol (Cyfarfodydd y Cyngor)**
17. **Cynigion y Rhoddir Rhybudd yn eu Cylch**
18. **Cynigion Heb Rybudd**
19. **Hawliau Siarad mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau**
20. **Rheolau Trafod**
21. **Penderfyniadau a Chynigion Blaenorol**
22. **Pleidleisio**
23. **Cofnodion**
24. **Cofnod Presenoldeb**
25. **Gwahardd y Cyhoedd**
26. **Ymddygiad Aelodau**
27. **Aflonyddwch gan y Cyhoedd**
28. **Atal a Diwygio Rheolau Gweithdrefn y Cyngor**
29. **Dehongliad**
30. **Papurau a Chyngor**
31. **Cynhwysiad i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau**

**Diffiniadau.**

(1) Yn y rheolau gweithdrefn hyn, oni bo'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, mae i'r termau a ganlyn yr ystyr a roddir iddynt:

| | |
|---|---|
| **"Deddf 1972" -** | Deddf Llywodraeth Leol 1972; |
| **"Deddf 1989"** - | Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; |
| **"Deddf 1994" -** | Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994; |
| **"Deddf 2000"** - | Deddf Llywodraeth Leol 2000; |
| **"Cyngor" -** | Cyngor Gwynedd yn gweithredu trwy unrhyw ddull y caniateir iddo yn gyfreithlon ei fabwysiadu; |
| **"pwyllgor" -** | pwyllgor o'r Cyngor ond nid yn cynnwys pwyllgor ymgynghorol neu gydbwyllgor. |
| **"is-bwyllgor" -** | is-bwyllgor i bwyllgor. |
| **"cyfarfod" -** | cyfarfod o'r Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor fel y bo'n briodol; |
| **"person sy'n llywyddu" -** | y person sydd â hawl, neu a benodir, i lywyddu mewn unrhyw gyfarfod; |
| **"aelod" -** | mewn perthynas â'r Cyngor, aelod o'r Cyngor; mewn perthynas ag unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor, person a benodir yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw, boed ganddo/ganddi hawl i bleidleisio ai peidio; |
| **"holl nifer yr aelodau"-** | mewn perthynas â'r Cyngor, cyfanswm nifer y personau a gaiff fod yn aelodau o'r Cyngor, heb gyfrif unrhyw berson sy'n aelod o'r Cyngor dim ond dan adran 22(3) neu adran 24(2), Deddf 1972 fel y'i diwygiwyd dan Ddeddf 1994 (cadeirydd ac is-gadeirydd i barhau'n aelodau nes cymerir eu lle); |
| **"nifer yr aelodau" -** | mewn perthynas â'r Cyngor, nifer y personau y caniateir iddynt weithredu ar yr adeg dan sylw fel aelodau o'r Cyngor, ac, mewn perthynas â phwyllgor neu is-bwyllgor, nifer y personau y caniateir iddynt weithredu ar yr adeg dan sylw fel aelodau pleidleisiol o'r corff hwnnw; |

| | |
|---|---|
| **"grŵp gwleidyddol" -** | grŵp gwleidyddol fel y'i diffinnir yn Rheoliadau (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) Llywodraeth Leol 1990 Rhif 1553 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diwygio); |
| **"grŵp mwyafrifol" -** | grŵp gwleidyddol y perthyn iddo naill ai:-<br>(i) mwy na hanner aelodau'r cyngor; neu<br>(ii) union hanner nifer aelodau'r cyngor gan gynnwys cadeirydd y cyngor; |
| **"grŵp lleiafrifol" -** | grŵp gwleidyddol sydd,<br>(i) heb fod y grŵp mwyafrifol ac;<br>(ii) wedi'i ddynodi felly gan benderfyniad o eiddo'r Cyngor; |
| **"arweinydd grŵp gwleidyddol" -** | arweinydd grŵp gwleidyddol fel y'i diffinnir yn Rheoliadau (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) Llywodraeth Leol 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diwygio); |
| **"arweinydd y Cyngor" -** | y person a ddynodir gan y Cyngor trwy benderfyniad; |
| **"arweinydd y portffolio" -** | arweinydd y portffolio perthnasol fel y dynodwyd gan Arweinydd y Cyngor. |
| **"gweithiwr" -** | gweithiwr cyflogedig gan y Cyngor neu ddeiliad swydd lle telir cyflog gan y Cyngor ar wahân i'r cadeirydd, yr is-gadeirydd ac unrhyw swyddog lleol o urddas a benodir gan y Cyngor dan bwerau a roddir gan siarter frenhinol. |
| **"prif swyddog"-** | prif swyddog statudol neu anstatudol fel y'i diffinnir yn adran 2, Deddf 1989; |
| **"pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod" -** | y person a ddynodir felly dan adran 4, Deddf 1989. |
| **"swyddog monitro" -** | y person a ddynodir dan adran 5, Deddf 1989 (dynodiad ac adroddiadau swyddog monitro) neu, os yw'r person hwnnw'n methu â gweithredu oherwydd absenoldeb, salwch neu reswm da arall, y person a enwebir fel dirprwy iddo/iddi dan isadran (7) o'r adran honno; |

**"prif swyddog cyllid"-** y person a ddynodir dan adran 151, Deddf 1972 (dynodi swyddog i fod yn gyfrifol am weinyddu materion cyllid y Cyngor) neu, os yw'r person hwnnw'n methu â gweithredu oherwydd absenoldeb, salwch neu reswm da arall, y person a enwebir fel dirprwy iddo/iddi dan adran 114(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

**"swyddog priodol" -** y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac eithrio mewn perthynas â gwysiau i gyfarfodydd y Cyngor, pan mae'r Prif Weithredwr fydd y swyddog priodol.

**"heb sylw" -** mewn perthynas â chynnig, eilio neu roi cynnig gerbron, heb i neb siarad heblaw i nodi geiriad y cynnig, y ffaith ei fod yn cael ei gynnig, ei eilio neu ei roi gerbron, neu (yn achos y sawl sy'n llywyddu) effaith mabwysiadu'r cynnig.

(2) Oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, mae'r unigol yn cynnwys y lluosog a'r lluosog yn cynnwys yr unigol ac y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd a'r benywaidd y gwrywaidd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw reol gweithdrefn at baragraff wedi'i rifo, oni bo'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheol gweithdrefn honno sy'n dwyn y rhif hwnnw.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw reol gweithdrefn at "ddiwrnod" neu "ddiwrnodau" yn golygu dyddiau gwaith y cyngor ac nid yw yn cynnwys y diwrnod y rhoddir y rhybudd nac ychwaith y diwrnod y cynhelir y cyfarfod mae'r rhybudd yn ymwneud ag ef.

## 1. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

### (1) Amseru a Busnes

Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis cynghorwyr, cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 o ddyddiau yn dilyn ymddiswyddiad y cynghorwyr sy'n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ym Mawrth, Ebrill neu Fai.

Bydd y cyfarfod blynyddol yn:

(i) ethol person i lywyddu os nad yw cadeirydd y Cyngor yn bresennol;
(ii) ethol cadeirydd y Cyngor;
(iii) ethol is-gadeirydd y Cyngor;
(iv) cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;
(v) derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth y cadeirydd, a/neu bennaeth y gwasanaeth taledig;
(vi) ethol Arweinydd;
(vii) clywed gan yr Arweinydd enwau'r cynghorwyr y mae ef/hi wedi eu dewis i fod yn aelodau o'r Cabinet
(viii) penodi o leiaf un Pwyllgor Craffu; Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Archwilio, a pha bwyllgorau bynnag arall y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n briodol i ymdrin â materion nad ydynt naill ai yn cael eu cadw i'r Cyngor nac yn swyddogaethau'r gweithredol (fel y cyflwynir yn Rhan 3 Tabl 3 y Cyfansoddiad hwn);
(ix) cytuno ar ba ran bynnag o'r cynllun dirprwyo y mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu arno (fel y cyflwynir ef yn Rhan 3 o'r cyfansoddiad hwn).
(x) cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd arferol y Cyngor am y flwyddyn; ac
(xi) ystyried unrhyw fusnes a gyflwynir yn yr hysbysiad sy'n galw'r cyfarfod.

### (2) Dewis Cynghorwyr ar Bwyllgorau a Chyrff Allanol

Yn y cyfarfod blynyddol bydd cyfarfod y cyngor yn:

(i) penderfynu pa bwyllgorau i'w sefydlu am flwyddyn y Cyngor;
(ii) penderfynu ar faint ac amodau gorchwyl y pwyllgorau hynny;
(iii) penderfynu ar ddosraniad y seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau ynghylch cydbwysedd gwleidyddol;
(iv) penderfynu ar ddosraniad seddau i gyrff allanol lle bo rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol.

## 2. CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR

(1) Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn unol â'r rhaglen a benderfynwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Bydd cyfarfodydd cyffredin yn:

(i) ethol rhywun i lywyddu os nad yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn bresennol;
(ii) cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;
(iii) derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb oddi wrth aelodau;
(iv) derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth y cadeirydd, Arweinydd, aelodau'r Cabinet neu bennaeth y gwasanaeth taledig;
(v) derbyn cwestiynau oddi wrth a darparu atebion i'r cyhoedd mewn perthynas â materion sydd ym marn y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod yn berthnasol i fusnes y cyfarfod;
(vi) ymdrin ag unrhyw fusnes o gyfarfod diwethaf y Cyngor;
(vii) derbyn adroddiadau oddi wrth y weithrediaeth a phwyllgorau'r Cyngor, a derbyn cwestiynau ac atebion ar unrhyw rai o'r adroddiadau hynny;
(viii) derbyn adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan bob aelod o'r Cabinet yn eu tro (ar yr amod na chyflwynir mwy na 3 adroddiad o'r fath mewn unrhyw gyfarfod) a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiadau hyn;
(ix) unwaith y flwyddyn, derbyn adroddiad gan Arweinydd y cyngor a chynnal trafodaeth ar ei gynnwys;
(x) derbyn adroddiadau am a derbyn cwestiynau ac atebion ynghylch y busnes o drefniadau ar y cyd a chyrff allanol;
(xi) ystyried cynigion;
(xii) cynnal trafodaeth ar bwnc penodol a ddewiswyd gan aelod(au) yn unol â Rheol 16
(xiii) ystyried unrhyw fater arall a nodwyd yn y wŷs i'r cyfarfod, gan gynnwys ystyried argymhellion oddi wrth y Weithrediaeth mewn perthynas â chyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor ac adroddiadau'r pwyllgorau craffu i'w trafod.

## 3. CYFARFODYDD ARBENNIG Y CYNGOR

### Galw cyfarfodydd arbennig

(1) Gall y rhai hynny a restrir isod ofyn i'r swyddog priodol alw cyfarfodydd y Cyngor yn ychwanegol at gyfarfodydd arferol;

(i) y Cyngor drwy benderfyniad;
(ii) Cadeirydd y Cyngor
(iii) y Prif Weithredwr
(iv) y Swyddog Monitro; a
(v) unrhyw bum aelod o'r Cyngor os ydynt wedi arwyddo cais a gyflwynwyd i gadeirydd y Cyngor a'i fod ef/hi wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu â galw cyfarfod o fewn saith niwrnod o gyflwyno'r cais.

(2) Os bydd unrhyw un yn penderfynu galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor, rhaid iddo/iddi hysbysu'r swyddog priodol ei fod/bod wedi gwneud hynny, pa fusnes sydd i'w drafod a'r dyddiad a'r amser y gelwir y cyfryw gyfarfod. Wedyn rhaid i'r swyddog priodol sicrhau y cyhoeddir ac yr anfonir yr hysbysiadau a'r gwysiau sy'n ofynnol gan baragraff 4(2), Atodlen 12 i Ddeddf 1972 i bob aelod o'r Cyngor ac i bawb sydd â hawl i dderbyn y papurau.

(3) Gall unrhyw gais dan baragraff (2) gael ei gyflwyno drwy ei adael gyda'r swyddog priodol.

## 4. CYFARFODYDD ARBENNIG PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

**Galw cyfarfodydd arbennig.**

(1) Gall y rhai hynny a restrir isod ofyn i'r swyddog priodol alw cyfarfodydd o bwyllgorau neu is-bwyllgorau yn ychwanegol at gyfarfodydd arferol:-
(i) unrhyw dri neu chwarter cyfanrif aelodau pleidleisiol pwyllgor (pa un bynnag sydd fwyaf) os ydynt wedi arwyddo cais a gyflwynwyd i gadeirydd y pwyllgor neu is-bwyllgor, a'i fod ef/hi wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu â galw cyfarfod o fewn saith diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais.

(2) Os bydd unrhyw un yn penderfynu galw cyfarfod arbennig o bwyllgor neu is-bwyllgor, rhaid iddo/iddi roi rhybudd yn ddi-oed ei fod/bod wedi gwneud hynny i'r swyddog priodol, gan nodi pa fusnes y bwriedir ei drafod; a rhaid i'r swyddog priodol roi rhybudd yn ddi-oed i holl aelodau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor a phawb sydd â hawl i dderbyn eu papurau.

(3) Caniateir cyflwyno unrhyw gais dan baragraff (2) trwy ei adael gyda'r swyddog priodol.

## 5. PENODI AELODAU (AC EILYDDION) PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) Pryd bynnag

(i) y mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu dyraniad seddau ar bwyllgorau rhwng grwpiau gwleidyddol, neu
(ii) penderfyna'r Cyngor wneud adolygiad o'r fath, neu
(iii) y mae'n ofynnol i bwyllgor adolygu dyraniad seddau ar is-bwyllgor rhwng grwpiau gwleidyddol, neu
(iv) y penderfyna pwyllgor wneud adolygiad o'r fath,

rhaid i'r swyddog priodol gyflwyno adroddiad i'r Cyngor neu'r pwyllgor (fel y bo'n briodol) i ddangos pa ddyraniad o seddau a fyddai yn ei farn/barn ef/hi yn ymateb orau i ofynion adran 15(4), Deddf 1989.

(2) Yng ngoleuni adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor neu'r pwyllgor, fel y bo'n briodol, bennu dyraniad y seddau i grwpiau gwleidyddol.

(3) Pryd bynnag y bo angen ethol aelod pleidleisiol o bwyllgor neu is-bwyllgor yn unol â dymuniadau grŵp gwleidyddol y dyrannwyd y sedd iddo, a phryd bynnag y mae angen terfynu penodiad yn unol â'r dymuniadau hynny, yna mae'n rhaid i'r swyddog priodol wneud y penodiad neu ei derfynu yn unol â hynny wedi derbyn cais ysgrifenedig gan neu ar ran y grŵp gwleidyddol.

(4) Gall y Cyngor benodi un aelod o bob Grŵp Gwleidyddol a gynrychiolir ar y Pwyllgor Cynllunio i weithredu fel eilydd ar y pwyllgor hwnnw. Ceir manylion o hawliau eilydd yn Rheol 19.

## 6. AMSER A LLE CYFARFODYDD

(1) Penderfynir ar amser a lle cyfarfodydd gan y swyddog priodol a nodir hynny yn y wŷs.

## 7. RHYBUDD A GWŶS I GYFARFODYDD

(1) Bydd y swyddog priodol yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd am amser a lle unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau. O leiaf pum diwrnod clir cyn y cyfarfod, bydd y swyddog priodol yn anfon gwŷs wedi ei harwyddo ganddo ef neu ganddi hi i bob aelod o'r Cyngor fel a gytunwyd gyda'r aelod neu yn ei gadael yn eu trigfan arferol. Bydd yr wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lle pob cyfarfod ac yn nodi'r busnes i'w gyflawni, ac amgaeir pa adroddiadau bynnag sydd ar gael yr un pryd yn ogystal.

## 8. TREFN BUSNES – PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) Os bydd y sawl sy'n llywyddu mewn cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor, fel y bo'n briodol, yn caniatáu trafod eitem o fusnes nad yw wedi ei chynnwys ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod, oherwydd bod brys, dylai nodi hynny ar ddechrau'r cyfarfod a bydd yr eitem yn cael ei chymryd yn unol â chyfarwyddyd y sawl sy'n llywyddu.

(2) Yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y sawl a benodwyd i lywyddu yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, rhaid trefnu'r eitemau busnes yn y drefn sydd orau ym marn y swyddog priodol i sicrhau yr ymdrinnir â'r busnes yn effeithiol.

(3) Mewn perthynas â phob cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor, rhaid i'r swyddog priodol gysylltu â'r sawl a benodwyd i lywyddu yn y cyfarfod er sefydlu a yw'n dymuno cynnal unrhyw o'r ddau gyfarfod isod sef:-

(i) cyfarfod cydrhyngddo/i a'r sawl a benodwyd i lywyddu yn y cyfarfod yn ei absenoldeb, y prif swyddogion a nodir ganddo/i a'r swyddog priodol, er mwyn penderfynu ar gynnwys rhaglen y cyfarfod a/neu
(ii) cyfarfod gyda'r bobl a enwyd uchod er cael eu briffio'n derfynol ar gyfer y cyfarfod.

## 9. CADEIRIO CYFARFOD O'R CYNGOR

(1) Gall y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod ymarfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd sy'n perthyn i gadeirydd.

(2) Mewn cyfarfod o'r Cyngor fe lywydda'r cadeirydd, os yw'n bresennol.

(3) Ni chaniateir i aelod ddal swydd fel cadeirydd am gyfnod o fwy na blwyddyn gan ddechrau gyda'r Cyngor blynyddol ac eithrio aelod sydd wedi dal swydd fel cadeirydd yn ystod y cyfnod o flwyddyn ers y Cyngor blynyddol blaenorol.

(4) Os yw'r cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r Cyngor yna fe lywydda is-gadeirydd y Cyngor os yw'n bresennol.

(5) Os yw cadeirydd ac is-gadeirydd y Cyngor yn absennol o gyfarfod o'r Cyngor yna fe lywydda aelod arall o'r Cyngor i'w ddewis gan yr aelodau o'r Cyngor sy'n bresennol.

(6) Os oes angen dewis aelod o'r Cyngor i lywyddu yn absenoldeb y cadeirydd a'r is-gadeirydd, rhaid i'r swyddog priodol alw ar aelod o'r Cyngor i gynnig bod aelod o'r Cyngor a enwir gan yr aelod hwnnw yn cymryd y gadair;

(7) Os cyfyd trafodaeth ar y cynnig hwnnw, rhaid i'r swyddog priodol weithredu a chadw trefn yn y cyfarfod.

(8) Rhaid rhoi'r cynnig, ac unrhyw welliannau, gerbron y cyfarfod yn unol â rheol gweithdrefn 22(7) (pleidleisio ar benodiadau).

## 10. CADEIRIO PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) Yn amodol lle bo'n addas ar baragraffau (5) a (6), rhaid i bob pwyllgor neu is-bwyllgor yn eu cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol y Cyngor benodi rhywun o blith eu haelodau pleidleisiol sydd yn aelodau o'r Cyngor (ond ar ôl i'w fam bwyllgor gyfarfod yn gyntaf yn achos is-bwyllgor) i lywyddu yn eu cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod a rhaid iddynt, yn yr un modd, benodi rhywun i lywyddu yn absenoldeb y person cyntaf.

(2) Os yw'r personau a benodwyd dan baragraff (1) yn absennol, rhaid i gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor benodi, o blith yr aelodau pleidleisiol sydd yn bresennol ac sydd yn aelodau o'r Cyngor, rywun i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.

(3) Pryd bynnag y bo angen i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor benodi rhywun i lywyddu, rhaid i'r swyddog priodol weithredu pwerau y person sydd yn llywyddu i reoli y drafodaeth a chadw trefn yn y cyfarfod.

(4) Rhaid rhoi'r cynnig, ac unrhyw welliannau, gerbron y cyfarfod yn unol â rheol gweithdrefn 22(8)(pleidleisio ar benodiadau).

(5) Ni chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd mwy nag un pwyllgor. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn rhwystro aelod sy'n gadeirydd pwyllgor rhag cymryd y gadair mewn pwyllgor dan baragraff (2).

(6) (i) Ni chaniateir i aelod ddal swydd cadeirydd neu is-gadeirydd pwyllgor penodol am gyfnod o fwy na dwy flynedd ac eithrio aelod sydd wedi dal swydd fel cadeirydd yn ystod y cyfnod o flwyddyn ers y cyfarfod cyntaf ar ôl y Cyngor blynyddol blaenorol.

(ii) Ni chaiff aelod a fu'n dal swydd cadeirydd pwyllgor penodol ers y cyfnod y cyfeirir ato o dan yr is-baragraff blaenorol ddal swydd is-gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn ystod y flwyddyn ar ôl terfyniad ei swydd oni bai nad oedd y person hwnnw wedi dal swydd y Cadeirydd am y cyfnod hiraf a ganiateir o dan baragraff (6)(i) uchod. Gall ddal y swydd am gyfnod o flwyddyn ac fe'i cyfyngir i un eithriad yn unig.

## 11. CWORWM

(1) Cworwm cyfarfod fydd chwarter cyfanswm yr aelodau pleidleisiol. Os yw'r cadeirydd yn ystod unrhyw gyfarfod yn cyfrif nifer yr aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Ystyrir y busnes sy'n weddill ar adeg a dyddiad a bennir gan y cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn gosod dyddiad, ystyrir y busnes sy'n weddill yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

(2) Ni chaniateir trin unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod o bwyllgor nac is-bwyllgor oni bai fod o leiaf chwarter cyfanrif aelodau pleidleisiol y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, fel y bo'n briodol, yn bresennol ac ni chaniateir trin unrhyw fusnes mewn unrhyw achos onid oes o leiaf tri aelod pleidleisiol yn bresennol ac eithrio yn achos is-bwyllgor sydd yn cynnwys llai na 5 aelod, pan fydd y cworwm yn ddau aelod â phleidlais.

## 12. BUSNES BLAENORIAETH YR WRTHBLAID

(1) Mae'r rheol hon yn berthnasol lle ceir grŵp mwyafrifol ymhlith aelodau'r Cyngor.

(2) Caniateir i grŵp lleiafrifol fynnu, trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r swyddog priodol ddim hwyrach na'r amser hwyraf ar gyfer derbyn rhybudd am gynnig i'r cyfarfod hwnnw, fod unrhyw eitem arbennig o fusnes a oedd i'w rhoi ar y rhaglen i unrhyw gyfarfod o'r Cyngor i'w thrin fel busnes blaenoriaeth yr wrthblaid.

(3) Lle bo'r swyddog priodol yn derbyn mwy nag un rhybudd o'r fath ar gyfer unrhyw gyfarfod, rhaid iddo/iddi benderfynu pa rybudd fydd yn effeithiol er mwyn sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, fod cyfran pob grŵp lleiafrifol o'r rhybuddion hyn sydd yn effeithiol yn adlewyrchu'n deg maint cymharol y grwpiau hynny yn y cyfnod ers cyfarfod blynyddol diwethaf y Cyngor.

(4) Rhaid i'r swyddog priodol nodi ar y rhaglen pa eitem o fusnes (os o gwbl) sydd i'w thrin fel busnes blaenoriaeth yr wrthblaid.

(5) Os oes unrhyw eitem o fusnes i'w thrin fel busnes blaenoriaeth yr wrthblaid ac os, ymhen dwy awr ar ôl i'r cyfarfod ddechrau, nad yw'r ystyriaeth o'r eitem honno wedi dechrau, rhaid cymryd yr eitem honno nesaf ar ôl cwblhau'r busnes a drafodir ar y pryd.

## 13. CYFLWYNO DEISEBAU

### Cyfarfodydd y Cyngor

(1) Mewn cyfarfod o'r Cyngor gall unrhyw aelod o'r Cyngor neu aelod o'r cyhoedd gyflwyno deiseb, a lofnodwyd gan bobl eraill nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, sy'n berthnasol i ryw fater y mae gan y Cyngor swyddogaethau yn ei gylch, neu sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu ran ohoni, neu drigolion yr ardal honno, neu rai ohonynt. Rhaid i aelod sy'n cyflwyno deiseb fodloni'i hun fod y ddeiseb yn un briodol i'w derbyn

(2) Rhaid cyflwyno'r ddeiseb i'r swyddog priodol 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod a rhaid iddi gynnwys llofnodion o leiaf 50 o etholwyr y Sir.

(3) Bydd y Swyddog priodol yn nodi ar raglen y cyfarfod bod cais i gyflwyno deiseb wedi'i dderbyn a chyflwynir deisebau yn y drefn derbyniwyd rhybudd amdanynt.

(4) Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y sawl sydd wedi trefnu’r ddeiseb (neu’r aelod sydd yn eu cynrychioli) i gyflwyno’r ddeiseb yn ystod y cyfarfod. Caniateir 3 munud i gyflwyno’r ddeiseb, caiff y sawl sydd yn ei gyflwyno crynhoi ei ddiben, nodi nifer y llofnodwyr a gwneud unrhyw sylwadau i ategu ei gynnwys.

(5) Mae gan Arweinydd y Cyngor neu’r Arweinydd Portffolio perthnasol hawl i ymateb yn fyr i’r cyflwyniad.

(6) Cyfeirir y ddeiseb at y Cabinet neu’r Arweinydd Portffolio perthnasol neu’r pwyllgor priodol i’w ystyried. Bydd y sawl sy’n gyfrifol am drefnu’r ddeiseb yn cael gwahoddiad i fynychu unrhyw gyfarfod pwyllgor neu Gabinet pan drafodir y ddeiseb.

**Cyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau**

(7) Mewn cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor caniateir i unrhyw aelod o'r Cyngor gyflwyno deiseb, a lofnodwyd gan bobl eraill nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, sy'n berthnasol i ryw fater y mae gan y Cyngor swyddogaethau yn ei gylch, neu sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu ran ohoni, neu drigolion yr ardal honno, neu rai ohonynt. Rhaid i'r aelod sy'n cyflwyno'r ddeiseb fodloni'i hun fod y ddeiseb yn un briodol i'w derbyn.

(8) Rhaid i aelod sy'n dymuno cyflwyno deiseb roi rhybudd o'i fwriad/bwriad i wneud hynny i'r swyddog priodol cyn dechrau'r cyfarfod lle mae'n dymuno'i chyflwyno.

(9) Rhaid cyfyngu cyflwyno deiseb i ddim mwy na thri munud ac fe'i cyfyngir i ddarllen allan, neu grynhoi, ymbil y ddeiseb, nodi nifer a disgrifiad y rhai a'i llofnododd a gwneud sylwadau cefnogol pellach a fo'n berthnasol i'r ddeiseb ac a fo'n briodol ym marn y sawl sy'n ei chyflwyno.

(10) Rhaid cyflwyno deisebau yn y drefn y derbynnir rhybudd ohonynt gan y swyddog priodol.

**14. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (CYFARFODYDD Y CYNGOR)**

(1) **Cyffredinol.**

Gall aelodau’r cyhoedd ofyn cwestiynau i aelodau’r Cabinet, Cadeirydd y Cyngor neu gadeirydd unrhyw bwyllgor yng nghyfarfodydd cyffredin y Cyngor.

(2) **Trefn Cwestiynau.**

Gofynnir cwestiynau yn y drefn y derbyniwyd rhybudd amdanynt, ond gall y Cadeirydd grwpio cwestiynau tebyg gyda’i gilydd.

(3) **Rhybudd o gwestiynau.**

Ni ellir gofyn cwestiwn oni bai y rhoddwyd rhybudd drwy ei gyflwyno yn ysgrifenedig neu drwy bost electronig i'r swyddog priodol erbyn canol dydd 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf. Rhaid i bob cwestiwn nodi enw a chyfeiriad yr holwr a rhaid iddo enwi'r aelod o'r Cyngor y gofynnir y cwestiwn iddo.

(4) **Nifer y cwestiynau.**

Mewn unrhyw un cyfarfod ni all person gyflwyno mwy nag un cwestiwn ac ni ellir gofyn mwy nag un cwestiwn ar ran un corff. Ni chlywir fwy na dau gwestiwn mewn un cyfarfod.

(5) **Cwmpas y cwestiynau.**

Gall y swyddog priodol wrthod cwestiwn:-

- os nad yw yn fater y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb amdano neu nad yw'n effeithio ar y Sir;
- os yw'n un difrïol, gwamal neu dramgwyddus;
- os yw i raddau sylweddol yr un cwestiwn ag a gyflwynwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y chwe mis blaenorol;
- os yw'n ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig;
- os yw'n ymwneud â chwyn (dylai cwynion gael eu cyflwyno trwy drefn gwyno'r Cyngor);
- os yw'n ymwneud â chais penodol am ganiatâd, trwydded, cydsyniad, cymeradwyaeth neu gofrestriad, neu unrhyw gamau gorfodi yn ymwneud â mater o'r fath;
- os yw'n ymwneud ag aelod penodol, aelod o staff y Cyngor neu aelod o'r Cyhoedd; neu
- pe bai darparu ateb yn golygu cost ac ymdrech afresymol.
- os yw'n ymwneud a mater lleol sydd heb arwyddocâd ehangach i'r Sir.

(6) **Cofnod o gwestiynau.**

Bydd y swyddog priodol yn cofnodi pob cwestiwn mewn llyfr sy'n agored i'w archwilio gan y cyhoedd a bydd yn anfon copi o'r cwestiwn i'r aelod y cyflwynir ef iddo ar unwaith. Bydd cwestiynau a wrthodir yn cynnwys rhesymau am eu gwrthod.

Dosberthir copïau o'r holl gwestiynau i'r holl aelodau a byddent ar gael i'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfod.

(7) **Gofyn y cwestiwn yn y cyfarfod.**

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr holwr i holi'r cwestiwn i'r aelod a enwir yn y rhybudd. Os nad yw'r holwr yn medru bod yn bresennol, gall ofyn i'r cadeirydd holi'r cwestiwn ar ei r(h)an. Gall y cadeirydd ofyn cwestiwn ar ran yr holwr, nodi y rhoddir ateb ysgrifenedig, neu benderfynu yn absenoldeb yr holwr, na fydd y cwestiwn yn cael ei drafod.

(8) **Cwestiwn atodol.**

Gall holwr sydd wedi cyflwyno cwestiwn yn bersonol ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd i'r aelod sydd wedi ateb y cwestiwn gwreiddiol ganddo/i. Rhaid i gwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Gall y Cadeirydd wrthod cwestiwn atodol am unrhyw rai o'r rhesymau yn Rheol 5 uchod.

(9) **Amser**

Cyfyngir yr amser sydd ar gael i'r holwr i ddwy funud i ddechrau ac un funud atodol, gyda'r sawl sy'n ymateb i gael pum munud i ateb dechreuol a dwy funud i'r cwestiwn atodol.

**(10) Atebion ysgrifenedig.**

Ymdrinnir ag unrhyw gwestiwn na ellir ei drin yn ystod amser cwestiynau cyhoeddus, naill ai oherwydd diffyg amser neu oherwydd nad yw'r aelod y cyflwynwyd ef iddo yn bresennol, drwy ateb ysgrifenedig.

**15. CWESTIYNAU GAN AELODAU**

(1) **Adroddiadau'r Cabinet neu bwyllgorau eraill**

Gall aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn yn ddirybudd i'r Arweinydd, arweinydd portffolio neu gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor ar eitem o adroddiad y Cabinet, aelod o'r Cabinet neu bwyllgor arall pan fo'r eitem honno yn cael ei derbyn neu o dan ystyriaeth gan y Cyngor.

(2) **Cwestiynau y rhoddir rhybudd yn eu cylch yn y Cyngor llawn**

Yn ddarostyngedig i Reol 15(4), gall aelod o'r Cyngor ofyn cwestiwn:

- i gadeirydd y Cyngor
- i aelod o'r Cabinet;
- neu
- i gadeirydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor

am unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ymwneud â hwy neu sy'n effeithio ar y sir.

(3) **Cwestiynau y rhoddir rhybudd yn eu cylch mewn pwyllgorau ac is-bwyllgorau**

Yn ddarostyngedig i Reol 15(4), gall aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ofyn cwestiwn i'r cadeirydd ar unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau mewn perthynas ag ef neu sy'n effeithio ar yr ardal ac sy'n dod o fewn amodau gorchwyl y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

(4) **Rhybudd o gwestiynau**

Ni all aelodau ofyn cwestiwn o dan Reol 15(2) neu 15(3) oni bai naill ai eu bod:

(i) wedi rhoi o leiaf 2 ddiwrnod o rybudd yn ysgrifenedig ynglŷn â'r cwestiwn i'r swyddog priodol; neu

(ii) bod y cwestiwn yn ymwneud â materion brys, fod ganddynt ganiatâd y cadeirydd y cyflwynir y cwestiwn iddo a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei roi i'r swyddog priodol o leiaf 4 awr cyn y cyfarfod.

(6) **Ymateb**

Gall ateb fod ar ffurf:

(i) ateb llafar uniongyrchol;

(ii) gyda chydsyniad y sawl sy'n gofyn y cwestiwn, ateb ysgrifenedig yn unig;

(iii) lle bo'r wybodaeth y dymunir ei chael yn un o gyhoeddiadau'r Cyngor neu waith arall wedi ei gyhoeddi, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw; neu

(v) lle na ellir rhoi'r ateb yn gyfleus yn llafar, ateb ysgrifenedig a gaiff ei ddosbarthu yn ddiweddarach i'r holwr.

(7) **Cwestiwn atodol**

Gall aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 15(2), 15(3) neu 15(5) ofyn un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i'r aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb.

(8) **Amser**

Ni chaniateir treulio mwy na 30 munud ar gwestiynau dan reol 12(2) mewn unrhyw un cyfarfod o'r Cyngor. Os bydd cwestiynau heb eu hateb ar ddiwedd yr adeg honno rhaid dosbarthu'r cwestiynau a'r atebion ar ffurf ysgrifenedig i'r aelodau a'r wasg, a'u cynnwys maes o law yng nghofnodion y cyfarfod. Ni chaniateir mwy na 15 munud ar gwestiynau mewn pwyllgorau neu is-bwyllgorau.

## 16. TRAFODAETH AR BWNC PENODOL (CYFARFODYDD O'R CYNGOR)

(1) Ym mhob cyfarfod cyffredin o'r Cyngor gellir cael trafodaeth ar un pwnc penodol sydd wedi ei gynnig gan un o aelodau'r Cyngor.

(2) Neilltuir 30 munud ar gyfer y drafodaeth. Caiff yr aelod a gynigiodd y pwnc gyfle i egluro cefndir y mater a pham y mae ef/hi yn dymuno i'r Cyngor ei drafod.

(3) Rhaid i aelod roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog priodol os yw am gynnig pwnc ar gyfer cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor. Dylai'r rhybudd gyrraedd y Swyddog priodol ddim hwyrach na 10 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.

(4) Y Cadeirydd fydd yn penderfynu os yw pwnc yn un addas i'w drafod ac, os ceir mwyn nag un cynnig, pa un gaiff ei drafod.

(5) Ni ellir gwneud cynnig ffurfiol mewn cysylltiad â'r drafodaeth. Bydd canlyniadau'r ddadl yn cael eu hystyried gan yr Arweinydd wrth argymell y gyllideb a'r fframwaith polisi i'r Cyngor.

**16. CYNIGION Y RHODDIR RHYBUDD YN EU CYLCH**

(1) Caniateir i unrhyw aelod o'r Cyngor roi rhybudd o ddim mwy nag un cynnig i'w ystyried mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor ond caiff hefyd roi rhybudd o gynnig na ddylid ei gyfeirio'n awtomatig i bwyllgor.

(2) Caniateir i arweinydd y Cyngor roi rhybudd o fwy nag un cynnig i'w ystyried mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor.

(3) Rhaid rhoi rhybudd o bob cynnig sydd i'w wneud mewn cyfarfod o'r Cyngor, ar wahân i gynnig y caniateir ei wneud heb rybudd dan reol 14, mewn ysgrifen wedi'i lofnodi gan yr aelod neu'r aelodau o'r Cyngor sy'n rhoi'r rhybudd. Rhaid i'r rhybudd nodi ar gyfer pa gyfarfod o'r Cyngor y rhoddir y rhybudd.

(4) Rhaid rhoi rhybudd am bob cynnig lle mae rhybudd yn ofynnol i'r swyddog priodol o leiaf deng niwrnod cyn diwrnod y cyfarfod y rhoddir y rhybudd ar ei gyfer, oni bai bo'r sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod o'r farn y dylid ystyried cynnig fel mater brys pan fydd raid rhoi o leiaf 24 awr o rybudd o'r cynnig

(5) Ni chaniateir i'r swyddog priodol dderbyn unrhyw rybudd o gynnig na ellid ei ystyried yn y cyfarfod y'i rhoddir ar ei gyfer oherwydd unrhyw ddeddfwriaeth neu unrhyw ddarpariaeth yn y rheolau gweithdrefn hyn heblaw paragraff (9) isod.

(6) Rhaid i'r swyddog priodol gofnodi'r amser a'r dyddiad y rhoddir pob rhybudd o'r fath iddo. Bydd gan bob aelod o'r Cyngor hawl i archwilio'r cofnod hwnnw.

(7) Rhaid i bob cynnig fod yn berthnasol i ryw fater y mae gan yr awdurdod swyddogaethau yn ei gylch neu sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ran ohoni neu drigolion yr ardal honno neu rai ohonynt.

(8) Ni chaniateir i neb ond yr aelod sydd wedi rhoi rhybudd o gynnig, neu aelod a awdurdodwyd gan yr aelod hwnnw, wneud cynnig.

(9) Lle rhoddwyd rhybudd o gynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod â'r rhybudd hwnnw (am ba bynnag reswm) heb ei gynnig na'i farnu'n rybudd a gyfeirir i bwyllgor, bydd y rhybudd yn syrthio ac ni chaniateir gwneud y cynnig heb rybudd pellach.

(10) Yn amodol ar baragraff (11) isod, lle rhoddwyd rhybudd o gynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod, a'r rhybudd hwnnw o fewn maes llafur unrhyw bwyllgor o'r awdurdod, bernir bod y cynnig wedi'i gyfeirio gan y cyfarfod hwnnw i gyfarfod nesaf y pwyllgor neu'r pwyllgorau y mae'n dod i mewn i'w maes llafur. Rhaid i femorandwm a roddir fel atodiad gyda chofnodion y cyfarfod hwnnw gofnodi'r cyfeiriadau y bernir eu bod wedi'u gwneud yn y modd hwnnw. Os cyfyd unrhyw gwestiwn ynglŷn â pha bwyllgor y mae'r cynnig i'w gyfeirio iddo, rhaid i gadeirydd y Cyngor benderfynu.

(11) Lle cyfeiriwyd cynnig, neu lle bernir ei fod wedi'i gyfeirio, i gyfarfod o bwyllgor, rhaid i'r pwyllgor hwnnw ei ystyried yn eu cyfarfod nesaf a bydd naill ai yn adrodd ar y cynnig i gyfarfod nesaf y Cyngor, neu eu barn ar y cynnig yn eu hadroddiad nesaf i'r Cyngor.

(12) Er gwaethaf paragraff (10), caniateir ystyried cynnig heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf os penderfyna'r Cyngor hynny trwy gynnig, y rhoddwyd rhybudd ohono dan baragraff (1) uchod ond sydd i'w gynnig, ei eilio a'i roi i bleidlais heb sylw.

(13) Os rhoddir rhybudd dan y rheol gweithdrefn hon am unrhyw gynnig y gellid, ym marn y swyddog priodol, ei gynnig yn briodol fel gwelliant i gynnig i fabwysiadu argymhelliad gan bwyllgor a fydd gerbron y Cyngor, ni dderbynnir ef na'i roi ar y rhaglen heb gydsyniad cadeirydd y Cyngor. Os nad yw'n cael ei dderbyn rhaid i'r swyddog priodol hysbysu'r aelod sy'n rhoi'r rhybudd i'r perwyl hwnnw.

**18. CYNIGION HEB RYBUDD**

Gall y cynigion canlynol gael eu cynnig heb rybudd:

(i) ethol cadeirydd y cyfarfod y mae’r cynnig yn mynd i gael ei gynnig ynddo;
(ii) mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;
(iii) newid trefn busnes yn yr agenda;
(iv) ymestyn yr amser dynodedig ar gyfer araith;
(v) cyfeirio rhywbeth at gorff neu unigolyn priodol;
(vi) penodi pwyllgor neu aelod yn deillio o eitem ar yr wŷs ar gyfer y cyfarfod;
(vii) derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion pwyllgorau neu swyddogion ac unrhyw benderfyniadau yn dilyn ohonynt;
(viii) tynnu cynnig yn ôl;
(ix) diwygio cynnig;
(x) symud ymlaen at y busnes nesaf;
(xi) bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;
(xii) gohirio dadl;
(xiii) cyfeirio deiseb wedi’i gyflwyno i’r Cyngor i bwyllgor er ystyriaeth;
(xiv) gohirio cyfarfod;
(xv) cynigion yn codi o ohebiaeth neu eitemau eraill a nodir yng ngwŷs y cyfarfod;
(xvi) atal rheol gweithdrefn arbennig y Cyngor;
(xvii) gwahardd y cyhoedd a’r wasg yn unol â’r Rheolau Gweithdrefn Mynediad i Wybodaeth Pwyllgorau;
(xviii) peidio â gwrando mwy ar aelod a enwir o dan Reol 26(3) neu ei wahardd o’r cyfarfod o dan Reol 26(4) a
(xix) rhoi caniatâd y Cyngor lle mae angen ei ganiatâd gan y Cyfansoddiad hwn.

**19. HAWLIAU SIARAD MEWN CYFARFODYDD PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

**Aelodau nad ydynt yn aelodau pleidleisiol**

(1) Caniateir i gadeirydd ac is-gadeirydd y Cyngor fod yn bresennol a siarad (ond nid pleidleisio) mewn cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor sefydlog nad ydynt yn aelodau pleidleisiol ohono.

(2) Caniateir i'r sawl a benodwyd i lywyddu yng nghyfarfodydd pwyllgor, a'i (d)dirprwy, fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfod o unrhyw is-bwyllgor a benodir gan y pwyllgor hwnnw ond ni chaniateir iddo/iddi bleidleisio onid yw wedi'i benodi/phenodi fel aelod pleidleisiol.

(3) Yn amodol ar baragraff (9) o'r rheol hon caniateir i aelod o'r Cyngor nad oes ganddo/ganddi fel arall hawl i fod yn bresennol a siarad mewn pwyllgor neu is-bwyllgor neu yn ystod ymweliad â safle wneud hynny (ond nid pleidleisio) mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor neu yn achos (iii) isod yn ystod ymweliad â safle (pan fydd ef/hi â hawl i bleidleisio).

(i) pan ystyrir unrhyw gynnig y rhoddwyd rhybudd ohono, a gynigiwyd neu a eiliwyd ganddo/ganddi mewn cyfarfod o'r Cyngor ac a gyfeiriwyd i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw; neu
(ii) gyda chydsyniad y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor; neu
(iii) pan ystyrir unrhyw fater sy'n effeithio ar ei r(h)anbarth etholiadol.

(4) Ni chymhwysir paragraffau (1) (2) a (3) uchod i gyfarfodydd o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor sydd yn eistedd i wrando ar unrhyw apêl neu gŵyn gan aelodau o'r cyhoedd neu'r staff neu sydd yn gwrando ar unrhyw achos disgyblaeth staff neu sydd wedi ei sefydlu yn unig i ymchwilio i unrhyw fater penodol.

**Eilyddion**

(5) Bydd gan eilydd a benodwyd dan Reol 5 hawl i siarad a phleidleisio yn unig yn y cyfarfod perthnasol o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor ac ni fydd unrhyw swyddogaethau na phenodiadau eraill gan gynnwys penodiadau i Weithgorau o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor yn perthyn i'r aelod tra'n gweithredu fel eilydd.

(6) Ni all yr aelod sefydlog fynychu y cyfarfod os yw wedi ei eilyddio.

(7) Gall eilyddion ond fynychu cyfarfod:

(i) i gymryd lle aelod sefydlog o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor;
(ii) ble na all yr aelod sefydlog fod yn bresennol am yr oll o'r cyfarfod ac
(iii) os yw'r aelod sefydlog wedi hysbysu'r Cadeirydd ymlaen llaw o'r bwriad i eilyddio.

**Aelodau'r Cyhoedd**

(8) Ni fydd gan aelodau o'r cyhoedd eu cynrychiolwyr a chynrychiolwyr cyrff allanol yr hawl i siarad oni dderbyniasant wahoddiad i fod yn bresennol a chymryd rhan; gan y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod neu'n unol â threfn a fabwysiadwyd gan y Cyngor neu un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Cyngor neu yn unol ag unrhyw hawl statudol.

## 20. RHEOLAU TRAFOD

(1) **Dim areithiau hyd nes bo cynnig wedi ei eilio**

Ni ellir gwneud unrhyw areithiau wedi i'r cynigydd wneud cynnig ac wedi egluro ei bwrpas, hyd nes bo'r cynnig wedi ei eilio.

(2) **Hawl i ofyn am y cynnig yn ysgrifenedig**

Oni bai fod rhybudd o'r cynnig wedi ei roi yn barod, gall y cadeirydd ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ysgrifennu a'i drosglwyddo iddo ef/iddi hi cyn ei drafod.

(3) **Araith yr eilydd**

Wrth eilio cynnig neu welliant, gall aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

(4) **Cynnwys a hyd areithiau**

(i) Rhaid i areithiau ganolbwyntio ar y cwestiwn sy'n cael ei drafod neu ar esboniad personol neu bwynt o drefn. Ni all unrhyw araith fod yn hwy na 10 munud yn achos cynigiwr y cynnig, neu 5 munud yn achos unrhyw siaradwr arall, heb ganiatâd y cadeirydd.

(ii) Bydd gan yr aelod lleol ar gyfer yr ardal lle saif y sefydliad neu'r tir sydd dan drafodaeth yr hawl i siarad am hyd at 10 munud.

(5) **Pan all aelod siarad eto**

Ni all aelod sydd wedi siarad ar gynnig siarad eto tra bo'n destun trafodaeth, ac eithrio:

(i) i siarad unwaith ar welliant a gynigir gan aelod arall;

(ii) i gynnig gwelliant pellach os yw'r cynnig wedi ei ddiwygio ers iddo ef siarad ddiwethaf;

(iii) os oedd ei (haraith gyntaf ef/hi ar welliant a gynigiwyd gan aelod arall, i siarad ar y prif bwnc (p'run ai a gafodd y gwelliant y siaradodd ef amdano ei dderbyn ai peidio);

(iv) i ymarfer hawl i ateb;

(v) ar bwynt o drefn; a

(vi) fel esboniad personol.

(6) **Gwelliannau i gynigion**

(i) Rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai:

(a) i gyfeirio'r mater at gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;
(b) i ddileu geiriau;
(c) i ddileu geiriau a rhoi neu ychwanegu rhai eraill; neu
(ch) i roi neu ychwanegu geiriau

cyn belled ac nad yw effaith (b) i (ch) yn negyddu'r cynnig.

(ii) Dim ond un gwelliant y gellir ei gynnig a'i drafod ar unrhyw un adeg. Ni ddylid cynnig unrhyw welliant pellach, hyd nes y bydd y cyfarfod wedi ymdrin â phob gwelliant a gynigiwyd yn flaenorol.

(iii) Os nad yw gwelliant yn cael ei dderbyn, gellir cynnig gwelliannau eraill i'r cynnig gwreiddiol.

(iv) Os yw gwelliant yn cael ei dderbyn, mae'r cynnig fel y cafodd ei wella yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Daw hwn wedyn yn gynnig gwreiddiol y cynigir unrhyw welliannau pellach iddo.

(v) Ar ôl i welliant gael ei dderbyn, bydd y cadeirydd yn darllen y cynnig wedi ei wella cyn derbyn unrhyw welliannau pellach, neu os nad oes rai, yn ei roi i bleidlais.

(7) **Newid cynnig**

(i) Gall aelod newid cynnig y mae ef/hi wedi rhoi rhybudd yn ei gylch gyda chaniatâd y cyfarfod. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth.

(ii) Gall aelod newid cynnig y mae ef/hi wedi ei gynnig heb rybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth.

(iii) Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel gwelliant y gellir eu gwneud.

(8) **Tynnu cynnig yn ôl**

Gall aelod dynnu cynnig y mae ef/hi wedi ei gynnig yn ôl gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei arwyddo heb drafodaeth. Ni all unrhyw aelod siarad ar y cynnig ar ôl i'r cynigydd ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl, oni bai fod caniatâd yn cael ei wrthod.

(9) **Hawl i ateb**

(i) Mae gan gynigydd cynnig hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y cynnig, yn union cyn iddo gael ei roi i'r bleidlais.

(ii) Os cynigir gwelliant, mae gan gynigydd y cynnig gwreiddiol hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ar y gwelliant, ond ni all siarad arno fel arall.

(iii) Nid oes gan gynigydd y gwelliant unrhyw hawl i ateb i'r drafodaeth ar ei welliant ef neu hi ei hun.

(10) **Cynigion y gellir eu cynnig yn ystod trafodaeth**

Pan fo cynnig yn cael ei ddadlau, ni ellir cynnig unrhyw gynnig arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

(i) tynnu cynnig yn ôl;

(ii) diwygio cynnig;

(iii) symud ymlaen i'r busnes nesaf;

(iv) fod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

(v) gohirio'r ddadl;

(vi) gohirio'r cyfarfod;

(vii) gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Mynediad i Wybodaeth Pwyllgorau; a

(viii) peidio â chlywed ymhellach aelod a enwir o dan Reol 26(3) neu ei wahardd o'r cyfarfod o dan Reol 26(4).

(11) **Cynigion cau**

(i) Gall aelod gynnig, heb roi sylwadau, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith aelod arall:
(a) symud ymlaen i'r busnes nesaf;
(b) bod y cwestiwn yn awr yn cael ei roi;
(c) gohirio y ddadl; neu
(ch) gohirio cyfarfod.

(ii) Os yw cynnig i symud ymlaen i'r busnes nesaf yn cael ei eilio a bod y cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef neu hi yn rhoi hawl i ateb am ddim mwy na 3 munud i gynigydd y cynnig gwreiddiol ac yna'n rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais. Pe bai'r cynnig hwnnw yn cael ei gario, yna bydd y cynnig gwreiddiol yn disgyn.

(iii) Os yw cynnig fod y cwestiwn yn awr yn cael ei roi yn cael ei eilio a bod y cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef/hi yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais. Os caiff ei dderbyn bydd ef/hi yn rhoi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi ei gynnig ef/hi ei hun i'r bleidlais.

(iv) Os yw cynnig i ohirio'r ddadl neu i ohirio'r cyfarfod yn cael ei eilio a bod y cadeirydd yn meddwl nad yw'r eitem wedi ei thrafod yn ddigonol ac na ellir ei thrafod yn rhesymol felly ar yr achlysur hwnnw, bydd ef/hi yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais heb roi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol.

(12) **Pwynt o drefn**

Gall aelod godi pwynt o drefn unrhyw bryd. Bydd y cadeirydd yn ei wrando ar unwaith. Gall pwynt o drefn ymwneud â honiad o dorri Rheolau Gweithdrefn y Cyngor hwn neu'r gyfraith yn unig. Rhaid i'r aelod nodi'r rheol neu'r gyfraith a'r modd y mae ef/hi yn ystyried y mae wedi ei thorri. Bydd penderfyniad y cadeirydd ar y mater yn derfynol.

(13) **Esboniad personol**

Gall aelod roi esboniad personol unrhyw bryd. Rhaid i esboniad personol ymwneud yn unig â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr aelod a all ymddangos fel pe bai wedi ei chamddeall yn y ddadl bresennol. Bydd penderfyniad y cadeirydd ynghylch derbynioldeb esboniad personol yn derfynol.

(14) **Iaith**

(i) Ym mhob cyfarfod bydd i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yr un statws a'r un dilysrwydd.

(ii) Bydd gan bawb hawl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg pan fydd yn siarad mewn unrhyw gyfarfod.

(iii) Rhaid i'r swyddog priodol drefnu i ddarparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg (ac o'r Saesneg i'r Gymraeg pan ofynnir am hynny), ym mhob cyfarfod.

(iv) Yn absenoldeb cyfieithu ar y pryd, caniateir i fusnes cyfarfod fynd yn ei flaen, ond rhaid i'r sawl sy'n llywyddu sicrhau ar gais unrhyw aelod (gan gynnwys y siaradwr) y caiff union eiriau unrhyw gynnig, welliant, gwestiwn, ateb neu bwynt o drefn ac o leiaf sylwedd unrhyw araith neu sylw eu cyfieithu, ond ni fydd unrhyw fethiant anfwriadol i gydymffurfio â'r rheol hon neu unrhyw wall anfwriadol yn y cyfieithiad yn annilysu unrhyw benderfyniad.

## 21. PENDERFYNIADAU A CHYNIGION BLAENOROL

(1) **Cynnig i ddiddymu penderfyniad blaenorol**

Ni ellir gwneud
(a) cynnig neu welliant i ddiddymu penderfyniad a wnaed o fewn y chwe mis blaenorol neu
(b) gynnig neu welliant tebyg i un sydd wedi ei wrthod o fewn y chwe mis blaenorol
oni bai fod y Pwyllgor Craffu perthnasol wedi cyfeirio'r mater yn ôl am ystyriaeth bellach yn unol a'r rheolau gweithdrefn.

## 22. PLEIDLEISIO

(1) **Mwyafrif**

Oni bai fod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu drwy fwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y cyflwynwyd y cwestiwn.

(2) **Pleidlais fwrw'r cadeirydd**

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau dros ac yn erbyn, bydd gan y cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar sut y dewisa'r cadeirydd ymarfer pleidlais fwrw.

(3) **Cyfartaledd y pleidleisiau**

Os yw niferoedd y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn yn gyfartal, a bod y Swyddog Priodol yn llywyddu o dan Reol 10(3) neu fod y cadeirydd yn dewis peidio defnyddio ei b/phleidlais fwrw, bydd y mater yn cael ei benderfynu drwy dynnu dob.

(4) **Dangos dwylo**

Oni bai y gofynnir am bleidlais gudd neu bleidlais a gofnodwyd o dan Reolau 22(5) ac 22(6), bydd y cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo; neu os nad oes unrhyw wrthwynebiad, drwy gadarnhad y cyfarfod.

(5) **Pleidlais gudd**

Cymerir y bleidlais drwy bleidlais gudd os yw o leiaf dau allan o dri aelod gyda phleidlais sy'n bresennol yn y cyfarfod yn hawlio hynny. Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais cyn gynted ag y bo'r canlyniad yn wybyddus.

(6) **Pleidlais a gofnodwyd**

Os hawlia o leiaf chwarter o'r aelodau gyda phleidlais sy'n bresennol yn y cyfarfod, bydd yr enwau dros ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu sy'n atal rhag pleidleisio, yn cael eu nodi'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais gudd yn cael blaenoriaeth ar alwad am bleidlais a gofnodwyd.

(7) **Hawl i'w gwneud yn ofynnol i bleidlais unigol gael ei chofnodi**

Lle bo unrhyw aelod yn gofyn am hynny yn union ar ôl cymryd y bleidlais, cofnodir eu pleidlais felly yn y cofnodion i ddangos a wnaethant bleidleisio dros neu yn erbyn y cynnig, neu a fu iddynt atal rhag pleidleisio.

(8) **Pleidleisio ar benodiadau**

Os oes mwy na dau wedi eu henwebu ar gyfer unrhyw un safle i'w llenwi ac nad oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un person, yna cymerir enw'r sawl gyda'r nifer lleiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr a chymerir pleidlais newydd. Bydd y broses yn parhau hyd nes ceir mwyafrif o bleidleisiau i un person. Mewn etholiadau lluosog bydd pleidleisiau dros lai o ymgeiswyr na'r nifer o swyddi gwag yn ddi-rym.

## 23. COFNODION

(1) **Arwyddo'r cofnodion**

Bydd y cadeirydd yn arwyddo cofnodion y gweithgareddau yn y cyfarfod priodol nesaf. Bydd y cadeirydd yn cynnig y dylai cofnodion y cyfarfod blaenorol gael eu harwyddo fel cofnod cywir. Yr unig agwedd o'r cofnodion y gellir ei drafod yw eu cywirdeb.

(2) **Dim gofyniad i arwyddo cofnodion cyfarfod blaenorol mewn cyfarfod arbennig**

Mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod, lle bo'r cyfarfod nesaf i bwrpas arwyddo'r cofnodion yn gyfarfod a elwir o dan baragraff 3, atodlen 12 Deddf 1972 (Cyfarfod Arbennig), yna trinnir y cyfarfod canlynol nesaf (sy'n gyfarfod a elwir ac eithrio o dan y paragraff hwnnw) fel cyfarfod addas i bwrpas paragraff 41 (1) a (2) o atodlen 12 sy'n ymwneud ag arwyddo cofnodion.

(3) **Ffurf cofnodion**

Bydd cofnodion yn cynnwys holl benderfyniadau'r pwyllgor yn yr union ffurf a'r drefn y cyflwynwyd hwy gan y cadeirydd. Bydd yr holl gofnodion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 24. COFNOD PRESENOLDEB

Rhaid i'r holl aelodau sy'n bresennol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran o gyfarfod arwyddo eu henwau ar y taflenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod, i gynorthwyo gyda'r cofnod presenoldeb.

## 25. GWAHARDD Y CYHOEDD

Ni all aelodau'r cyhoedd a'r wasg gael eu gwahardd ac eithrio naill ai yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Mynediad i Wybodaeth Pwyllgorau yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn neu Reol 25 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

**26. YMDDYGIAD AELODAU**

(1) **Sefyll i siarad**

Pan fo aelod yn siarad mewn Cyngor llawn rhaid iddo/iddi sefyll ac annerch y cyfarfod drwy'r cadeirydd. Os bydd mwy nag un aelod yn sefyll, bydd y cadeirydd yn gofyn i un siarad a rhaid i'r lleill eistedd. Rhaid i aelodau eraill barhau ar eu heistedd tra bo aelod yn siarad oni bai eu bod yn dymuno gwneud pwynt o drefn neu bwynt o esboniad personol.

(2) **Cadeirydd yn sefyll**

Pan fo'r cadeirydd yn sefyll yn ystod dadl, rhaid i unrhyw aelod sy'n siarad ar y pryd beidio, ac eistedd i lawr. Rhaid i'r cyfarfod fod yn ddistaw.

(3) **Aelod i beidio â chael ei glywed ymhellach**

Os yw aelod yn anwybyddu dyfarniad y cadeirydd yn barhaus drwy ymddwyn yn amhriodol neu yn dramgwyddus neu yn rhwystro busnes yn fwriadol, gall y cadeirydd gynnig nad yw'r aelod yn cael ei glywed ymhellach. Os eilir hyn, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

(4) **Aelod i adael y cyfarfod**

Os yw'r aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, gall y cadeirydd gynnig naill ai bod yr aelod yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os eilir hyn, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

(5) **Aflonyddwch cyffredinol**

Os oes aflonyddwch cyffredinol sy'n gwneud busnes trefnus yn amhosibl, gall y cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyhyd ag y bydd ef/hi yn ei ystyried sy'n angenrheidiol.

**27. AFLONYDDWCH GAN Y CYHOEDD**

(1) **Symud aelod o'r cyhoedd**

Os yw aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws ar y gweithgareddau, bydd y cadeirydd yn rhybuddio'r sawl dan sylw. Os ydynt yn parhau i dorri ar draws, bydd y cadeirydd yn gorchymyn iddynt gael eu symud o'r ystafell bwyllgor.

(2) **Clirio rhan o'r ystafell bwyllgor**

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o'r ystafell bwyllgor sy'n agored i'r cyhoedd, gall y cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlirio.

(3) **Pwerau Ychwanegol**

Mae'r pwerau a roddir gan y rheol hon yn ychwanegol at unrhyw bwerau eraill y caniateir i'r sawl sy'n llywyddu eu harfer yn gyfreithlon.

## 28. ATAL A DIWYGIO RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR

(1) **Atal**

Gellir atal holl Reolau Gweithdrefn y Cyngor hwn ac eithrio Rheolau 11, 22(7) a 23(2) drwy gynnig gyda rhybudd neu heb rybudd os oes o leiaf hanner cyfanswm aelodau'r Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor yn bresennol. Ni all yr ataliad fod am gyfnod hwy na hyd y cyfarfod.

(2) **Diwygio**

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddiddymu'r Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, pan fydd wedi ei gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

## 29. DEHONGLIAD

Ni fydd rheoliad y person sy'n llywyddu yng nghyfarfodydd y Cyngor ac unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau ynghylch dehongliad neu gynhwysiad y Cyfansoddiad hwn neu ynglŷn ag unrhyw rai o drafodion y Cyngor, pwyllgorau neu is-bwyllgorau, yn cael ei herio mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor, pwyllgorau neu is-bwyllgorau. Bydd dehongliad o'r fath yn rhoi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad hwn a gynhwysir yn Erthygl 1 y Cyfansoddiad.

## 30. PAPURAU A CHYNGOR

(1) Rhaid anfon copi o bob papur a ddanfonir at aelodau i'w ystyried mewn cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor at brif swyddogion neu benaethiaid gwasanaeth y Cyngor sy'n ymwneud â gwaith y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

(2) Rhaid i'r swyddog priodol benderfynu ar unrhyw gwestiwn ynglŷn â pha brif swyddogion sy'n ymwneud â gwaith unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.

(3) Rhaid cadw holl raglenni, adroddiadau, dogfennau eraill a thrafodion pwyllgorau ac is-bwyllgorau'n gyfrinachol hyd eu gwneud yn hysbys i'r cyhoedd dan drefn arferol y Cyngor.

(4) Cyn iddynt roi heibio ystyried unrhyw fater, rhaid i bob pwyllgor ac is- bwyllgor roi cyfle i brif swyddog sydd â hawl i dderbyn papurau dan y rheol hon (neu swyddog arall a enwebir ganddo/ganddi) roi cyngor ar y mater hwnnw, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, os gofynna'r prif swyddog am y cyfle hwnnw.

(5) Lle bo'r Cyngor yn ystyried mater nad yw wedi'i ystyried o'r blaen gan bwyllgor neu is-bwyllgor ac na chafwyd adroddiad arno gan y corff hwnnw i'r Cyngor, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle'r ystyrir y mater sicrhau na roddir y cwestiwn i bleidlais cyn i unrhyw brif swyddog (gan gynnwys pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod) y mae ei gyfrifoldebau'n berthynol i'r mater dan ystyriaeth ac sy'n gofyn am gyfle o'r fath gael cyfle i gynghori'r Cyngor ar y mater.

(6) Rhaid i bob rhaglen, adroddiad a dogfen arall a gynhyrchwyd gan yr awdurdod ei hun ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Cyngor fod yn Gymraeg a Saesneg.

## 31. CYNHWYSIAD I BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Mae holl Reolau Gweithdrefn y Cyngor yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor llawn. Dim ond Rheolau 4-8, 10, 11, 13, 15, 18-20, 22-31 (ond nid Rheol 24(1)) sy'n berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Nid yw y rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd o'r Weithrediaeth sydd â rheolau gweithdrefn ei hun.

# RHEOLAU GWEITHDREFN Y WEITHREDIAETH (CABINET).

## 1. SUT MAE'R WEITHREDIAETH YN GWEITHREDU?

### 1.1 Pwy all wneud penderfyniadau gweithredol?

Gellir cyflwyno'r trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gweithredol yn y trefniadau gweithredol a fabwysiedir gan y Cyngor. Os nad ydynt yn cael eu cyflwyno yno, yna gall yr arweinydd benderfynu sut y maent i gael eu hymarfer. Yn y naill achos neu'r llall, gall y trefniadau neu'r arweinydd ddarparu i swyddogaethau gweithredol gael eu cyflawni gan :

i) y Weithrediaeth yn gyffredinol;

ii) pwyllgor o'r weithrediaeth;

iii) aelod unigol o'r weithrediaeth;

iv) swyddog;

v) pwyllgor ardal;

vi) trefniadau ar y cyd; neu

vii) awdurdod lleol arall.

### 1.2 Dirprwyo gan yr arweinydd

Yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd yr arweinydd yn cyflwyno i'r Cyngor gofnod ysgrifenedig o ddirprwyaeth a wnaed ganddo/ganddi i'w cynnwys yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. Bydd y ddogfen a gyflwynir gan yr arweinydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn i ddod:

i) enwau, cyfeiriadau ac etholaethau’r bobl a benodwyd i'r weithrediaeth gan yr arweinydd;

ii) maint unrhyw awdurdod a ddirprwywyd i aelodau gweithredol yn unigol, gan gynnwys manylion am gyfyngiad ar eu hawdurdod;

iii) amodau gorchwyl a chyfansoddiad pa bwyllgorau gweithredol bynnag y bydd yr arweinydd yn eu penodi ac enwau aelodau gweithredol a benodir iddynt;

iv) natur a maint unrhyw ddirprwyo ar swyddogaethau gweithredol i bwyllgorau ardal, unrhyw awdurdod arall neu unrhyw gytundebau ar y cyd ac enwau'r aelodau gweithredol hynny a benodwyd i unrhyw bwyllgor ar y cyd am y flwyddyn i ddod; a

v) natur a maint unrhyw ddirprwyo i swyddogion gyda manylion am unrhyw gyfyngu ar y dirprwyo hynny, a theitl y swyddog y gwneir y dirprwyo iddo.

**1.3 Is-ddirprwyo swyddogaethau gweithredol**

(a) Lle bo'r weithrediaeth, pwyllgor o'r weithrediaeth neu aelod unigol o'r weithrediaeth yn gyfrifol am swyddogaeth weithredol, gallant ddirprwyo ymhellach i bwyllgor ardal, trefniadau ar y cyd neu swyddog.

(b) Oni bai fod y Cyngor yn cyfarwyddo fel arall, os yw'r arweinydd yn dirprwyo swyddogaethau i'r weithrediaeth, yna gall y weithrediaeth ddirprwyo ymhellach i bwyllgor o'r weithrediaeth neu i swyddog.

(c) Oni bai fod yr arweinydd yn cyfarwyddo fel arall, gall pwyllgor o'r weithrediaeth y dirprwywyd swyddogaethau iddo gan yr arweinydd dirprwyo ymhellach i swyddog.

(ch) Hyd yn oed lle bo swyddogaethau gweithredol wedi eu dirprwyo, nid yw'r ffaith honno yn atal cyflawni swyddogaethau wedi eu dirprwyo gan y person neu'r corff a ddirprwyodd.

**1.4 Cynllun dirprwyo a swyddogaethau gweithredol y Cyngor.**

(a) Yn ddarostyngedig i (b) isod bydd yn rhaid i gynllun dirprwyo'r Cyngor gael ei fabwysiadu gan y Cyngor a gellir ei ddiwygio gan y Cyngor yn unig. Bydd yn cynnwys y manylion sy'n angenrheidiol yn Erthygl 7 ac a gyflwynwyd yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

(b) Os yw'r arweinydd yn gallu penderfynu p'run ai ddirprwyo swyddogaethau gweithredol ai peidio, gall ef/hi ddiwygio'r cynllun dirprwyo yn ymwneud â swyddogaethau gweithredol unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, rhaid i'r arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r swyddog priodol ac i'r person, corff neu bwyllgor dan sylw. Rhaid i'r rhybudd gyflwyno maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a ph'run ai a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth oddi wrth unrhyw berson, corff, pwyllgor neu'r weithrediaeth yn gyffredinol. Bydd y swyddog priodol yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor yn cyflwyno'r newidiadau a wnaed gan yr arweinydd.

(c) Lle bo'r arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth oddi wrth bwyllgor, tybir bod rhybudd wedi ei roi ar y pwyllgor hwnnw pan fo ef/hi wedi ei roi i'w gadeirydd

**1.5 Buddiannau'n gwrthdaro.**

(a) Lle bo gan yr arweinydd fuddiannau'n gwrthdaro dylid ymdrin â hyn fel y cyflwynwyd yng Nghôd Ymddygiad i Aelodau'r Cyngor yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn

(b) Os oes gan unrhyw aelod o'r weithrediaeth fuddiannau'n gwrthdaro dylid ymdrin â hyn fel y cyflwynwyd yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

(c) Os yw ymarfer swyddogaeth weithredol wedi ei ddirprwyo i bwyllgor o'r weithrediaeth, aelod unigol neu swyddog, a phe bai buddiannau'n gwrthdaro, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei hymarfer yn y lle cyntaf gan y person neu'r corff a wnaeth y dirprwyo ac fel arall fel y cyflwynwyd yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn. Dylid ceisio barn y Swyddog Monitro mewn achosion lle ceir amheuaeth.

**1.6 Cyfarfodydd gweithredol – pryd a ble?**

Bydd y weithrediaeth yn cyfarfod ar adegau i'w cytuno gan yr arweinydd. Bydd y weithrediaeth yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu leoliad arall i'w gytuno gan yr arweinydd.

**1.7 Cyfarfodydd cyhoeddus neu breifat o'r weithrediaeth?**

Mae'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad yn cyflwyno'r gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin â chyfarfodydd cyhoeddus a phreifat. Nid oes unrhyw ofyniad penodol mewn perthynas ag amledd neu le, er bod atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn caniatáu i awdurdodau wneud darpariaeth ynglŷn â chynnal Cyfarfodydd gweithredol. Dylid cyflwyno darpariaeth o'r fath yn y rhan hon o'r Cyfansoddiad.

**1.8 Cworwm**

Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r weithrediaeth, neu bwyllgor ohoni, fydd chwarter o gyfanswm nifer aelodau'r weithrediaeth (gan gynnwys yr arweinydd), neu 3 gan gynnwys yr arweinydd, pan un bynnag yw'r mwyaf.

**1.9 Sut mae penderfyniadau i gael eu cymryd gan y weithrediaeth?**

(a) Cymerir penderfyniadau gweithredol a gafodd eu dirprwyo i'r Weithrediaeth yn gyffredinol mewn cyfarfod a elwir yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

(b) Lle bo penderfyniadau gweithredol yn cael eu dirprwyo i bwyllgor o'r Weithrediaeth, bydd y rheolau sy'n berthnasol i benderfyniadau gweithredol a gymerir ganddynt yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i'r rhai hynny a gymerir gan y Weithrediaeth yn gyffredinol.

**2. SUT Y CYNHELIR CYFARFODYDD GWEITHREDOL?**

**2.1 Pwy sy'n llywyddu?**

Os yw'r arweinydd yn bresennol bydd ef/hi yn llywyddu. Yn ei absenoldeb ef/hi, yna bydd rhywun a benodwyd i wneud hynny gan y rhai hynny sy'n bresennol yn llywyddu.

**2.2 Pwy all fod yn bresennol?**

Cyflwynir y manylion hyn yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn. Mae'n fater i'r weithrediaeth benderfynu a ddylai'r rheolau hyn gael eu hehangu, er enghraifft i alluogi aelodau'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd a fyddai fel arall yn rhai preifat.

**2.3 Pa fusnes?**

Mae'r modd y cynhelir Cyfarfodydd gweithredol yn fater o ddewis lleol. Gall y gweithgareddau yng nghyfarfodydd y weithrediaeth fod ar ffurfiau gwahanol.

Ym mhob un o gyfarfodydd y weithrediaeth cyflawnir y busnes canlynol :-

(i) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(ii) datganiadau o ddiddordeb, os oes rhai;

(iii) materion a gyfeiriwyd at y weithrediaeth (naill ai gan bwyllgor trosolwg a chraffu neu gan y Cyngor) i'w hail ystyried gan y weithrediaeth yn unol â'r ddarpariaethau a gynhwysir yn Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu neu Reolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn;

(iv) ystyriaeth o adroddiadau o'r pwyllgorau trosolwg a chraffu;

(v) materion a gyflwynir yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod, ac a fydd yn nodi pa rai sy'n benderfyniadau allweddol a pha rai sydd ddim, yn unol â rheolau'r Weithdrefn Mynediad at Wybodaeth a gyflwynwyd yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

**2.4 Ymgynghori**

Rhaid i'r holl adroddiadau i'r weithrediaeth oddi wrth unrhyw aelod o'r weithrediaeth neu swyddog ynghylch argymhellion yn ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi, gynnwys manylion am natur a maint yr ymgynghori gyda chyfranddeiliaid a phwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol, a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau am faterion eraill yn cyflwyno manylion a chanlyniad yr ymgynghori fel y bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n angenrheidiol yn briodol i natur y mater o dan ystyriaeth.

**2.5 Pwy all roi eitemau ar raglen y Weithrediaeth?**

(a) Yn ddarostyngedig i (b) a (c) isod yr Arweinydd sydd yn penderfynu ar y busnes fydd i'w drafod mewn cyfarfodydd y weithrediaeth. Gall ef/hi roi unrhyw fater y mae ef/hi yn ei ddymuno ar agenda unrhyw gyfarfod gweithredol, p'run ai a ddirprwywyd awdurdod i'r weithrediaeth, un o'i phwyllgorau, neu unrhyw aelod neu swyddog mewn perthynas â'r mater hwnnw ai peidio. Bydd y swyddog priodol yn cydymffurfio â cheisiadau'r arweinydd yn hyn o beth.

(b) Gall unrhyw aelod o'r weithrediaeth ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog priodol sicrhau bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r weithrediaeth i'w hystyried. Os bydd ef/hi yn derbyn cais o'r fath bydd y swyddog priodol yn cydymffurfio.

(c) Bydd eitem sefydlog ar agenda pob un o gyfarfodydd y weithrediaeth ar gyfer materion a gyfeiriwyd gan bwyllgorau trosolwg a chraffu

## RHEOLAU GWEITHDREFN TROSOLWG A CHRAFFU

1. **Beth fydd y nifer a'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau craffu?**

(a) Bydd gan y Cyngor y pwyllgorau craffu a gyflwynir yn Erthygl 6 a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o bryd i'w gilydd. Gall pwyllgorau o'r fath benodi is-bwyllgorau. Gall pwyllgorau craffu hefyd sefydlu gweithgor o aelodau neu aelodau a swyddogion ar y cyd am gyfnod penodol ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw byddent yn peidio â bodoli.

(b) Bydd pob pwyllgor craffu yn cynnwys 18 o aelodau ac ni all unrhyw aelod o'r Weithrediaeth fod yn aelod ohono.

2**.** **Beth fydd eu cylch gorchwyl?**

Bydd y pwyllgorau craffu yn gweithredu'r swyddogaethau hynny a ddisgrifir yn Erthyl 6 y Cyfansoddiad.

3. **Pwy all eistedd ar bwyllgorau craffu?**

Gall pob cynghorydd (ac eithrio aelod o'r Weithrediaeth) fod yn aelod o bwyllgor craffu. Ond ni all unrhyw aelod fod yn ymwneud â chraffu ar benderfyniad y mae ef/hi wedi bod â chysylltiad uniongyrchol ag ef.

4. **Rhai a gyfetholir**

Bydd gan bob pwyllgor neu is-bwyllgor craffu hawl i argymell i'r Cyngor y dylid penodi nifer o bobl fel aelodau cyfetholedig heb bleidlais.

5. **Cynrychiolwyr addysg**

Bydd pob pwyllgor/is-bwyllgor craffu perthnasol yn ymwneud â materion addysg yn cynnwys o fewn ei aelodaeth y cynrychiolwyr canlynol sy'n cael pleidleisio.

(a) 1 Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru;

(b) 1 Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig; a

(c) 3 Cynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr (un bob un i gynrychioli ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd),

Pwyllgor/is-bwyllgor craffu perthnasol yn y paragraff hwn yw pwyllgor neu is-bwyllgor craffu awdurdod addysg lleol, lle bo swyddogaethau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu yn rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb y Cyngor. Os yw'r pwyllgor/is-bwyllgor craffu yn ymdrin â materion eraill, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny ac ni allant fynychu ond fel aelodau cyfetholedig o'r pwyllgor yn unig i drafod y materion eraill hynny, os gwahoddir hwy i wneud hynny.

6. **Cyfarfodydd y pwyllgorau craffu**

Bydd pob pwyllgor craffu yn cyfarfod o leiaf bob 2 fis. Yn ychwanegol, gellir galw cyfarfodydd arbennig o bryd i'w gilydd fel a phan fo hynny'n briodol. Gellir galw cyfarfod o bwyllgor craffu gan gadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol, neu gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd os yw ef/hi yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

7. **Cworwm**

Bydd cworwm ar gyfer pwyllgor craffu fel y'i cyflwynir ar gyfer pwyllgorau yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

8. **Pwy sy'n cadeirio cyfarfodydd pwyllgor craffu?**

(a) Penodir cadeiryddion y pwyllgorau/is-bwyllgorau craffu gan y pwyllgor/is-bwyllgor o blith y cynghorwyr sy'n eistedd ar y pwyllgor/is-bwyllgor.

(b) Dilynir y trefniadau a gynhwysir yn adrannau 66-75 Mesur llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar gyfer penodi personau i gadeirio pwyllgorau craffu.

9. **Rhaglen waith**

Bydd y pwyllgorau/is-bwyllgorau craffu yn gyfrifol am sefydlu eu rhaglen waith eu hunain ac wrth wneud hynny byddant yn rhoi ystyriaeth i ddymuniadau aelodau ar y pwyllgor hwnnw nad ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

10. **Eitemau ar y rhaglen**

(a) Bydd gan unrhyw aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor craffu hawl i roi rhybudd i'r swyddog priodol ei fod ef/hi yn dymuno i eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor gael ei chynnwys ar y rhaglen, a'i thrafod mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu is-bwyllgor.

(b) Ar ôl derbyn cais o'r fath bydd y swyddog priodol yn ymgynghori gyda chadeirydd y pwyllgor ynglŷn â chynnwys yr eitem ar y rhaglen nesaf sydd ar gael.

(c) Bydd y pwyllgorau craffu yn ymateb hefyd, cyn gynted a bo'u rhaglen waith yn caniatáu, i geisiadau oddi wrth y Cyngor ac, os yw'n ystyried hynny'n briodol, y Weithrediaeth i adolygu meysydd arbennig o weithgaredd y Cyngor. Lle gwnânt hynny, bydd y pwyllgor craffu yn rhoi adroddiad am eu darganfyddiadau ac unrhyw argymhellion i'r Weithrediaeth a/neu'r Cyngor.

(ch) Mae gan unrhyw aelod etholedig o'r awdurdod yr hawl i gyfeirio mater at bwyllgor craffu sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r Cyngor neu sy'n effeithio ar y cyfan neu ran o'r ardal etholiadol y mae'r cynghorydd yn ei chynrychioli.

(d) Pan wnaed cyfeiriad o'r math a ddisgrifir yn (ch) uchod, rhaid i'r pwyllgor ystyried y mater (drwy sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ar raglen cyfarfod o'r pwyllgor ac yn cael ei drafod yno) ac adrodd yn ôl i'r aelod.

11. **Adolygu a datblygu polisi**

(a) Mewn perthynas â datblygu cyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor gall y pwyllgor craffu wneud argymhellion i'r Cyngor ar faterion o fewn eu hamodau gorchwyl. Cyflwynir swyddogaethau'r pwyllgorau craffu mewn perthynas â hyn yn y Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a Fframwaith Polisi.

(b) Mewn perthynas â datblygu agwedd y Cyngor at faterion eraill nad ydynt yn ffurfio rhan o'i gyllideb a'i fframwaith polisi, gall pwyllgorau neu is-bwyllgorau craffu wneud argymhellion i'r Weithrediaeth ar gyfer datblygiadau cyn belled ag y maent yn ymwneud â materion o fewn eu hamodau gorchwyl. Cyflwynir swyddogaethau'r pwyllgorau craffu mewn perthynas â hyn yn fanwl yn rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a Fframwaith Polisi.

(c) Gall pwyllgorau craffu gynnal ymchwiliadau ac ymchwilio i ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer cyfeiriad o ran datblygu polisi yn y dyfodol a gallant benodi ymgynghorwyr ac aseswyr i'w cynorthwyo yn y broses hon. Gallant fynd ar ymweliadau safle, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil a gwneud yr holl bethau eraill y gallant yn rhesymol eu hystyried yn angenrheidiol i fod yn sail i'w hystyriaethau. Gallant ofyn i dystion fynychu i'w hannerch ar unrhyw fater o dan ystyriaeth a gallant dalu ffi a threuliau rhesymol i unrhyw ymgynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny.

12. **Adroddiadau oddi wrth bwyllgor craffu**

(a) Cyn gynted ag y bo wedi ffurfio argymhellion ar gyfer datblygu, bydd y pwyllgor craffu yn paratoi adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno i'r swyddog priodol i'w ystyried gan y Weithrediaeth (os yw'r argymhellion yn gydnaws â'r gyllideb a'r fframwaith polisi presennol), neu i'r Cyngor fel y bo'n briodol (e.e. pe bai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth neu newid i'r gyllideb a'r fframwaith polisi a gytunwyd).

(b) Os na all pwyllgor craffu gytuno ar un adroddiad terfynol i'r Cyngor neu'r Weithrediaeth fel y bo'n briodol, yna gellir paratoi hyd at un adroddiad lleiafrifol a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor neu'r Weithrediaeth gyda'r adroddiad mwyafrifol.

13. **Sicrhau bod adroddiadau craffu yn cael eu hystyried gan y Weithrediaeth.**

(a) Cyn gynted ag y bo pwyllgor craffu wedi cwblhau ei drafodaethau ar unrhyw fater bydd yn anfon copïau o'i adroddiad terfynol at y swyddog priodol a fydd yn ei ddosrannu naill ai i'r Weithrediaeth neu'r Cyngor neu'r ddau i'w ystyried, yn ôl ai a fyddai gan gynnwys yr adroddiad oblygiadau i gyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor ai peidio. Os cyfeiria'r swyddog priodol y mater at y Cyngor, bydd ef/hi yn anfon copi i 'r Arweinydd gyda rhybudd fod y mater i'w gyfeirio at y Cyngor. Bydd gan y Weithrediaeth wyth wythnos i ymateb i'r adroddiad craffu, ac ni fydd y Cyngor yn ei ystyried o fewn y cyfnod hwnnw. Pan fo'r Cyngor yn cyfarfod i ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd oddi wrth bwyllgor craffu ar fater a fyddai'n cael effaith ar y gyllideb a'r fframwaith polisi, bydd hefyd yn ystyried ymateb y Weithrediaeth i argymhellion y pwyllgor craffu.

(b) Bydd y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Weithrediaeth yn cynnwys eitem o dan y pennawd 'Materion yn deillio o graffu'. Cynhwysir adroddiadau pwyllgorau craffu a gyfeiriwyd at y Weithrediaeth yn y fan hon yn y rhaglen (oni bai eu bod wedi eu hystyried yng nghyd-destun trafodaethau'r Weithrediaeth ar eitem o sylwedd ar y rhaglen) o fewn 8 wythnos o'r adeg y bo'r pwyllgor craffu wedi cwblhau ei adroddiad/argymhellion.

(c) Lle bo pwyllgor neu is-bwyllgor craffu yn paratoi adroddiad i'w ystyried gan y Wethredieath mewn perthynas â mater lle mae Arweinydd neu'r Cyngor wedi dirprwyo'r awdurdod i wneud penderfyniadau i aelod unigol arall o'r Weithrediaeth, yna bydd y pwyllgor craffu yn cyflwyno copi o'i adroddiad i'r unigolyn hwnnw i'w ystyried. Ar adeg gwneud hyn, bydd y pwyllgor craffu yn anfon copi at y swyddog priodol a'r Arweinydd. Os nad yw'r aelod gydag awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau yn derbyn argymhellion y pwyllgor craffu yna rhaid iddo ef/hi gyfeirio'r mater at y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Weithrediaeth ar gyfer trafodaeth cyn ymarfer ei awdurdod ef/hi i wneud penderfyniadau ac ymateb i'r adroddiad yn ysgrifenedig i'r pwyllgor craffu. Bydd yr aelod o'r Weithrediaeth y dirprwywyd yr awdurdod i wneud penderfyniadau iddo/iddi yn ymateb i'r pwyllgor craffu o fewn 8 wythnos o'i dderbyn. Bydd copi o ymateb ysgrifenedig ef/hi iddo yn cael ei anfon at y swyddog priodol. Bydd yr aelod yn mynychu cyfarfod y pwyllgor craffu yn y dyfodol i ymateb.

14. **Hawliau aelodau'r pwyllgor craffu i ddogfennau**

(a) Yn ychwanegol at eu hawliau fel cynghorwyr, mae gan aelodau'r pwyllgorau craffu hawl ychwanegol i ddogfennau, ac i rybudd o gyfarfodydd fel y'i cyflwynwyd yn y Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

(b) Nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn atal cyswllt manylach rhwng y Weithrediaeth a'r pwyllgorau neu'r is-bwyllgorau craffu fel bo'n briodol yn dibynnu ar y mater arbennig o dan ystyriaeth.

15. **Aelodau a swyddogion yn rhoi cyfrif**

(a) Gall unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor craffu archwilio ac adolygu penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor. Yn ogystal ag adolygu dogfennaeth, i gyflawni'r swyddogaeth craffu, gall fynnu bod unrhyw aelod o'r Weithrediaeth, pennaeth y gwasanaeth taledig a/neu unrhyw uwch swyddog yn dod o'i flaen i egluro mewn perthynas â materion o fewn eu cylch gorchwyl:

(i) benderfyniad arbennig neu gyfres o benderfyniadau; a/neu
(ii) i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu
(iii) eu perfformiad,

a dyletswydd y personau hynny yw mynychu os mynnir felly.

Nid oes rhaid i unrhyw swyddog ateb cwestiynau pwyllgor craffu allai arwain at gamau disgyblu yn ei (h)erbyn.

(b) Lle bo'n ofynnol i unrhyw aelod neu swyddog fynychu pwyllgor craffu dan y ddarpariaeth hon, bydd cadeirydd y pwyllgor hwnnw yn hysbysu'r swyddog priodol. Bydd y swyddog priodol yn hysbysu'r aelod neu'r swyddog yn ysgrifenedig gan roi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddo ef/hi ei fynychu. Bydd y rhybudd yn nodi natur yr eitem y mae angen iddo ef/hi fynychu yn ei chylch i roi cyfrif a ph'un ai a oes angen cynhyrchu unrhyw bapurau ar gyfer y pwyllgor. Lle bydd y cyfrif i'w roi i'r pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu adroddiad, yna bydd yr aelod neu'r swyddog dan sylw yn cael digon o rybudd i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno.

(c) Mewn amgylchiadau eithriadol, lle nad yw'r aelod neu'r swyddog yn gallu mynychu ar y dyddiad angenrheidiol, yna bydd y pwyllgor craffu drwy ymgynghori â'r aelod neu'r swyddog yn trefnu dyddiad arall i fynychu.

16. **Presenoldeb gan eraill**

Gall pwyllgor craffu wahodd pobl heblaw'r bobl hynny y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 15 uchod i'w annerch, i drafod materion o bryder lleol a/neu i ateb cwestiynau. Er enghraifft, gall ddymuno clywed oddi wrth drigolion, cyfranddeiliaid ac aelodau a swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a bydd yn gwahodd pobl felly i fynychu.

17. **Galw i mewn**

(a) Pan wneir penderfyniad gan y Weithrediaeth, aelod unigol o'r Weithrediaeth, pwyllgor o'r Weithrediaeth neu o dan drefniadau ar y cyd, (y penderfynwr), rhaid cyhoeddi'r penderfyniad, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl drwy ddull electronig, a bydd yn cael ei anfon at holl aelodau'r Cyngor fel arfer o fewn 5 diwrnod o gael ei wneud.

(b) Bydd yr hysbysiad hwnnw o benderfyniad yn cynnwys y dyddiad y cafodd ei gyhoeddi a bydd yn nodi y bydd y penderfyniad yn dod i rym, ac y gellir ei weithredu wedyn, ar ddiwedd 5 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad, oni bai fod y Pwyllgor Craffu yn gwrthwynebu iddo ac yn ei alw i mewn.

(c) Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y swyddog priodol yn galw i mewn benderfyniad i graffu arno gan y Pwyllgor Craffu os gofynnir am hynny gan y Cadeirydd (neu yn ei (h)absenoldeb yr is-gadeirydd) ac unrhyw ddau aelod o'r Pwyllgor Craffu a bydd wedyn yn hysbysu'r penderfynwr o'r galw i mewn. Trafodir y penderfyniad yn y cyfarfod rhaglenedig nesaf. Mewn achos brys bydd y swyddog priodol yn galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu ar pa bynnag ddyddiad y bydd ef/hi yn penderfynu arno, lle bo hynny'n bosibl ar ôl ymgynghori â chadeirydd y pwyllgor.

(ch) Rhaid gwneud cais i alw penderfyniad i mewn yn ysgrifenedig a rhaid manylu'n glir y rhesymau am wneud hynny. Gall y rhesymau gynnwys:-

(i) Cred, ar sail cyngor y Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid, bod penderfyniad gan y Bwrdd y tu allan i fframwaith bolisi'r Cyngor neu'r gyllideb.
(ii) Cred nad yw'r Weithrediaeth wedi dilyn trefniadau ymgynghori sydd wedi eu cytuno a'u cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor cyn cyrraedd ei benderfyniad.

(iii) Cred na roddodd y Weithrediaeth sylw digonol i ofynion cyfreithiol neu ganllawiau statudol wrth wneud ei benderfyniad.

(d) Gall y swyddog priodol, ar ôl ymgynghori gyda Chadeirydd y Cyngor ac unrhyw un arall yr ystyria'n briodol, wrthod galw penderfyniad i mewn os yw'n ystyried bod y rhesymau a roddwyd yn afresymol, annigonol, gwamal neu flinderus.

(dd) Os yw'r Pwyllgor Craffu ar ôl ystyried y penderfyniad yn dal yn bryderus yn ei gylch, yna gall ei gyfeirio'n ôl at y penderfynwr i'w ailystyried, gan gyflwyno'n ysgrifenedig natur ei bryderon neu gyfeirio'r mater at y Cyngor. Os cyfeirir y mater at y penderfynwr bydd wedyn yn ailystyried o fewn 15 diwrnod gwaith pellach, gan ddiwygio'r penderfyniad neu beidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.

(e) Os nad yw'r Pwyllgor Craffu, yn dilyn gwrthwynebiad i'r penderfyniad, yn cyfeirio'r mater yn ôl at y penderfynwr neu'r Cyngor daw'r penderfyniad i rym ar ddyddiad y cynhelir y pwyllgor priodol.

(f) Os cyfeirir y mater at y Cyngor llawn ac nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu i'r penderfyniad sydd wedi ei wneud, yna nid oes angen gwneud dim pellach a bydd y penderfyniad yn effeithiol yn unol â'r ddarpariaeth isod. Fodd bynnag, os yw'r Cyngor yn gwrthwynebu bydd y Cyngor yn cyfeirio unrhyw benderfyniad y mae'n gwrthwynebu iddo yn ôl at y penderfynwr ynghyd â barn y Cyngor am y penderfyniad. Bydd y penderfynwr yn dewis p'un ai i ddiwygio'r penderfyniad ai peidio cyn gwneud penderfyniad terfynol a'i weithredu. Lle gwnaed y penderfyniad gan y Weithrediaeth lawn neu gan bwyllgor ohono, ailystyrir y penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Weithrediaeth. Lle gwnaed y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn yn ailystyried o fewn 10 diwrnod gwaith o gais y Cyngor.

(ff) Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a gyflwynir uchod yn berthnasol lle bo'r penderfyniad a gymerir yn un brys. Bydd penderfyniad yn achos brys pe bai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn yn niweidio'n ddifrifol fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau'r cyhoedd. Bydd record y penderfyniad yn nodi p'un ai yw'r penderfyniad yn un brys ym marn y penderfynwr ac felly yn un nad yw'n rhwymedig i gael ei alw i mewn. Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol neu yn ei (h)absenoldeb, Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a argymhellir yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau ac iddo gael ei drin fel mater o frys. Yn absenoldeb Cadeirydd y Cyngor bydd angen caniatâd Is-gadeirydd y Cyngor. Rhaid i benderfyniadau a gymerir fel mater o frys gael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, ynghyd â'r rhesymau am y brys.

(g) Bydd gweithredu darpariaethau yn ymwneud â galw i mewn a brys yn cael eu monitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad i'r Cyngor gydag argymhellion i'w hadolygu os oes angen.

18. **Gweithdrefn mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu**

(a) Bydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau craffu yn ystyried y busnes canlynol:

(i) cofnodion y cyfarfod diwethaf;
(ii) datganiadau o fuddiant;
(iii) ystyriaeth o unrhyw fater a gyfeiriwyd at y pwyllgor am benderfyniad mewn perthynas â galw penderfyniad i mewn;

(iv) ymatebion y Weithrediaeth i adroddiadau'r pwyllgor craffu; a
(v) y busnes a gyflwynwyd fel arall ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod.

(b) Lle bo'r pwyllgor craffu yn gwneud ymchwiliadau (e.e. gyda'r bwriad o ddatblygu polisi), gall y pwyllgor hefyd ofyn i bobl fynychu i roi tystiolaeth mewn cyfarfodydd o'r pwyllgor sydd i'w cynnal yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(i) bod yr archwiliad yn cael ei gynnal yn deg a bod holl aelodau'r pwyllgor yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n mynychu, a chyfrannu a siarad;
(ii) bod y rhai hynny sy'n cynorthwyo'r pwyllgor drwy roi tystiolaeth yn cael eu trin gyda pharch a chwrteisi; a
(iii) bod yr ymarferiad yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod yr archwiliad neu'r dadansoddiad mor effeithlon â phosibl.

(c) Yn dilyn unrhyw ymchwiliad neu arolwg, bydd y pwyllgor/is-bwyllgor yn paratoi adroddiad, i'w gyflwyno i'r Weithrediaeth a/neu'r Cyngor fel bo'n briodol a bydd yn gwneud ei adroddiad a'i ddarganfyddiadau yn gyhoeddus.

19. **Materion o fewn cylch gorchwyl mwy nag un pwyllgor craffu**

(a) Lle bo pwyllgor craffu yn gwneud arolwg neu'n craffu ar fater sydd hefyd yn syrthio (yn gyfan gwbl neu yn rhannol) o fewn cylch gorchwyl pwyllgor craffu arall, cyn cyflwyno ei ddarganfyddiadau i'r Weithrediaeth a/neu'r Cyngor i'w hystyried, bydd adroddiad y pwyllgor craffu sy'n adolygu yn cael ei ystyried gan y pwyllgor craffu arall i roi sylwadau yn ei gylch. Bydd y sylwadau hynny yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a anfonir wedyn at y corff hwnnw i'w ystyried. Yn hytrach, gall y pwyllgor craffu sy'n adolygu gwahodd cadeirydd y pwyllgor arall (neu ei (h)enwebai) i fynychu ei gyfarfodydd pan adolygir y mater hwnnw.

20. **Chwip y blaid. (Adran 78 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011).**

(a) Ni chaniateir i aelod o bwyllgor craffu bleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod o'r pwyllgor os rhoddwyd cyfarwyddyd chwip plaid i'r aelod cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r cwestiwn ("Cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid").

(b) Rhaid diystyru pleidlais a roddir yn groes i 20(a).

(c) Rhaid i aelod o'r pwyllgor ddatgan mewn cyfarfod unrhyw gyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid sydd wedi ei roi iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfarfod.

(ch) Rhaid cofnodi pob datganiad a wneir o dan 20(c) yng nghofnodion y cyfarfod.

(d) Y salw sy'n llywyddu'r cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu sydd i benderfynu a yw aelod wedi cael cyfarwyddyd`` gwaharddedig chwip plaid mewn perthynas â'r cyfarfod.

## RHEOLAU GWEITHDREFN MYNEDIAD AT WYBODAETH.

Mae'r rheolau hyn yn grynodeb o hawliau'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd a hawliau'r cyhoedd ac aelodau o'r Cyngor i archwilio a chopïo dogfennau sy'n berthnasol i'r fath gyfarfodydd. Cedwir copi o'r rheolau hyn ym Mhencadlys y Cyngor a bydd gan y cyhoedd yr hawl i'w harchwilio ar unrhyw amser rhesymol ac i wneud copi ohonynt am daliad rhesymol. Ceir arweiniad pellach ynglŷn â hawliau aelodau i wybodaeth a'r drefn o wneud hynny yn y 'Cod Ymarfer ar Hawliau i Gael Mynediad at Wybodaeth' ac yn adrannau 4, 5 a 7o'r Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog yn Rhan 5 y Cyfansoddiad.

1. **Cwmpas.**

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Cyngor, y Weithrediaeth, pwyllgorau craffu, pwyllgorau ardal, y pwyllgor safonau, y pwyllgorau rheoleiddio a phob pwyllgor arall.

2. **Hawliau Ychwanegol i Wybodaeth.**

Nid yw'r rheolau hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau mwy penodol i wybodaeth a gynhwysir mewn man arall yn y Cyfansoddiad hwn neu'r gyfraith.

3. **Hawliau i'r Cyhoedd Fynychu Cyfarfodydd.**

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd i gyd yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn y rheolau hyn yn unig.

4. **Rhybuddion am Gyfarfod.**

Bydd y Cyngor yn rhoi o leiaf pum diwrnod clir o rybudd am unrhyw gyfarfod drwy bostio manylion am y cyfarfod ym mhrif swyddfa'r Cyngor ac ar wefan y Cyngor.

5. **Mynediad at Raglen ac Adroddiadau cyn y Cyfarfod.**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r rhaglen a'r adroddiadau (ac eithrio adroddiadau eithriedig) ar gael i'r cyhoedd i'w harchwilio yn y brif swyddfa ac ar y wefan o leiaf pum diwrnod clir cyn y cyfarfod. Os ychwanegir eitem at raglen yn ddiweddarach, bydd y rhaglen ddiwygiedig (lle bo adroddiadau yn cael eu paratoi ar ôl i'r wŷs gael ei hanfon allan, bydd y swyddog dynodedig yn sicrhau bod pob adroddiad o'r fath ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'r adroddiad wedi ei gwblhau a'i anfon at gynghorwyr) ar gael i'w harchwilio o'r amser y cafodd yr eitem ei hychwanegu at y rhaglen.

6. **Cyflenwi Copïau.**

Bydd y Cyngor yn cyflenwi copïau o :

(a) unrhyw raglen ac adroddiadau sy'n agored i'r cyhoedd eu harchwilio;

(b) unrhyw ddatganiadau neu fanylion pellach sy'n angenrheidiol i nodi natur yr eitemau yn y rhaglen; a

(c) os yw'r Swyddog Monitro yn credu bod hynny'n fuddiol, copïau o unrhyw ddogfennau eraill a gyflenwyd i gynghorwyr mewn cysylltiad ag eitem i unrhyw berson ar ôl talu tâl am bostio ac unrhyw gostau eraill.

7. **Mynediad at Gofnodion ac ati ar ôl y Cyfarfod.**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau ar gael o'r canlynol am chwe blynedd ar ôl cyfarfod:

(a) cofnodion y cyfarfod ynghyd â record o benderfyniadau a gymerwyd gan y Weithrediaeth ac eithrio unrhyw ran o gofnodion trafodion pan nad oedd y cyfarfod ar agor i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei hystyried;

(b) crynodeb o unrhyw drafodion nad oedd ar gael i'r cyhoedd lle na fyddai'r cofnodion a fyddai'n agored i'w harchwilio yn rhoi record resymol o deg a threfnus;

(c) rhaglen y cyfarfod; a

(ch) adroddiadau yn ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod ar agor i'r cyhoedd.

8. **Papurau Cefndir.**

8.1 **Rhestr o bapurau cefndir.**

Bydd awdur yr adroddiad yn cyflwyno ym mhob adroddiad restr o'r dogfennau hynny (a elwir yn bapurau cefndir) yn ymwneud â thestun yr adroddiad sydd yn ei farn ef/hi:

(a) yn datgelu unrhyw ffeithiau neu faterion y seilir yr adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad arno; ac

(b) y dibynnwyd arnynt i raddau sylweddol wrth baratoi'r adroddiad

ond nid yw hyn yn cynnwys gwaith a gyhoeddwyd neu ddogfennau sy'n datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol (fel y diffiniwyd yn Rheol 10).

8.2 **Archwilio papurau cefndir gan y cyhoedd.**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod un copi o bob un o'r dogfennau ar y rhestr o bapurau cefndir ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am bedair blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.

9. **Crynodeb o Hawliau'r Cyhoedd.**

Rhaid cadw crynodeb ysgrifenedig o hawliau'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd ac i archwilio a chopïo dogfennau yn y brif swyddfa a rhaid sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd yno.

10. **Gwahardd Mynediad gan y Cyhoedd i Gyfarfodydd.**

10.1 **Cyfarfodydd Cyhoeddus a Phreifat o'r Weithrediaeth.**

10.1 Gall y weithrediaeth gymryd penderfyniadau mewn perthynas â'i swyddogaethau a chynnal busnes ffurfiol mewn cyfarfod wedi ei ffurfio'n briodol sy'n cydymffurfio ag Erthygl 13 a'r rheolau gweithdrefnol hyn yn unig. Nid yw hyn yn atal y weithrediaeth rhag cynnal trafodaethau anffurfiol yn breifat, gyda neu heb swyddogion yn bresennol, ond ni fydd y cyfarfodydd hyn yn cymryd penderfyniadau.

10.2 **Gwybodaeth gyfrinachol – gofyniad i wahardd y cyhoedd.**

Rhaid i'r cyhoedd gael eu gwahardd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes i'w drafod neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

10.3 **Gwybodaeth eithriedig – hawl i wahardd y cyhoedd**

Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes i'w drafod neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

Lle bydd y cyfarfod yn penderfynu ar hawliau neu rwymedigaethau sifil unrhyw un, neu yn effeithio'n niweidiol ar eu meddiannau, mae Erthygl 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn sefydlu rhagdybiaeth y cynhelir y cyfarfod yn gyhoeddus oni bai fod gwrandawiad preifat yn angenrheidiol am un o'r rhesymau a nodwyd yn Erthygl 6.

10.4 **Ystyr gwybodaeth gyfrinachol.**

Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan Adran o'r Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus neu wybodaeth y gwaharddir ei datgelu'n gyhoeddus drwy ddeddfwriaeth neu drwy Orchymyn Llys.

10.5 **Ystyr gwybodaeth eithriedig.**

Mae gwybodaeth eithriedig yn golygu gwybodaeth dod o fewn unrhyw un o baragraffau 12 i 18 yn y tabl canlynol (yn ddarostyngedig i unrhyw gymhwyster):

| Paragraff | Amod |
|---|---|
| 1 – 11 | Perthnasol i Loegr yn unig |
| 12. Gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol | Mae’r wybodaeth yn eithriedig cyhyd â bod y budd cyhoeddus o’i chadw’n eithriedig yn gorbwyso’r budd gyhoeddus o’i datgelu |
| 13. Gwybodaeth sy’n debyg o arwain at adnabod unigolyn | Mae’r wybodaeth yn eithriedig cyhyd â bod y budd cyhoeddus o’i chadw’n eithriedig yn gorbwyso’r budd gyhoeddus o’i datgelu |
| 14. Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy’n dal yr wybodaeth) | Nid yw’r wybodaeth yn eithriedig os oes raid iddi gael ei chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau 1985, Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974, Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992, Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978, Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 neu Ddeddf Elusennau 1993.<br><br>Yn amodol ar yr uchod mae’r wybodaeth yn eithriedig cyhyd â bod y budd cyhoeddus o’i chadw’n eithriedig yn gorbwyso’r budd gyhoeddus o’i datgelu |
| 15. Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau neu drafodaethau, neu ymgynghoriadau neu drafodaethau a fwriedir, mewn cysylltiad ag unrhyw faterion yn ymwneud â chysylltiadau llafur yn codi rhwng yr awdurdod neu Weinidog y Goron a gweithwyr, neu ddeiliaid swyddi’r awdurdod | Mae’r wybodaeth yn eithriedig cyhyd â bod y budd cyhoeddus o’i chadw’n eithriedig yn gorbwyso’r budd gyhoeddus o’i datgelu |
| 16. Gwybodaeth y gellid cynnal hawl i fraint proffesiynol cyfreithiol mewn perthynas â hi mewn unrhyw achos cyfreithiol | |
| 17. Gwybodaeth sy’n datgelu fod yr awdurdod yn bwriadu –<br>(a) rhoi o dan unrhyw ddeddf rybudd dan neu yn rhinwedd yr hon y gosodir gofynion ar berson; neu<br>(b) gwneud unrhyw orchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddf | Mae’r wybodaeth yn eithriedig cyhyd â bod y budd cyhoeddus o’i chadw’n eithriedig yn gorbwyso’r budd gyhoeddus o’i datgelu |

| | |
|---|---|
| 18. Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw weithrediad a gymerwyd neu i'w gymryd mewn cysylltiad ag atal, ymchwilio i neu erlyn trosedd | Mae'r wybodaeth yn eithriedig cyhyd â bod y budd cyhoeddus o'i chadw'n eithriedig yn gorbwyso'r budd gyhoeddus o'i datgelu |
| *(Mewn perthynas â chyfarfod o bwyllgor safonau, neu is-bwyllgor o bwyllgor safonau, sy'n cael ei gynnull i ystyried mater a gyfeirir ato o dan ddarpariaethau adran 70(4) neu (5) neu 71(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000):* | Eithriedig cyhyd â bod y budd cyhoeddus o'i chadw'n eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu |
| 18A. Gwybodaeth sy'n amodol ar unrhyw ymrwymiadau o gyfrinachedd | |
| 18B. Gwybodaeth sy'n berthnasol mewn unrhyw ffordd i faterion yn ymwneud â diogelwch gwladol | |
| 18C. Trafodion pwyllgor safonau, neu is-bwyllgor o bwyllgor safonau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato. | |

Nid yw gwybodaeth sy'n dod o fewn unrhyw rai o baragraffau 12 i 18 yn eithriedig yn rhinwedd y paragraff hwnnw os yw'n ymwneud â datblygiad arfaethedig y gall yr awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio iddo ei hun dan Reoliad 3 o Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.

11 **Gwahardd Mynediad gan y Cyhoedd i Adroddiadau.**

Os yw'r Swyddog Monitro yn ystyried bod hynny'n addas, gall y Cyngor wahardd mynediad gan y cyhoedd i adroddiadau sydd yn ei farn ef neu hi yn ymwneud ag eitemau yn ystod yr hwn, yn unol â Rheol 10, y mae'r cyfarfod yn debygol o beidio â bod ar agor i'r cyhoedd. Nodir adroddiadau o'r fath fel rhai sydd "Ddim i'w cyhoeddi" ynghyd â'r categori o wybodaeth sy'n debygol o gael ei ddatgelu.

12 **Y Rhaglen Waith ar Gyfer y Dyfodol.**

12.1 **Cyfnod y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.**

Paratoir y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol gan y swyddog priodol i ymdrin â chyfnod o bedwar mis. Bydd yn cael ei ddiweddaru yn chwarterol.

12.2 **Cynnwys y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.**

Bydd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn cynnwys materion y mae'r weithrediaeth, y pwyllgorau trosolwg a chraffu a'r Cyngor llawn yn debyg o'u hystyried. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch :-

(a) yr amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau sy'n ffurfio rhan o'r fframwaith polisi ac sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor, a pha gorff sydd i'w hystyried;

(b) yr amserlen ar gyfer ystyried unrhyw gynlluniau sy'n gyfrifoldeb y weithrediaeth;

(c) unrhyw faterion unigol y bwriada'r weithrediaeth ymgynghori yn eu cylch cyn gwneud penderfyniad, a'r amserlen ar gyfer ymgynghori a phenderfynu;

(ch) rhaglen waith y pwyllgorau trosolwg a chraffu, i'r graddau fod hynny'n wybyddus.

Cyhoeddir y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef. Bydd y swyddog priodol yn cyhoeddi rhybudd ar wefan y Cyngor, yn nodi y bydd rhaglen waith ar gyfer y dyfodol wedi ei chyhoeddi ac yn rhoi manylion ynglŷn â ble y mae modd eu gweld.

13 **Ymgynghoriad ynghylch argymhellion i'w hystyried can y weithrediaeth.**

Dylid caniatáu o leiaf 2 - 6 wythnos yn amserlen y cynllun ar gyfer y dyfodol, i ymgynghori gyda phwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol ac aelodau wardiau lle mae mater i gael ei ystyried gan y weithrediaeth, a lle nad yw'n un sydd angen sylw brys (fel y'i diffiniwyd isod), neu yn gyfrinachol neu yn eithriedig (fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 10).

Gall mater gael ei ystyried yn un brys lle'r oedd y digwyddiadau y cyfeiria atynt yn rhai na ellid eu rhagweld ar yr adeg diwethaf y cynhyrchwyd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol a bod angen penderfyniad o fewn (isafswm yr amser a ddarperir ar gyfer ymgynghori fel y nodwyd uchod).

14. **Record o Benderfyniadau'r Weithrediaeth.**

14.1 **Record y penderfyniad.**

(a) Gwneir record ysgrifenedig o bob penderfyniad gweithredol a wneir gan y weithrediaeth a’i is-bwyllgorau (os oes rhai) ac aelodau unigol o'r Weithrediaeth neu aelodau unigol nad ydynt yn y Weithrediaeth ond sydd wedi eu hawdurdodi i wneud penderfyniadau gweithredol dan Adran 56 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

(b) Bydd record o'r penderfyniadau hyn yn cynnwys datganiad, ar gyfer pob penderfyniad, o'r canlynol :
  (i) y penderfyniad a wnaed;
  (ii) y dyddiad y gwnaed y penderfyniad;
  (iii) y rhesymau am y penderfyniad hwnnw;
  (iv) unrhyw fuddiant personol a ddatganwyd;
  (v) unrhyw ganiatâd i siarad a roddwyd gan bwyllgor safonau'r Cyngor.
  (vi) yr ymgynghori a wnaed cyn y penderfyniad ac, os na wnaed ymgynghoriad felly, y rhesymau pam.

14.2 **Paratoi cofnod o'r penderfyniad.**

(a) Bydd y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd ef neu hi yn mynychu unrhyw gyfarfod o'r weithrediaeth neu bwyllgor o'r weithrediaeth, a bydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod yn cynhyrchu record o'r penderfyniad.

(b) Lle bo aelod unigol wedi gwneud penderfyniad gweithredol,

  (i) bydd yr aelod hwnnw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn gofyn i'r swyddog priodol gynhyrchu record o'r penderfyniad; a
  (ii) ni fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu hyd nes bo 5 diwrnod gwaith wedi mynd heibio ar ôl cyhoeddi'r record o'r penderfyniad hwnnw yn ddarostyngedig i (c) isod.

(c) Lle bo'r dyddiad erbyn yr hwn y mae'n rhaid gweithredu penderfyniad gweithredol a wnaed gan aelod unigol yn peri bod cydymffurfio â (b)(ii) uchod yn anymarferol, yna gellir gweithredu'r penderfyniad os oes gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad gytundeb

  (i) cadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol, neu
  (ii) os nad oes person o'r fath neu fod y person hwnnw yn methu â gweithredu, Cadeirydd y Cyngor, neu
  (iii) os nad oes cadeirydd o bwyllgor craffu perthnasol neu'r Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor

bod gwneud y cyfryw benderfyniad yn fater brys ac na ellir yn rhesymol ei ohirio.

15. **Penderfyniadau gan Aelod Unigol o'r Weithrediaeth.**

15.1 **Adroddiadau y bwriedir iddynt gael eu hystyried.**

Lle bo aelod unigol o'r weithrediaeth yn derbyn adroddiad y mae ef/hi yn bwriadu ei gymryd i ystyriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniad, yna ni fydd ef/hi yn gwneud y penderfyniad tan o leiaf 3 diwrnod clir ar ôl derbyn yr adroddiad hwnnw.

15.2 **Darparu copïau o adroddiadau i bwyllgorau craffu.**

Wrth roi adroddiad o'r fath i unigolyn sy'n gwneud penderfyniad, bydd y sawl a baratôdd yr adroddiad yn rhoi copi ohono i gadeirydd pob pwyllgor craffu perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac yn sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus yr un pryd.

15.3 **Cofnod o benderfyniad unigol.**

Bydd y rheolau ynghylch cofnodi penderfyniadau ym mharagraff 14 yn berthnasol.

16. **Mynediad Aelodau Pwyllgorau Craffu at Ddogfennau**

16.1 **Hawliau mynediad.**

Yn ddarostyngedig i reol 16.2 isod, bydd gan bwyllgor craffu (gan gynnwys ei is-bwyllgorau) hawl fynediad at unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y weithrediaeth neu ei is-bwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag

(a) unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o'r weithrediaeth neu i bwyllgorau, neu

(b) unrhyw benderfyniad a wnaed gan aelod unigol o'r weithrediaeth.

16.2 **Cyfyngiad ar hawliau.**

Ni fydd gan bwyllgor nac is-bwyllgor craffu hawl i unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys :-

(a) gwybodaeth gyfrinachol; neu

(b) gyngor a ddarperir gan ymgynghorydd neu gynorthwyydd gwleidyddol,

oni bai fod yr wybodaeth honno yn berthnasol i weithred neu benderfyniad sy'n cael ei adolygu neu ei archwilio neu unrhyw adolygiad a gynhwysir yn rhaglen waith y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

17. **Hawliau Mynediad Ychwanegol i Aelodau.**

17.1 **Hawliau mynediad.**

Bydd gan bob aelod hawl i archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y weithrediaeth neu ei bwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag unrhyw fusnes a drafodir mewn cyfarfod o gorff gwneud penderfyniadau yr awdurdod neu gan aelod unigol o'r weithrediaeth.

17.2 **Cyfyngiad ar hawliau.**

Ni fydd gan aelod hawl i unrhyw ran o ddogfen lle byddai

(a) yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol, neu

(b) yn datgelu cyngor ymgynghorydd neu gynorthwyydd gwleidyddol.

17.3 **Mynediad at Ddogfennau**

(1) Yn ogystal â hawliau aelodau o'r Cyngor dan adran 100F, Deddf 1972, ond yn amodol ar baragraff (2) isod, bydd gan y bobl a ganlyn hawl, os gwnânt gais i'r swyddog priodol, i archwilio unrhyw ddogfennau neu gael mynediad at wybodaeth arall o'r math a ddisgrifir yma:

(i) unrhyw aelod o'r Cyngor neu aelod arall (pleidleisiol ai peidio) o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor:

a) unrhyw ddogfen sydd ym meddiant y Cyngor neu dan ei reolaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fater y mae pwyllgor neu is-bwyllgor y mae ef/hi yn aelod ohono yn gweithredu swyddogaeth sydd gan y Cyngor neu'n cynghori'r corff a'u penododd yn ei gylch.

b) unrhyw wybodaeth arall a gofnodwyd, heb fod ar ffurf dogfen, sydd ym meddiant neu dan reolaeth y Cyngor, ac sydd yn angenrheidiol iddo/iddi gyflawni'i swyddogaethau'n briodol fel aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath.

(ii) unrhyw aelod o'r Cyngor

unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth a gofnodwyd sydd ym meddiant y Cyngor neu a reolir ganddo, mae angen mynediad ati er mwyn iddo/iddi gyflawni'i swyddogaethau'n briodol fel aelod o'r Cyngor; ond.

a) ni chaniateir i neb archwilio unrhyw ddogfen na chael mynediad at unrhyw wybodaeth ynglŷn â mater y mae ganddo/ganddi ddiddordeb ariannol ynddo;

b) gellir gwrthod hawl i rywun archwilio dogfen o fewn paragraff (a)(i) nad oes angen iddo/iddi ei archwilio er mwyn cyflawni'i swyddogaethau'n briodol fel aelod o'r pwyllgor neu is-bwyllgor dan sylw, os oes rheswm da pam y dylid gwrthod hawl i archwilio yn y modd hwnnw;

c) nid oes angen rhoi mynediad at wybodaeth ar ffurf dogfen lle bo cost darparu mynediad o'r fath yn afresymol o uchel, neu yn ystod cyfnod pan fyddai rhoi mynediad yn tarfu'n afresymol ar waith y Cyngor.

(2) Yn achos unrhyw ddogfen ar wahân i ddogfen y mae hawliau dan adran 100F, Deddf 1972 i'w cymhwyso iddi ac mewn unrhyw achos lle ceir gwybodaeth nad yw ar ffurf dogfen, os yw'r swyddog priodol yn ystyried nad oes angen mynediad at unrhyw ddogfen na gwybodaeth arall i gyflawni swyddogaethau'r sawl sy'n gofyn am y mynediad hwnnw (fel aelod o'r Cyngor neu fel aelod o bwyllgor neu is- bwyllgor, fel y bo'n briodol) ac os oes rheswm da pam y dylid gwrthod mynediad, caniateir iddo/iddi wrthod mynediad i'r person dan sylw at y ddogfen neu'r wybodaeth dan sylw.

(3) Nid yw'r rheol hon yn rhwystro swyddog priodol y Cyngor (neu gyfreithiwr yn gweithredu dros y Cyngor) rhag gwrthod caniatâd i archwilio unrhyw ddogfen sydd, neu mew nachos cyfreithiol a all fod, yn amddiffynedig, gan fraint perthynas cyfreithiwr â'i gleient.

(4) Lle bo aelod yn archwilio dogfen dan yr hawliau a roddir gan Adran 100F, Deddf 1972 neu'r rheol hon a lle bo gan y Cyngor hawl cyfreithiol i wneud copi o'r ddogfen honno, bydd ganddo/ganddi hawl i gael copi o'r ddogfen honnon os bydd yn gofyn amdani; ond

(i) rhaid codi tâl rhesymol am y copi oni bai fod y swyddog priodol yn dweud yn wahanol;

(ii) caniateir gwrthod copi os yw'r swyddog priodol yn credu ei bod yn anymarferol gwneud copi.

(5) Os yw unrhyw aelod o'r Cyngor neu unrhyw aelod arall o bwyllgor neu is-bwyllgor yn anfodlon gyda phenderfyniad swyddog priodol dan Adran 100F, Deddf 1972 neu dan y rheol hon, gall ef/hi gyfeirio'r mater i'r Bwrdd a fydd, wedi ystyried unrhyw ddatganiadau y gall y person dan sylw neu’r swyddog priodol ddymuno eu gwneud, yn penderfynu a ddylid cadarnhau penderfyniad y swyddog priodol, ai peidio.

17.4 **Natur hawliau**

Mae'r hawliau hyn sy'n perthyn i aelod yn ychwanegol at unrhyw hawl arall a all fod ganddo ef/ganddi hi.